Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk

Food Standards Scotland
For safe food and healthy eating

# Ein Bwyd 2021

## Adolygiad blynyddol o safonau bwyd ledled y DU



HC229
SG/2022/34

# Ein Bwyd 2021

## Adolygiad blynyddol o safonau bwyd ledled y DU

Gosodwyd gerbron Senedd Cymru yn unol ag Adran 4 o Ddeddf Safonau Bwyd 1999.

Cyflwynwyd i Senedd y DU yn unol ag Adran 4 o Ddeddf Safonau Bwyd 1999.

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 27 Mehefin 2022.

Gosodwyd gerbron Senedd yr Alban yn unol ag Adran 15(6) o Ddeddf Bwyd (Yr Alban) 2015.

Gosodwyd gerbron Senedd Gogledd Iwerddon yn unol ag Adran 4 o Ddeddf Safonau Bwyd 1999.

HC229
SG/2022/34

OGL

© Hawlfraint y Goron 2022

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol.

I weld y drwydded hon, ewch i **nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3**.

Mewn mannau lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd gofyn i chi geisio caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael drwy: **www.gov.uk/official-documents**.

Dylech anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn at y manylion cyswllt canlynol:

Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon:
Yr Asiantaeth Safonau Bwyd **fsa.communications@food.gov.uk**
Twitter **@FSACymru**
Facebook **facebook.com/AsiantaethSafonauBwyd**

Yr Alban:
Safonau Bwyd yr Alban **enquiries@fss.scot**
Twitter **@FSScot**
Facebook **facebook.com/FoodStandardsScotland**

ISBN 978-1-5286-3396-3
E02754112

Wedi'i argraffu ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffeibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi a chan APS Group Scotland ar ran Safonau Bwyd yr Alban.

# Cynnwys


**Rhagair** . . . . . . . . 7

**Crynodeb gweithredol** . . . . . . . . 10

**Gosod adroddiad eleni mewn cyd-destun** . . . . . . . . 17

Amserlen o ddigwyddiadau allanol arwyddocaol . . . . . . . . 18

Crynodeb o effaith ymadael â'r UE ar lunio polisi . . . . . . . . 22

**1 Plât y genedl** . . . . . . . . 25

Ein deiet a'n dewisiadau bwyd heddiw . . . . . . . . 25

**2 Safbwynt byd-eang** . . . . . . . . 51

Mewnforion bwyd a'u heffaith ar safonau . . . . . . . . 51

**3 Diogel a chadarn** . . . . . . . . 61

Y tueddiadau diweddaraf o ran troseddau bwyd a digwyddiadau bwyd . . . . . . . . 61

**4 Hysbysu defnyddwyr** . . . . . . . . 75

Y datblygiadau diweddaraf o ran labelu bwyd a gwybodaeth am fwyd . . . . . . . . 75

**5 Pwysigrwydd hylendid** . . . . . . . . 93

Safonau hylendid mewn sefydliadau bwyd a bwyd anifeiliaid . . . . . . . . 93

**Casgliadau** . . . . . . . . 105

**Atodiadau** . . . . . . . . 109

**Atodiad 1: Acronymau** . . . . . . . . 110

**Atodiad 2: Rhestr dermau** . . . . . . . . 112

**Atodiad 3: Tabl ffigurau** . . . . . . . . 116

**Atodiad 4: Cyfeiriadau penodau a nodiadau esboniadol** . . . . . . . . 118

**Diolchiadau** . . . . . . . . 129



# Rhagair

**Mae bwyd yn bwysig. Yn wir, mae'n rhan annatod o bwy ydym ni a sut rydym yn byw. Mae'n effeithio ar ein hiechyd, yn diffinio ein cymunedau ac yn rhoi nerth i'n heconomi. Mae'n cynnig mwynhad, amrywiaeth a chysur i ni yn ein bywydau. At fwyd y byddwn yn troi, dro ar ôl tro, pan fyddwn am ddathlu a rhannu achlysuron arbennig gyda'n teulu a'n ffrindiau.**

Oherwydd hyn oll, mae'n hanfodol bod y bwyd rydym yn ei brynu yn bodloni'r safonau a ddisgwyliwn ac yn cefnogi'r gwerthoedd sy'n bwysig i ni. Fel defnyddwyr, dylem deimlo'n hyderus bod yr hyn yr ydym yn ei fwyta yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label, a'n bod yn cael ein diogelu rhag unrhyw beth sy'n anniogel, yn annilys, neu'n niweidiol. Dylai pawb fod â'r grym a'r wybodaeth i wneud y dewisiadau deietegol iawn drostynt eu hunain, eu teuluoedd a'r blaned.

Pam cyhoeddi adroddiad ar safonau bwyd nawr felly? Yn syml, credwn fod hwn yn gyfnod pwysig ar gyfer ansawdd a diogelwch bwyd. Ar adeg pan fo gan y Deyrnas Unedig (DU) gyfrifoldebau newydd dros fwyd yn dilyn ein hymadawiad â'r Undeb Ewropeaidd (UE), mae angen cyrff gwarchod cryf ar ddefnyddwyr i bennu a yw safonau'n cael eu diogelu. Bydd yr adroddiad hwn – y cyntaf mewn cyfres i'w gyhoeddi'n flynyddol – yn ein helpu i wneud hynny drwy ddarparu asesiad gwrthrychol, yn seiliedig ar ddata, o ddiogelwch a safonau bwyd dros amser.

Pam ni? Gan mai'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a Safonau Bwyd yr Alban sy'n gyfrifol am safonau bwyd ar draws y DU gyfan – mae hwn yn gydweithrediad pwysig, hirdymor rhwng ein dau sefydliad, a dylai ddarparu mwy o dryloywder ac atebolrwydd am ansawdd bwyd ar draws y pedair gwlad. Bydd hyn, yn ei dro, yn ein helpu i weithio gyda busnesau bwyd, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i fynd i'r afael ag unrhyw fygythiadau neu wendidau sy'n dod i'r amlwg.

Pam nawr? Oherwydd bod yr adroddiad cyntaf hwn yn cynnig cyfle i fyfyrio ar gyfnod arbennig o bwysig i fwyd y DU, yn cwmpasu'r blynyddoedd rhwng 2019 a 2021. Mae'n cynnwys, nid yn unig y flwyddyn gyntaf ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, ond hefyd yn ystyried anterth y pandemig COVID-19. Roedd y ddau ddigwyddiad yn cyflwyno heriau sylweddol o ran sicrhau parhad busnes a chynnal safonau rheoleiddio. Mae rhan fawr o'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ddeall effaith y digwyddiadau hyn, yr hyn y gallwn ei ddysgu ganddynt, a'r hyn y mae angen i ni ei fonitro yn y dyfodol.

Ar yr un pryd, mae newidiadau cymdeithasol eraill yn codi cwestiynau ychwanegol. Mae pobl yn ailystyried eu disgwyliadau a'u blaenoriaethau yn sgil newid yn yr hinsawdd. Mae technoleg yn ail-lunio'r dirwedd fusnes ac yn creu heriau rheoleiddio newydd. Mae deiet gwael a gordewdra yn parhau i fod yn bryderon mawr, gyda phryderon iechyd hefyd yn rhoi mwy o ffocws ar wybodaeth am fwyd ac uniondeb dulliau marchnata cynhyrchion.

Dyma gyfnod hefyd pan oedd pobl yn dechrau teimlo effaith y cynnydd mewn prisiau bwyd. Fel y gwelwn, mae risg y bydd hyn yn gwneud i ddeiet iachach a mwy cynaliadwy

deimlo fel rhywbeth y tu hwnt i'n cyrraedd. Disgwyliwn y bydd fforddiadwyedd bwyd – a 'bwyd da' yn arbennig – yn thema arwyddocaol yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

Yn olaf, mae ein system fwyd yn gwbl fyd-eang ei natur, a rhan bwysig o'n gwaith yw gweithio gyda Llywodraeth Cymru, adrannau Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i ddiogelu safonau bwyd rhag effaith bosibl unrhyw ergydion a chynnwrf allanol. Mae'r rhyfel yn Wcráin, er enghraifft, eisoes yn tarfu ar gadwyni cyflenwi bwyd. Er ei bod yn rhy gynnar i ddod i unrhyw gasgliadau am yr effaith benodol ar safonau bwyd, mae hyn yn rhywbeth rydym yn ei fonitro'n agos, a byddwn yn ei ystyried ymhellach yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

Yn yr un modd, wrth i'r DU feithrin perthnasoedd masnachu newydd â gweddill y byd ac wrth i'n perthynas â'r UE ddatblygu, mae angen inni gadw llygad barcud ar effaith cytundebau masnach newydd ac effeithiolrwydd mesurau a roddir ar waith i gynnal safonau bwydydd a fewnforir.

Wrth gwrs, mae'r broses o gael bwyd diogel o'r 'fferm i'r fforc' yn gymhleth ac yn amlochrog, a dim ond rhai o'r meysydd hyn y gall yr adroddiad hwn fynd i'r afael â nhw. Fodd bynnag, rydym am i'r dystiolaeth hon sbarduno sgyrsiau pwysig am dueddiadau sy'n dod i'r amlwg, risgiau yn y dyfodol, a sut y gallwn, gyda'n gilydd, lywio ein ffordd drwy ansicrwydd a newid.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda'n gilydd a'n partneriaid niferus i sicrhau bod bwyd y DU yn parhau i fod yn ddiogel, yn iachach ac yn fwy cynaliadwy.





Mis Mehefin 2022
**Yr Athro Susan Jebb**
Cadeirydd yr Asiantaeth
Safonau Bwyd





Mis Mehefin 2022
**Heather Kelman**
Cadeirydd
Safonau Bwyd yr Alban

## Yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), a sefydlwyd yn 2000, yn adran annibynnol, anweinidogol o'r llywodraeth sy'n gweithio i ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau ehangach defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Gyda chyfrifoldebau sy'n rhychwantu pob agwedd ar ddiogelwch a safonau bwyd a bwyd anifeiliaid ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae'n gweithio i sicrhau bod y bwyd rydym yn ei fwyta yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label, ac yn iachach a mwy cynaliadwy at y dyfodol.

## Safonau Bwyd yr Alban

Sefydlwyd Safonau Bwyd yr Alban ar 1 Ebrill 2015 fel corff bwyd sector cyhoeddus anweinidogol annibynnol newydd ar gyfer yr Alban. Ei fwriad yw cynnal diogelwch a safonau bwyd, gwella deiet y cyhoedd, a diogelu buddiannau eraill defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Mae ei gylch gwaith yn cwmpasu pob agwedd ar y gadwyn fwyd a all effeithio ar iechyd y cyhoedd, a'i nod yw diogelu ddefnyddwyr rhag risgiau diogelwch bwyd a hybu bwyta'n iach.

Comisiynwyd Safonau Bwyd yr Alban yn ffurfiol gan y Gweinidog Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Menywod a Chwaraeon i lunio'r adroddiad hwn, ar y cyd â'r ASB, i gefnogi gofynion Deddf Bwyd (yr Alban) 2015, sy'n nodi amcan statudol clir i Safonau Bwyd yr Alban, sef diogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.



# Crynodeb gweithredol

## Cyflwyniad a chwmpas y gwaith

**Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r newidiadau allweddol mewn perthynas â safonau bwyd o 2019 i 2021. Yn ystod y cyfnod hwn, effeithiodd ein hymadawiad â'r UE a phandemig COVID-19 ar system fwyd y DU.**

Mae safonau bwyd, wrth gwrs, yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl. At ddibenion yr adroddiad hwn, rydym yn edrych ar safonau mewn dwy ffordd:

1. **Diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid (gan gynnwys rheoli alergenau)** – hynny yw, sicrhau bod y cynnyrch yn ddiogel i'w fwyta neu, yn achos bwyd anifeiliaid, yn ddiogel i'w gyflwyno i'r gadwyn fwyd. Ystyrir nifer o ffactorau wrth gynnig safonau diogelwch, gan gynnwys cyngor gan aseswyr risg yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban ac arbenigwyr ehangach yn ogystal ag agweddau eraill fel yr egwyddorion a allai bennu'r risgiau sy'n dderbyniol i ddefnyddwyr.
2. **'Safonau eraill' sy'n cefnogi defnyddwyr ac yn rhoi sicrwydd** – mae hyn yn cynnwys tarddiad a dilysrwydd, safonau cynhyrchu (er enghraifft, lles anifeiliaid a chynaliadwyedd), cyfansoddiad a maeth, labelu a hysbysebu bwyd, a gwybodaeth arall sy'n galluogi defnyddwyr i wneud penderfyniadau gwybodus yn seiliedig ar y gwerthoedd sy'n bwysig iddynt.

Mae cydymffurfiaeth y diwydiant â safonau rheoleiddio, yn ogystal â chapasiti a gallu awdurdodau i gynnal y gydymffurfiaeth honno, yn elfennau hanfodol wrth asesu a yw safonau bwyd yn cael eu cynnal yn ymarferol. Er bod llawer o safonau yn orfodol yn ôl y gyfraith, ceir hefyd safonau gwirfoddol, a gynhelir gan y diwydiant neu a gefnogir gan gynlluniau sicrwydd annibynnol, a all fynd y tu hwnt i ofynion cyfreithiol a thawelu meddwl defnyddwyr wrth wneud dewisiadau bwyd gwybodus.

Yn yr adroddiad hwn rydym yn gofyn a yw ein bwyd yn ddiogel, yn faethlon, yn ddilys, ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label, gyda'r nod o ddiogelu buddiannau defnyddwyr. Rydym yn defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth i ddod o hyd i'r ateb – gan gynnwys data gan awdurdodau lleol, ystadegau swyddogol y llywodraeth, ffurflenni cydymffurfio o wiriadau mewnforio, a'n hymchwil a'n gweithgarwch gwyliadwriaeth ein hunain yn yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban. Ein nod yw dangos a yw safonau'n cael eu cynnal, gan ganolbwyntio eleni ar safonau rheoleiddio. Mae'r adroddiad at ei gilydd yn dadansoddi data ledled y DU gyfan ond, lle bo modd, rydym yn manylu ar ddata unigol y pedair gwlad.

Gall adroddiadau yn y dyfodol hefyd ystyried safonau cynhyrchu ehangach, fel materion mwy penodol sy'n ymwneud â lles anifeiliaid ac effaith amgylcheddol cynhyrchu gan adlewyrchu ymwybyddiaeth gynyddol y cyhoedd a'u diddordeb yn y ffordd y mae ein system fwyd yn gweithio a'i heffaith ar y byd o'n cwmpas. Mae'r materion hyn hefyd yn berthnasol i gytundebau masnach rydd newydd, sydd wedi arwain at drafodaethau ymysg y pedair gwlad, oherwydd pryderon y gallent arwain at roi bwyd wedi'i gynhyrchu i safon is ar farchnad y DU.

Yn olaf, rydym yn adrodd ar sut mae safonau bwyd yn cael eu gorfodi, gan archwilio'r system gadarn o reolaethau sy'n sail i gydymffurfiaeth busnesau, boed mewn lladd-dai, ffatrïoedd, ar y ffin, neu mewn mannau eraill. Ein nod yw mesur pa mor effeithiol y mae'r diwydiant bwyd yn cydymffurfio â'r rheolau hyn, a pha mor effeithiol ydym yn ei gefnogi i wneud hynny.

Fel y system fwyd ei hun, mae safonau bwyd yn gymhleth ac yn amlddimensiynol. Fel defnyddwyr, mae gan bob un ohonom farn am yr hyn sydd bwysicaf pan ddaw at rinweddau'r bwyd rydym yn ei fwyta. Ond gall hyn esblygu dros amser wrth i'n dewisiadau a'n blaenoriaethau newid, ac wrth i ddigwyddiadau newydd effeithio ar ein cadwyn cyflenwi bwyd. Fel y cyfryw, mae'r blaenoriaethau a'r safonau rydym yn gweithio tuag atynt yn rhan o ddeialog parhaus rhwng y diwydiant, defnyddwyr a'r rheiny sy'n creu'r rheolau am y pethau rydym yn eu gwerthfawrogi fwyaf yn y pen draw.

Ni all yr adroddiad hwn wneud cyfiawnder â phob agwedd ar safonau bwyd, er yr hoffem i'r adroddiad blynyddol hwn dyfu dros amser ac i'n dadansoddiad o'r data a'n sylwebaeth ddatblygu yn sgil hynny. Am y tro, rydym yn nodi'n glir ar ddechrau pob pennod pa agweddau penodol ar ein diffiniad o safonau bwyd rydym yn canolbwyntio arnynt.

## Prif ganfyddiadau

Mae'r dystiolaeth a nodir yn yr adroddiad hwn yn awgrymu bod safonau diogelwch bwyd cyffredinol wedi'u cynnal i raddau helaeth yn ystod 2021. Fodd bynnag, ni allwn fod yn gwbl hyderus yn y casgliad hwn. Gwnaeth y pandemig darfu ar arolygiadau, samplu ac archwiliadau rheolaidd ym mhob rhan o'r system fwyd, gan olygu bod llai o ddata ar gael i ni ei ddefnyddio wrth asesu cydymffurfiaeth busnesau yn erbyn gofynion cyfraith fwyd. Newidiodd hefyd batrymau ymddygiad defnyddwyr. Er bod safonau diogelwch bwyd wedi'u cynnal i raddau helaeth, mae'r ddau sefydliad yn cydnabod bod risgiau sylweddol ar y gorwel.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at ddau faes penodol sy'n peri pryder. Yn gyntaf, bu gostyngiad yn lefel arolygiadau awdurdodau lleol o fusnesau bwyd. Mae'r sefyllfa wrthi'n cael ei hunioni, yn enwedig o ran arolygu hylendid bwyd caffis a bwytai. Fodd bynnag, mae cynnydd wedi'i gyfyngu o ganlyniad i adnoddau ac argaeledd gweithwyr proffesiynol cymwys.

Mae'r ail yn ymwneud â mewnforio bwyd o'r UE. Er mwyn gwella lefelau sicrwydd mewn perthynas â bwyd risg uwch o'r UE fel cig, llaeth ac wyau, a bwyd a bwyd anifeiliaid sydd wedi dod i'r DU drwy'r UE, mae'n hanfodol bod rheolaethau gwell yn cael eu rhoi ar waith yn unol â'r amserlen y mae Llywodraeth y DU wedi'i phennu (erbyn diwedd 2023). Po hiraf y bydd y DU yn gweithredu heb sicrwydd gan y wlad sy'n allforio fod cynhyrchion yn bodloni safonau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid uchel y DU, y lleiaf hyderus y gallwn fod ynghylch nodi digwyddiadau diogelwch posibl yn effeithiol.

Mae'n hanfodol bod y DU yn gallu atal mynediad i fwyd anniogel, nodi risgiau sy'n newid ac ymateb iddynt. Er ein bod wedi ystyried yr heriau hyn yn ofalus ac wedi rhoi trefniadau eraill sydd o fewn ein rheolaeth ar waith, nid ydynt yn ddigonol yn ein barn ni. Rydym felly wedi ymrwymo i weithio gydag adrannau'r llywodraeth i sicrhau bod cyflwyno'r rheolaethau mewnforio gwell hyn yn darparu lefelau uchel o amddiffyniad i ddefnyddwyr yn y DU.

## Crynodeb o'r adroddiad

Mae'r adroddiad yn cynnwys pum prif bennod, ac mae pob un ohonynt yn canolbwyntio ar agwedd wahanol ar system fwyd y DU. Rydym wedi rhestru pwyntiau allweddol pob pennod isod. Er bod y rhan fwyaf o'r data a ddarperir yn yr adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2019 a 2021, rydym wedi cynnwys data hanesyddol lle y bo'n briodol, yn ogystal â'n hymchwil defnyddwyr diweddaraf ar **fuddiannau, anghenion a phryderon cyhoedd y DU mewn perthynas â bwyd** a gynhaliwyd ddechrau 2022.

### Plât y genedl

Mae'r bennod hon yn ystyried y mathau o fwyd sydd ar blât y genedl a beth mae hyn yn ei ddweud wrthym ynghylch i ba raddau rydym yn dilyn argymhellion deietegol. Mae hefyd yn edrych ar ein harferion bwyta a'n hymddygiad prynu, gan gynnwys y ffactorau sy'n dylanwadu ar hyn.

1. Ychydig iawn o newid sydd wedi bod o ran faint o faethynnau y mae'r genedl yn eu bwyta dros y degawd diwethaf, gyda llawer o bobl yn dal i fethu â bodloni argymhellion deietegol swyddogol. Fodd bynnag, bu gostyngiad nodedig o ran faint o siwgrau rhydd sy'n cael eu bwyta ar gyfartaledd, yn enwedig ymhlith plant (er ei fod yn dal i fod yn llawer uwch na'r hyn a argymhellir). Mae pobl hefyd yn bwyta llai o gig coch a chig wedi'i brosesu. Dywed un o bob pedwar eu bod bellach yn mabwysiadu arferion bwyta 'hyblyg', sy'n golygu eu bod yn dal i fwyta cig, cynnyrch llaeth ac anifeiliaid ond dim cymaint ohonynt.
2. Mae'n ymddangos bod effaith y pandemig ar ddeietau pobl wedi amrywio. Mae tystiolaeth yn dangos bod rhai pobl wedi paratoi a bwyta prydau iachus gartref oherwydd y cyfyngiadau, ond eu bod hefyd wedi cyfrannu at duedd pobl i fwyta byrbrydau a bwyd tecawê afiach. Nododd pobl sy'n dod o gartrefi â diogeledd bwyd is neu gartrefi llai diogel yn ariannol eu bod yn bwyta llai o ffrwythau a llysiau, llai o bysgod ac yn yfed mwy o ddiodydd meddal wedi'u melysu â siwgr na'r rhai a oedd yn fwy diogel yn ariannol neu â mwy o ddiogeledd bwyd.
3. Mae ymchwil ddiweddaraf yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn dangos mai'r prif beth y mae'r cyhoedd yn pryderu amdano yw cael mynediad at fwyd iachus am bris fforddiadwy. Dywedodd mwy na thri chwarter (76%) eu bod yn poeni neu'n poeni'n fawr am gost bwyd.
4. Mae'r cynnydd ym mhrisiau bwyd yn ddiweddar yn cyflwyno peryglon cynyddol i safon y bwyd y mae pobl yn ei fwyta. Dywedodd mwy na hanner o ddefnyddwyr (53%) eu bod yn teimlo na allant fforddio prynu bwyd iachus, ac mae un o bob pedwar defnyddiwr bellach yn teimlo mai'r unig fwydydd sydd ar gael iddynt yn ymarferol yw bwydydd sydd wedi'u prosesu'n helaeth. Mae hyn yn cynyddu i oddeutu hanner defnyddwyr ar gyfer cartrefi sy'n wynebu diffyg diogeledd bwyd. Wrth i bwysau ariannol ar incwm cartrefi ddwysáu eleni, mae'n debygol y bydd hyn yn effeithio ar ansawdd y bwyd sydd ar blât y genedl.

## Safbwynt byd-eang

Mae'r bennod hon yn edrych ar ddiogelwch bwyd wedi'i fewnforio dros y blynyddoedd diwethaf, yn ogystal â'r trafodaethau cynyddol ar sut rydym yn cynnal safonau cynhyrchu ehangach wrth i'r DU ymrwymo i bartneriaethau masnachu newydd. Mae hyn yn bwysig oherwydd nid yw diogelwch bwyd ar ei ben ei hun yn gwarantu safonau uchel.

5. Mae tua 40 miliwn o dunelli o fwyd yn cael ei fewnforio o dramor bob blwyddyn. Yr UE yw'r cyflenwr mwyaf o bell ffordd, gan gyfrif am fwy na 90% o'r holl gynhyrchion cig eidion, llaeth, wyau a phorc a fewnforir i'r DU, a bron i ddwy ran o dair (65%) o'r holl fwyd a bwyd anifeiliaid nad yw'n dod o anifeiliaid.

6. Er gwaethaf anweddolrwydd diweddar o ran patrymau mewnforio, nid oes unrhyw arwydd o newid uniongyrchol neu gyfan gwbl i'r llif masnachu yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, er bod mewnforion pysgod, cig oen a chig dafad, a phorc wedi gostwng rhwng 2019 a 2021.

7. Mae dadansoddiad o lefelau cydymffurfio mewn gwiriadau rheolaethau mewnforio a gynhaliwyd rhwng 2020 a 2021 yn dangos na fu unrhyw newid ystyrlon yn safon y nwyddau a fewnforir o ganlyniad i'r pandemig neu ymadawiad y DU â'r UE.

8. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU yn ddiweddar y byddai rheolaethau mewnforio llawn ar gyfer nwyddau sy'n dod o'r UE i Brydain Fawr yn cael eu gohirio ac y bydd dull modern o reoli'r ffin yn disodli'r dull presennol, a hynny erbyn diwedd 2023. Tan hynny, bydd awdurdodau diogelwch bwyd y DU yn parhau i reoli risgiau trwy hysbysiadau ymlaen llaw[1], a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2022 ar gyfer rhai mewnforion bwyd a bwyd anifeiliaid risg uchel, a thrwy wella gallu a chapasiti a roddwyd ar waith fel rhan o'r cynllunio ar gyfer ymadael â'r UE i nodi digwyddiadau bwyd a bwyd anifeiliaid, ac ymateb iddynt yn effeithiol.

9. Er nad oes tystiolaeth i ddangos bod safonau mewnforion yr UE wedi gostwng, mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban o'r farn bod y sefyllfa bresennol yn lleihau ein gallu i atal bwyd nad yw'n bodloni safonau uchel y DU rhag cael ei roi ar ein marchnad. Mae'r diffyg rheolaethau mewnforio yn golygu nad ydym yn cael sicrwydd swyddogol gan y wlad sy'n allforio fod eu mewnforion yn bodloni safonau diogelwch uchel y DU ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid. Gallai absenoldeb archwiliadau ar y ffin hefyd effeithio ar y ffordd rydym yn nodi ac yn ymateb i risgiau yn y dyfodol, gan olygu bod angen mwy o adnoddau ar y DU i gynnal lefelau sicrwydd diogelwch bwyd ar gyfer y mewnforion hyn.

10. Mae cytundebau masnach rydd newydd gydag Awstralia a Seland Newydd wrthi'n cael eu cadarnhau ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Mae gan Lywodraeth y DU rwymedigaeth statudol i roi gwybod i Senedd y DU a yw pob cytundeb masnach rydd yn diogelu iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion, lles anifeiliaid neu'r amgylchedd ar lefel statudol. Mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn darparu cyngor ar ddiogelwch statudol er budd iechyd pobl yn ystod y broses hon.

## Diogel a chadarn

Mae'r bennod hon yn ystyried faint o ddigwyddiadau bwyd yr adroddwyd amdanynt dros y cyfnod dan sylw, ac yn archwilio'r gwahanol ffactorau sy'n dylanwadu arnynt. Mae hefyd yn disgrifio'r tueddiadau diweddaraf o ran troseddau bwyd a'r hyn sy'n llywio ein hymateb iddynt.

11. Mae ein dadansoddiad o ddigwyddiadau bwyd yr adroddwyd amdanynt yn dangos gostyngiad yn nifer y digwyddiadau yn 2020. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod llai o fusnesau bwyd wedi masnachu yn ystod y cyfnod clo, a bod archfarchnadoedd wedi cyfyngu ar yr ystod o gynhyrchion. Ers hynny, mae'r nifer o hysbysiadau wedi dychwelyd i lefelau cyfartalog hanesyddol.
12. Roedd cynnydd yn nifer yr achosion o halogiad gan ficro-organebau niweidiol yr adroddwyd amdanynt yn ystod 2020 a 2021. Roedd hyn o ganlyniad i wyliadwriaeth well (yn benodol, cyflwyno Dilyniannu Genom Cyfan i olrhain ffynhonnell yr achosion) ac effaith benodol brigiad o achosion o salmonela mewn cynhyrchion cyw iâr mewn briwsion bara a arweiniodd at gynnydd mewn gwaith samplu.
13. Roedd gostyngiad yn nifer y digwyddiadau'n ymwneud ag alergenau bwyd rhwng 2019 a 2021, a allai ddangos bod ymwybyddiaeth ac arferion y diwydiant yn gwella yn dilyn nifer o ddigwyddiadau cyhoeddus. Mae adroddiadau eang am ethylen ocsid mewn hadau sesame yn yr UE a'r DU yn cyfrif am lawer o'r achosion o halogiad cemegol yr adroddwyd amdanynt yn 2020 a 2021.
14. Mae ymadawiad y DU â'r UE yn golygu nad oes gan y DU fynediad llawn at System Rhybuddio Cyflym y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (RASFF) erbyn hyn, er ein bod yn parhau i gael hysbysiadau sy'n ymwneud â'r DU. Mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban wedi creu trefniadau amgen gyda phartneriaid rhyngwladol eraill yn ogystal â buddsoddi mewn dulliau gwyliadwriaeth newydd. Mae lefelau'r hysbysiadau a gafwyd ac a anfonwyd, gan wledydd yn yr UE a gwledydd y tu allan i'r UE, wedi aros yn sefydlog.
15. Nododd dwy uned troseddau bwyd y DU bron i 100 o 'darfiadau'[2] llwyddiannus ar weithgarwch troseddol yn y gadwyn fwyd yn 2021. Yn yr Alban, mae pum achos wedi'u cyfeirio at Swyddfa'r Goron a'r Gwasanaeth Procuradur Cyllidol, gyda thri o'r rhain yn cael eu hystyried o dan y weithdrefn ddeisebu a gedwir ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol. Y llynedd, gwelwyd yr erlyniad cyntaf o ganlyniad i ymchwiliad gan yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd, yn ymwneud â gwerthu 2,4 deunitroffenol (DNP) ochr yn ochr â throseddau eraill a oedd yn gysylltiedig â chyffuriau a reolir a meddyginiaethau presgripsiwn-yn-unig.
16. Er gwaethaf y pwysau ar y gadwyn cyflenwi bwyd yn sgil y pandemig ac ymadawiad y DU â'r UE, ni fu unrhyw dystiolaeth o droseddwyr yn camfanteisio'n sylweddol. Ni fu unrhyw gynnydd canfyddadwy mewn troseddau bwyd dros y cyfnod hwn.

## Hysbysu defnyddwyr

Mae'r bennod hon yn ystyried y goblygiadau i wybodaeth am fwyd ar ôl ymadael â'r UE, gan gynnwys y camau a gymerwyd i ddarparu parhad busnes ar ôl y cyfnod pontio, y newidiadau i bolisi domestig er mwyn diogelu a rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr, a'r datblygiadau yn y dyfodol ar gyfer gwella tryloywder labelu bwyd.

17. Arweiniodd ymadawiad y DU â'r UE at gyfres o gamau gweithredu gyda'r nod o sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl, gan gynnwys deddfwriaeth newydd, newid safonau cyfansoddiadol a labelu gwlad tarddiad. Sefydlwyd Pwyllgor Hawliadau Maeth ac Iechyd newydd y DU (UKNHCC) i ddarparu cyngor a chraffu arbenigol ar honiadau marchnata bwyd. Mae'r trefniadau presennol yn parhau yng Ngogledd Iwerddon o dan delerau Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon.

18. Mae gwaith samplu a gynhaliwyd gan yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn ystod y pandemig yn rhoi sicrwydd rhesymol bod diogelwch sylfaenol y rhan fwyaf o gynhyrchion yn cael ei gynnal. Fodd bynnag, roedd nifer sylweddol o gynhyrchion a brofwyd heb fodloni'r safonau gofynnol ar gyfer o leiaf un elfen, yn arbennig yn nhermau ansawdd a chywirdeb gwybodaeth i ddefnyddwyr. Mae hyn yn tanlinellu'r angen am waith monitro parhaus a mwy o fuddsoddiad mewn ystod ehangach o weithgareddau samplu.

19. Mae hwn hefyd wedi bod yn gyfnod arwyddocaol o ran datblygu polisi domestig sy'n ymwneud â gwybodaeth am fwyd, ar ôl cyflwyno diwygiadau i Reoliadau Gwybodaeth am Fwyd 2014 a'r hyn sy'n cyfateb iddynt yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.[3] Mae'r Rheoliadau hyn, a elwir hefyd yn Gyfraith Natasha, yn mynnu bod yr holl fwyd sydd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol yn cynnwys gwybodaeth gliriach am gynhwysion ac alergenau. Hefyd, cafodd labelu calorïau gorfodol ei gyflwyno mewn safleoedd bwyd mawr ledled Lloegr.

20. Er mwyn cynnal safonau dilysrwydd bwyd a gwybodaeth am fwyd yn y dyfodol, bydd yn rhaid ymdrin yn barhaus ag ystod o heriau hirdymor – o fynd i'r afael â phrinderau capasiti arolygu, i fireinio ac ehangu graddfa gweithgarwch samplu a gynhelir gan awdurdodau diogelwch bwyd. Mae'r twf mewn masnach ar-lein hefyd yn creu mwy o gymhlethdod drwy gynyddu nifer y busnesau ar-lein y mae angen eu goruchwylio a darparu sicrwydd yn eu cylch.

## Pwysigrwydd hylendid

Mae'r bennod hon yn asesu safonau hylendid mewn gwahanol fathau o sefydliadau bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae'n olrhain y data diweddaraf sydd ar gael ar gydymffurfiaeth gyfreithiol, yn ogystal â sut mae busnesau bwyd yn perfformio yn unol â'r ddwy system sgorio hylendid bwyd. Gan gydnabod y tarfu yn sgil y pandemig, mae'r bennod hefyd yn edrych ar ba gamau sy'n cael eu cymryd i adfer a chryfhau systemau arolygu ar gyfer y dyfodol.

21. Mae awdurdodau lleol ledled y DU yn gyfrifol am gynnal amrywiaeth o wiriadau ac ymyriadau mewn sefydliadau bwyd. Roedd effaith y pandemig yn tarfu'n ddifrifol ar arolygiadau, a oedd yn effeithio ar allu timau arolygu i ymweld â llawer o sefydliadau. Mae angen cadw hyn mewn cof wrth ystyried data'r bennod hon.

22. Mae'r data cydymffurfio diweddaraf yn dangos bod dros 95% o'r busnesau bwyd a arolygwyd gan awdurdodau lleol yn cydymffurfio i raddau helaeth (neu well) yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Yn yr un modd yn yr Alban, mae statws cydymffurfio â chyfraith bwyd yn uwch na 96%.

23. Enillodd tri chwarter y sefydliadau bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon y sgôr uchaf o bump o dan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd sy'n rhoi sgôr rhwng 0 a 5, ond cafodd 3% sgôr o ddau neu is, sy'n golygu bod angen gwella, angen gwella yn sylweddol neu angen gwella ar frys. O dan Gynllun Gwybodaeth am Hylendid Bwyd yr Alban, sy'n rhoi sgôr 'pasio' neu 'angen gwella', cafodd bron i 94% o fusnesau yn yr Alban sgôr pasio dros y tair blynedd diwethaf, gyda thua 6% o fusnesau angen gwella. Mae'r data'n seiliedig ar giplun o sgoriau'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd a'r Cynllun Gwybodaeth am Hylendid Bwyd ar 31 Rhagfyr 2021. Mae hyn yn cynnwys asesiadau sgorio a gynhaliwyd yn ystod a chyn y pandemig.

24. Roedd sefydliadau cig, sefydliadau llaeth a busnesau bwyd anifeiliaid yn cydymffurfio â safonau hylendid i lefel uchel a sefydlog, wrth i'r rhan fwyaf ohonynt gael eu barnu'n gwbl lân. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y cyfyngiadau cymdeithasol wedi effeithio ar y gweithgarwch archwilio ac arolygu, gyda llawer o wiriadau'n cael eu cynnal o bell. Dylai darlun mwy pendant ddod i'r amlwg yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

25. Mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn gweithio gydag awdurdodau lleol wrth iddynt ailddechrau arolygu busnesau bwyd, gan ddechrau gyda'r sefydliadau hynny sydd â hanes o ddiffyg cydymffurfio neu y tybir eu bod yn rhai risg uchel. Mae tystiolaeth gynnar yn awgrymu bod arolygwyr awdurdodau lleol yn gweld lefelau uwch o ddiffyg cydymffurfio yn y busnesau y maent wedi'u harolygu ers dechrau'r pandemig. Fodd bynnag, nid oes digon o dystiolaeth i allu dweud a yw'r gostyngiad hwn mewn safonau yn cael ei adlewyrchu'n ehangach mewn busnesau eraill.

26. Ymhlith y ffactorau eraill sy'n debygol o effeithio ar safonau hylendid bwyd yn y dyfodol mae'r cynnydd mewn marchnadoedd ar-lein. Nid yw'r rhain yn peri risg o reidrwydd, ond maent yn galluogi busnesau bwyd newydd i ymddangos yn gyflym iawn, gyda'r risg gysylltiedig y gallai llawer ohonynt fod heb eu cofrestru ac yn gweithredu heb oruchwyliaeth nac arolygiad digonol o'u harferion.

27. Mae recriwtio a chadw'r gweithlu hefyd yn cyflwyno heriau. Mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn rhoi mesurau ar waith i recriwtio a chadw milfeddygon swyddogol ac arolygwyr hylendid cig, ac ar yr un pryd maent hefyd yn cefnogi ymdrechion awdurdodau lleol i wneud yr un peth ar gyfer swyddogion iechyd yr amgylchedd a swyddogion safonau masnach. Byddwn yn adolygu'r cynnydd a wneir yn y meysydd hyn.

# Gosod adroddiad eleni mewn cyd-destun

Yn yr adroddiad eleni, rydym yn myfyrio ar safonau bwyd yn 2021 a oedd yn gyfnod nodedig i system fwyd y DU, a gafodd ei ddominyddu gan ddau ddigwyddiad: ymadawiad y DU â'r UE a phandemig COVID-19. I roi cyd-destun, mae'r bennod hon yn nodi amserlen o'r digwyddiadau COVID-19 a effeithiodd ar yr amgylchedd bwyd a bwyd anifeiliaid, a throsolwg o effaith ein hymadawiad â'r UE ar lunio polisïau yn y DU.

Wrth baratoi'r adroddiad hwn, rydym hefyd wedi gweld tarfu a achosir gan y rhyfel yn Wcráin a phrisiau bwyd yn cynyddu. Er bod pobl yn teimlo effeithiau'r ddau fater hyn nawr, a'u bod yn bryderon blaenllaw i bobl mewn perthynas â bwyd heddiw, adroddiad ôl-weithredol yw hwn. Byddwn yn ystyried y materion hyn, a'u heffaith gyffredinol ar safonau bwyd mewn adroddiadau yn y dyfodol, a fydd yn archwilio'r data a'r dystiolaeth am gyflwr safonau bwyd yn 2022 a thu hwnt.



Gosod adroddiad eleni mewn cyd-destun

# Amserlen o ddigwyddiadau allanol arwyddocaol sy’n effeithio ar yr amgylchedd bwyd a bwyd anifeiliaid

## Llinell amser effaith: COVID-19

Nid yw’r amserlen hon yn ceisio rhoi golwg gynhwysfawr ar yr holl gyfyngiadau COVID-19 ym mhob un o’r pedair gwlad. Mae’n canolbwyntio ar y prif gerrig milltir sy’n ymwneud â diogelwch a safonau bwyd, yn unol â’r dull ehangach a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad.

Cafodd y pandemig effeithiau uniongyrchol a phellgyrhaeddol ar system fwyd y DU. Bu cyfnodau pan arhosodd siopau manwerthu a lleoliadau lletygarwch nad oeddent yn hanfodol ar gau, gan gynnwys bwytai a ffreuturau gwaith, (ac eithrio ar gyfer darparu bwyd tecawê), ac anogwyd pobl i aros gartref. Fel y gwelwn ym Mhennod 1 (Plât y genedl), effeithiodd hyn ar arferion bwyta pobl yn y tymor byr mewn nifer o ffyrdd, er nad yw’n glir pa effaith hirdymor, os o gwbl, y bydd y pandemig yn ei chael ar ymddygiad defnyddwyr.

Yn yr un modd fe wnaeth y pandemig effeithio ar fusnesau a chyflenwyr lletygarwch, er bod llawer o fusnesau wedi ymateb yn greadigol, gan ddatblygu ffyrdd newydd o weithio er mwyn aros ar agor ac osgoi tarfu ar ddefnyddwyr. Bu cynnydd sydyn yng nghyfran y pryniannau ar-lein o siopau bwyd ym mis Mawrth 2020, heb unrhyw arwydd eto y bydd yn dychwelyd at lefelau fel yr oeddent cyn y pandemig.

| Chwef-Maw 2020 | Maw 2020 | Ebr-Mai 2020 | Gorff-Awst 2020 | Medi-Tach 2020 | Rhag 2020 | Rhag 2020-Ion 2021 | Ebr-Mai 2021 | Meh 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Galw cynyddol gan ddefnyddwyr am rai cynhyrchion bwyd yn achosi prinder lleol a chynnyrch-benodol, gan roi pwysau aruthrol ar fanwerthwyr a gweithgynhyrchwyr. | Y cyfnod clo cyntaf yn dechrau ledled y DU. Yr ASB yn cyhoeddi canllawiau i’r diwydiant bwyd ar hylendid bwyd, cadw pellter cymdeithasol, a rheoli salwch ymysg gweithwyr. Yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn cyhoeddi canllawiau ar gyfer awdurdodau gorfodi ar y dull y dylid ei fabwysiadu wrth gynnal Rheolaethau Swyddogol. Yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn dechrau cymryd camau i helpu i sicrhau bod Rheolaethau Swyddogol yn dal i gael eu cynnal, gan ganolbwyntio ar weithgareddau risg-uchel. | Yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn cyhoeddi canllawiau ar gyfer defnyddwyr i roi sicrwydd bod y risg o gael COVID-19 trwy fwyd yn isel iawn. Safonau Bwyd yr Alban yn cyhoeddi canllawiau ar gyfer busnesau bwyd, gan gynnwys cyngor ar reoli risg a rheoli heintiau wrth drin bwyd. | Tafarndai, bwytai a lleoliadau lletygarwch eraill yn ailagor. Llywodraeth y DU yn lansio ei chynllun Bwyta Allan i Helpu Allan. | Cyfyngiadau llymach yn cael eu cyflwyno’n raddol, gan gynnwys cyfyngu busnesau lletygarwch i gynnig gwasanaeth tecawê yn unig. Cyfres o gyfnodau clo cenedlaethol byrrach yn effeithio ar wahanol rannau o’r DU wrth i achosion o COVID-19 gynyddu. | Safonau Bwyd yr Alban a Phwyllgor Cyswllt Gorfodi Bwyd yr Alban yn cyhoeddi canllawiau ar y cyd ar gyfer awdurdodau gorfodi ar ailddechrau ymyriadau cyfraith bwyd cynlluniedig. | Cyfnodau clo cenedlaethol yn cael eu hailgyflwyno ledled y DU, gan ei gwneud yn ofynnol i lawer o’r diwydiant lletygarwch gau unwaith eto. | Cyfyngiadau’n cael eu llacio, gyda thafarndai, bwytai a lleoliadau lletygarwch eraill yn ailagor ar draws y pedair gwlad. | Yr ASB yn cyhoeddi canllawiau ar gyfer awdurdodau gorfodi ar ailddechrau ymyriadau cyfraith bwyd cynlluniedig. |

Gosod adroddiad eleni mewn cyd-destun

# Llinell amser effaith: Ymadael â'r UE

Gwnaed ymdrechion sylweddol i gynnal parhad busnes yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE. Er bod rheolaethau cadarn ar waith ar gyfer cynhyrchion risg uchel o'r tu allan i'r UE, mae'n annhebygol y caiff archwiliadau cyfatebol ar gynnyrch a fewnforir o wledydd yr UE eu cyflwyno cyn diwedd 2023. Gallai absenoldeb archwiliadau ar y ffin effeithio ar y ffordd rydym yn nodi ac yn ymateb i risgiau diogelwch yn y dyfodol, ac mae'n bosibl y bydd angen adnoddau ychwanegol ar y DU er mwyn cynnal lefelau sicrwydd diogelwch bwyd ar gyfer y mewnforion hyn. Mae'n ofynnol bellach i swyddogion iechyd yr amgylchedd awdurdodi rhai allforion yr UE, ac mae angen i'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban asesu'r effaith y mae hynny'n ei chael ar gapasiti swyddogion iechyd yr amgylchedd yn y system sicrwydd ehangach mewn adroddiadau yn y dyfodol. Mae ymgorffori cyfraith yr UE mewn deddfwriaeth ddomestig yn golygu taw ychydig o newidiadau sylweddol mewn safonau bwyd a welsom dros y cyfnod adrodd. Ymdrinnir â hyn yn fanylach yn yr adran nesaf.

| 31 Ionawr 2020 | 30 Rhagfyr 2020 | 1 Ionawr 2021 | 1 Ionawr 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|---|
| Mae'r DU yn ymadael â'r UE ac mae'r cyfnod pontio'n dechrau. Pwyllgor Honiadau Maeth ac Iechyd y DU yn dechrau rhoi cyngor ar geisiadau honiadau maeth ac iechyd a safbwyntiau gwyddonol i awdurdodau'r llywodraeth. | Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE (TCA) wedi'i lofnodi. | Y cyfnod pontio yn dod i ben. Protocol Iwerddon/ Gogledd Iwerddon yn dod i rym. ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn cymryd cyfrifoldeb dros geisiadau cynhyrchion wedi'u rheoleiddio ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid. | Cyflwyno gofynion rhag-hysbysu ar gyfer mewnforion cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid (POAO), bwyd a bwyd anifeiliaid risg uchel nad ydynt yn dod o anifeiliaid (HRFNAO), a chynhyrchion bwyd cyfansawdd o'r UE. | Cynllun i gyflwyno rheolaethau mewnforio llawn (gwiriadau dogfennol, gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol) ar gyfer mewnforion POAO, HRFNAO, a chynhyrchion bwyd cyfansawdd. |





# Crynodeb o effaith ymadael â'r UE ar lunio polisi

Mae gweinidogion ym Mhrydain Fawr yn gyfrifol am osod lefelau diogelwch y dyfodol ar gyfer defnyddwyr y DU a llunio rheoliadau newydd ar gyfer safonau bwyd a bwyd anifeiliaid wedi ymadawiad y DU â'r UE. O dan delerau Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon, mae angen i fwyd a bwyd anifeiliaid a roddir ar y farchnad yng Ngogledd Iwerddon fodloni rheolau'r UE o hyd, a bydd rheoliadau newydd yr UE yn parhau i gael eu gorfodi yng Ngogledd Iwerddon. Mae gan awdurdodau diogelwch bwyd y DU, Llywodraeth y DU, a'r llywodraethau datganoledig bellach gyfrifoldebau ychwanegol dros lywio diogelwch a safonau bwyd, sy'n cynnig cyfleoedd yn ogystal â heriau.

Gan fod cyfreithiau'r UE wedi'u hymgorffori mewn deddfwriaeth ddomestig sy'n gymwys ym Mhrydain Fawr, ychydig o newidiadau rheoleiddiol uniongyrchol a gafwyd hyd yma sy'n effeithio ar safonau bwyd. Mae'r pedair gwlad wedi canolbwyntio ar gynnal parhad a rhoi eglurder i fusnesau a defnyddwyr am brosesau a disgwyliadau. Yn yr adran hon, rydym yn nodi'n fras y prosesau y gallai gweinidogion y DU eu defnyddio i ystyried newidiadau i safonau bwyd yn y dyfodol. Yn ddiweddarach yn yr adroddiad, rydym yn ystyried effaith masnach ar safonau bwyd. Bydd angen i wledydd sy'n dymuno mewnforio cynhyrchion i Brydain Fawr fodloni gofynion mewnforio domestig o hyd, gan gynnwys o ran diogelwch bwyd. Bydd unrhyw geisiadau am fynediad i'r marchnad yn y dyfodol gan wledydd newydd neu geisiadau am nwyddau newydd yn cael eu hasesu i weld a ydynt yn addas cyn y gellir eu gwerthu i ddefnyddwyr. Byddwn yn edrych ar y mater hwn eto mewn adroddiadau yn y dyfodol.

## Dadansoddi risg

Ar gyfer materion diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid, mae'r DU yn cynnal ei hasesiadau ei hun o wyddoniaeth a thystiolaeth i lywio datblygiad rheoliadau trwy broses a elwir yn 'ddadansoddi risg'. Mae dadansoddi risg yn cynnwys tri cham: asesu risgiau (amcangyfrif y risg i iechyd pobl), rheoli risgiau (sut caiff y risgiau hyn yn cael eu rheoli), a chyfathrebu risgiau (sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei chyfleu). Crynhoir y broses hon yn ffigur 1. Mae'r broses dadansoddi risg yn cwmpasu gweithdrefnau ar gyfer rhoi cynhyrchion wedi'u rheoleiddio[4], fel ychwanegion a bwydydd newydd, ar y farchnad yn y dyfodol.

Mae asesiadau risg, a gynhaliwyd yn flaenorol gan Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA), bellach yn cael eu cynnal gan yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban. Yna bydd prosesau rheoli risg, a arferai gael eu cynnal gan y Comisiwn Ewropeaidd, yn ystyried sut rydym yn rheoli'r risgiau hyn. Ym Mhrydain Fawr, gweinidogion sy'n gwneud penderfyniadau ar safonau diogelwch bwyd, wedi'u llywio gan y broses rheoli risg. Bydd asesiadau yn parhau i gael eu hategu gan wyddoniaeth a thystiolaeth, er y gallai'r penderfyniadau rheoli risg fod yn wahanol i'r hyn roeddent pan oedd y DU yn aelod o'r UE. Mae hyn yn golygu y gallai rheoliadau fod yn wahanol i rai'r UE yn y dyfodol, er y byddent yn seiliedig ar wyddoniaeth a thystiolaeth o hyd.

**Ffigur 1: Sut mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn gwneud argymhellion ac yn rhoi cyngor ar sail tystiolaeth**

**Mae'r diagram hwn yn dangos sut mae awdurdodau diogelwch bwyd yn gwneud argymhellion ar sail tystiolaeth. Dyma ein proses dadansoddi risg.**

Gellir ei chymhwyso at ystod o faterion – o reoli pathogenau ac alergenau i geisiadau am awdurdodi cynhyrchion a phrosesau wedi'u rheoleiddio fel golchion cemegol a bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig

Yn ystod y broses, bydd yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn gweithio ar y cyd â gweinyddiaethau datganoledig, adrannau'r llywodraeth a phartïon eraill sydd â buddiant er mwyn ystyried buddiannau'r rheiny sydd â chyfrifoldebau dros fwyd ac amaeth, iechyd a masnach

Gellir sbarduno'r broses am wahanol resymau. Ymhlith yr enghreifftiau mae risg diogelwch bwyd, cais gan fusnes neu wlad, trafodaethau masnach, materion polisi neu gais am gyngor gan adrannau'r llywodraeth

Asesiad risg o ddiogelwch a thystiolaeth arall, wedi'i chasglu a'i dadansoddi gan yr ASB, Safonau Bwyd yr Alban ac arbenigwyr allanol. Gall tystiolaeth arall gynnwys dewisiadau defnyddwyr, lles anifeiliaid, effeithiau amgylcheddol ac economaidd, a mwy

Yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn datblygu cyngor neu argymhellion ar sail y dystiolaeth. Gallai hyn gynnwys newidiadau polisi mawr, deddfwriaeth neu gamau gweithredu eraill

Yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn cwblhau cyngor pan fydd angen penderfyniad Gweinidogol neu newid i ddeddfwriaeth

Gweinidogion yn gwneud penderfyniad neu'n ystyried newidiadau i ddeddfwriaeth

Deddfwriaeth yn cael ei llunio trwy broses seneddol yn ôl yr angen

Yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn gwneud penderfyniadau ar ofynion a dulliau rheoleiddio

Rhoi gwybod i Weinidogion am y newid fel y bo angen

Yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn rhoi cyngor, er enghraifft, cyngor i ddefnyddwyr neu ganllawiau i fusnesau

Cyhoeddir yr wybodaeth hon ar-lein ar wefannau'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban a gwefannau ein pwyllgorau cynghori gwyddonol

- Rhestr o faterion sy'n cael eu hystyried
- Papurau a chofnodion pwyllgorau gwyddonol (ac eithrio gwybodaeth fasnachol sensitif)
- Ymgynghoriad ffurfiol ar y dewisiadau
- Diweddariad chwarterol cryno i Fyrddau
- Cyngor neu argymhelliad gan yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban gyda'r dystiolaeth

Mae canlyniadau'r broses dadansoddi risg yn dryloyw, a bydd cyngor yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban mewn perthynas â materion diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael ei gyhoeddi, yn ogystal â'r wyddoniaeth a'r dystiolaeth sy'n sail i'r cyngor hwnnw. Mae'r system wedi'i hystyried yn sesiynau agored Byrddau'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban, a wnaeth gwmpasu pwyntiau fel yr ymagwedd at ansicrwydd a risg wrth ddatblygu cyngor i weinidogion y DU. Bydd y broses dadansoddi risg a'r cymorth a ddarperir i fusnesau yn cael eu hadolygu i sicrhau bod y broses yn gweithredu'n effeithlon ac yn cefnogi arloesedd gan barhau i ddiogelu defnyddwyr.

## Ceisiadau am gynhyrchion wedi'u rheoleiddio

Roedd 428 o geisiadau gweithredol am gynhyrchion wedi'u rheoleiddio yn y system erbyn diwedd 2021, sy'n sylweddol uwch na'r ffigur disgwyliedig o 150 o geisiadau. Roedd y rhan fwyaf yn geisiadau i roi cynhyrchion canabidiol (CBD) ar y farchnad fel bwyd newydd, er bod ceisiadau'n cynnwys materion eraill fel ychwanegion a deunyddiau sy'n dod i gysylltiad â bwyd.

## Datganoli a Fframweithiau Cyffredin y DU

Mae polisi bwyd a bwyd anifeiliaid wedi'i ddatganoli. Dyma'r rheswm pam y mae penderfyniadau a arferai gael eu gwneud ar lefel yr UE bellach yn cael eu gwneud ym Mhrydain Fawr gan weinidogion yn Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban, tra bod Gogledd Iwerddon yn parhau i ddilyn rheoliadau'r UE o dan delerau'r Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon.

Mae gan y pedair gwlad gytundebau dros dro a elwir yn Fframweithiau Cyffredin, sy'n nodi sut maent yn cydweithio mewn rhai meysydd polisi datganoledig. Mae Fframweithiau Cyffredin yn nodi'r cytundeb rhwng y pedair Llywodraeth a'u cyrff diogelwch bwyd i gydweithio ym meysydd cyfraith yr UE a ddargedwir a sicrhau bod polisïau diogelwch, safonau, labelu a chyfansoddiad bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael eu datblygu ar y cyd.

Mae Fframweithiau Cyffredin yn cydnabod y bydd gwahaniaethau polisi yn briodol mewn rhai achosion, ac yn nodi sut y dylid rheoli hyn rhwng y pedair gwlad. Fodd bynnag, ni nododd **adroddiad diweddar** gan **Swyddfa'r Farchnad Fewnol** dystiolaeth o wahaniaethau polisi newydd sylweddol yn dod i'r amlwg rhwng y pedair gwlad ers 31 Rhagfyr 2020.

Mae'r Fframweithiau Cyffredin anneddfwriaethol hyn yn ystyried y fframwaith cyfreithiol ehangach ac yn gweithredu'n gyfatebol, gan gynnwys Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i reoleiddio masnach rhwng Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn parhau i fonitro'r gwahaniaeth ar draws y pedair gwlad, rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr, a rhwng yr UE a Phrydain Fawr. Ers 31 Rhagfyr 2020, nid oes unrhyw ddeddfwriaeth diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid newydd o bwys wedi'i chyflwyno yn unrhyw un o'r pedair gwlad sydd wedi arwain at wahaniaeth sylweddol. Bydd adroddiadau yn y dyfodol yn ehangu ar y monitro a'r gwerthuso hyn.



# 1 Plât y genedl

## Ein deiet a’n dewisiadau bwyd heddiw



### Cipolwg

**Yn y bennod hon, byddwn yn ystyried y canlynol:**

- **effaith y pandemig ar ein dewisiadau bwyta a phrynu**
- **pa mor fforddiadwy yw bwyd a sut mae hyn yn effeithio ar allu pobl i fwyta’n iach**
- **yr agweddau a’r pryderon cymdeithasol ehangach sy’n llywio ein dewisiadau bwyd**

# Cyflwyniad

**Mae rhesymau da dros edrych yn fanwl ar ba fwyd sydd ar blât y genedl. Mae'r hyn rydym yn ei fwyta, ble rydym yn prynu ein bwyd, faint rydym yn ei wario ar fwyd, a'n pryderon wrth wneud hyn oll yn adlewyrchu ein blaenoriaethau a'n diddordebau – a gall hyn, yn ei dro, helpu i nodi'r hyn sydd yn wirioneddol bwysig i ni mewn perthynas â bwyd.**

Mae'r bennod hon yn cyflwyno'r cefndir ar gyfer ein dadansoddiad o safonau bwyd drwy archwilio'r hyn rydym yn ei fwyta ar hyn o bryd yn y DU, a sut mae hyn yn newid dros amser. Rydym hefyd yn bwrw golwg amserol ar fforddiadwyedd ein bwyd, gan olrhain sut mae'r amgylchedd economaidd presennol – a thueddiadau cymdeithasol eraill – yn effeithio ar ein dewisiadau bwyd. Dechreuwn drwy ystyried effaith deiet ar iechyd hirdymor, sy'n sail i argymhellion deietegol y llywodraeth ar draws y pedair gwlad[5].

# Bwyd a'n hiechyd

Yn y DU, ysmygu a deiet gwael yw prif achosion afiechydon y gellir eu hosgoi. Mae **deietau afiach yn cyfrif am 13% o'r holl farwolaethau yn y DU**. Mae hyn yn bennaf am fod deiet gwael yn achosi gordewdra, pwysedd gwaed uchel, colesterol gwaed uchel a diabetes math 2, a gall pob un ohonynt arwain at glefyd cardiofasgwlaidd. Gall yr hyn rydym yn ei fwyta hefyd gynyddu ein risg o rai canserau, yn enwedig canser y coluddyn sy'n gysylltiedig â bwyta gormod o gig coch neu gig wedi'i brosesu. Mae gordewdra yn gysylltiedig â **13 o wahanol fathau o ganser**, gan gynnwys canser y fron ar ôl diwedd y menopos a chanser y coluddyn.

Mae achosion gordewdra yn gymhleth. Mae rhai pobl mewn mwy o berygl oherwydd eu genynnau, a gall rhai pobl fagu gormod o bwysau oherwydd nad ydynt yn gwneud digon o ymarfer corff. Fodd bynnag, mae cysylltiad cryf rhwng deiet sy'n cynnwys llawer o fwydydd sy'n uchel mewn braster neu siwgrau rhydd, neu sy'n isel mewn ffeibr heb lawer o ffrwythau a llysiau, a risg uwch o fagu pwysau gormodol. Gan fod gordewdra hefyd yn ffactor risg ar gyfer clefyd cardiofasgwlaidd a chanser, mae mesur nifer yr achosion o ordewdra mewn poblogaeth yn rhoi cipolwg defnyddiol ar effaith iechyd yr hyn rydym yn ei fwyta.

Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod gan tua chwarter yr oedolion yn y DU, neu oddeutu 15 miliwn o bobl, **fynegai màs y corff (BMI)** sy'n dangos eu bod yn ordew. Yn Lloegr, mae cyfraddau gordewdra wedi codi'n gyson ers o leiaf 50 mlynedd. Canfu ffigurau diweddaraf **Arolwg Iechyd Lloegr** yn 2019 fod 28% o oedolion (27% o ddynion, 29% o fenywod) yn byw gyda gordewdra – **tua phedair gwaith yn uwch na'r ganran yn 1980** (6% o ddynion, 9% o fenywod). Mae **Cymru** a **Gogledd Iwerddon** hefyd wedi gweld cynnydd tebyg. Yn yr **Alban**, cynyddodd cyfraddau gordewdra ymhlith oedolion rhwng 2003 a 2008 ond maent wedi aros yn gymharol sefydlog ers hynny, o leiaf hyd at ddechrau'r pandemig.

Mae tystiolaeth ragarweiniol yn awgrymu y bu cynnydd yn y pwysau cyfartalog dros y ddwy flynedd ddiwethaf sy'n debygol o fod oherwydd y newidiadau amlwg yn ein ffordd o fyw dros y cyfnod hwn. O ganlyniad, mae llawer ohonom yn gwneud llai o ymarfer corff ac wedi newid ein harferion bwyta yn ystod y pandemig.

Ymhlith plant, mae'r sefyllfa'n peri pryder arbennig gan fod mwy ohonynt yn cael eu hystyried yn ordew nag erioed o'r blaen, gan gynyddu eu risg gydol oes o ordewdra ac iechyd gwael cysylltiedig. Mae'r data diweddaraf o **Loegr** yn dangos bod gordewdra bellach yn effeithio ar un o bob pedwar o blant rhwng 10 ac 11 oed, gyda thystiolaeth glir o gynnydd diweddar ers y cyfnod cyn y pandemig.

Yng **Ngogledd Iwerddon**, roedd yn ymddangos bod nifer yr achosion o ordewdra ymhlith plant wedi sefydlogi ar oddeutu 18% ac yng **Nghymru**, mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos amlder o 12.6% ymhlith plant pedair a phum mlwydd oed, ond nid oes data ar gael eto i asesu a yw hyn wedi newid yn ystod y pandemig.

Yn yr **Alban**, ym mlwyddyn ysgol 2020/21, roedd 29.5% o'r plant Cynradd 1, pum a chwe mlwydd oed, a fesurwyd mewn perygl o fod dros eu pwysau neu'n ordew, sy'n cynrychioli cynnydd o 6.8 pwynt canran ers 2019/20. Canfu'r data hwn hefyd fod y cynnydd yn fwy ymhlith plant sy'n byw yn yr ardaloedd o'r amddifadedd mwyaf (8.4 pwynt canran) o gymharu â'r rheiny yn yr ardaloedd o'r amddifadedd lleiaf yn yr Alban (3.6 pwynt canran).

Yr hyn sy'n peri pryder arbennig ledled y DU gyfan yw **cysylltiad clir rhwng cyfraddau uwch o ordewdra a'r ardaloedd o'r amddifadedd mwyaf yn y wlad**. Mae hefyd tystiolaeth sy'n peri pryder bod y bwlch gordewdra rhwng yr ardaloedd o'r amddifadedd mwyaf a'r ardaloedd o'r amddifadedd lleiaf yn y DU yn cynyddu.

## Beth rydym yn ei fwyta heddiw?

Y canllaw mwyaf awdurdodol ar yr hyn rydym yn ei fwyta heddiw yw'r **Arolwg Deiet a Maeth Cenedlaethol** (NDNS), sydd wedi bod yn casglu gwybodaeth fanwl am y bwyd a'r maetholion y mae poblogaeth y DU yn eu bwyta ers 2008. Nodir y canfyddiadau diweddaraf isod.

Mae'n bwysig nodi, oherwydd newidiadau i'r ffordd y casglwyd data yn ystod y pandemig, nad oes modd cymharu ffigurau 2020 yn uniongyrchol â'r data hanesyddol. Oherwydd hyn, rydym wedi cynnwys cyfeiriadau at y tueddiadau cyffredinol o 2008 i 2019, ac wedi cadw data 2020 ar wahân.




## Siwgrau rhydd

Er y bu gostyngiad yn y siwgrau rhydd y mae oedolion a phlant yn eu bwyta rhwng 2008 a 2019, mae'r lefelau hyn yn parhau i fod yn uchel (ffigurau 2 a 3). Yn ôl data 2020, mae faint o siwgrau rhydd sy'n cael eu bwyta (fel cyfran o gyfanswm cymeriant egni) ar ei uchaf ymhlith plant 11-18 oed, er bod y lefelau cyfartalog ym mhob grŵp oedran yn fwy na'r lefel uchaf a argymhellir, sef 5%.


## Bu gostyngiad yn y siwgrau rhydd a fwyteir bob dydd ond mae'r lefelau yn dal i fod yn uchel

**Ffigur 2: Faint o siwgrau rhydd a fwyteir bob dydd fel canran o gyfanswm egni oedolion a phlant**




Ffynhonnell:
Iechyd Cyhoeddus Lloegr – **NDNS: canlyniadau o flynyddoedd 9 i 11 (2016 i 2017 a 2018 i 2019)**

**Ffigur 3: Faint o siwgrau rhydd a fwyteir ar gyfartaledd fel cyfran o gyfanswm egni dyddiol (2020)**





Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Lloegr **NDNS: Astudiaeth ddilynol yn ystod COVID-19 ar ddeiet ac ymarfer corff**



## Braster dirlawn

Ni welwyd unrhyw newid rhwng 2008 a 2019 o ran faint o fraster dirlawn y mae’r person cyffredin yn ei fwyta fel canran o gyfanswm ei gymeriant egni. Ym mhob grŵp oedran, mae faint o fraster a fwyteir yn parhau i fod yn uwch na’r argymhellion deietegol, sef na ddylai braster dirlawn gyfrif am fwy na 10% o gyfanswm y cymeriant egni dyddiol. Yn 2020, menywod 65 oed ac yn hŷn oedd yn bwyta’r lefelau uchaf o fraster dirlawn (fel cyfran o gyfanswm cymeriant egni), gan gyfrif am 13.9% o gyfanswm eu cymeriant egni.

**Ffigur 4: Faint o fraster dirlawn a fwyteir ar gyfartaledd fel cyfran o gyfanswm egni dyddiol (2020)**





Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Lloegr **NDNS: Astudiaeth ddilynol yn ystod COVID-19 ar ddeiet ac ymarfer corff**



## Halen

Mae data diweddaraf o lefelau halen mewn wrin yn dangos bod y lefelau cyfartalog o halen a fwyteir yn uwch na'r lefelau a argymhellir, sef 6g y dydd ar gyfer oedolion, ym mhob rhan o'r DU. Mae'r data am dueddiadau yn awgrymu bod hyn yn weddol sefydlog dros amser ar draws y pedair gwlad, ac eithrio'r Alban lle bu gostyngiad o ran faint o halen a gafodd ei fwyta rhwng 2006 a 2014[6].

**Ffigur 5: Amcangyfrif o'r lefelau o halen a fwyteir bob dydd ar gyfartaledd yn y DU ar gyfer oedolion 19-64 oed**





Ffynhonnell: Defnyddir samplau wrin a gesglir fel rhan o raglen dreigl yr Arolwg Deiet a Maeth Cenedlaethol i amcangyfrif faint o halen a fwyteir. Mae data'n cael ei gasglu a'i gofnodi ar wahân ar gyfer **Cymru** (2009/10-2012/13), **Lloegr** (2018/2019), **yr Alban** (2014) a **Gogledd Iwerddon** (2015).

## Ffrwythau a llysiau

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn y DU yn bwyta llai na'r pum dogn o ffrwythau a llysiau a argymhellir bob dydd, gyda phlant 11-18 oed yn bwyta'r nifer lleiaf. Rhwng 2008 a 2019, bu cynnydd yn nifer y menywod 19-64 oed a oedd yn bwyta'r lefelau o ffrwythau a llysiau a argymhellir, ond doedd dim newid ar gyfer grwpiau eraill. Mae **dadansoddiad blaenorol** wedi dangos bod cartrefi ag incwm uwch yn dueddol o fwyta mwy o ffrwythau a llysiau.

**Ffigur 6: Dognau o ffrwythau a llysiau a fwyteir bob dydd ar gyfartaledd yn ôl oedran (2020)**





Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Lloegr **NDNS: Astudiaeth ddilynol yn ystod COVID-19 ar ddeiet ac ymarfer corff**



## Ffeibr

Mae'r lefelau o ffeibr a fwyteir yn parhau i fod yn is na'r argymhellion deietegol ym mhob grŵp oedran. Nid oedd newid mawr yn faint o ffeibr a fwytawyd rhwng 2008 a 2019. Er bod chwarter y plant dwy i ddeng mlwydd oed yn bwyta'r lefel a argymhellir, dim ond 4% o blant 11-18 oed sy'n bodloni'r lefelau hyn. Y **lefel a argymhellir** yw 30g ar gyfer oedolion ac mae'n amrywio i blant gan ddibynnu ar eu hoedran.

**Ffigur 7: Faint o ffeibr a fwyteir bob dydd ar gyfartaledd (2020)**





Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Lloegr **NDNS: Astudiaeth ddilynol yn ystod COVID-19 ar ddeiet ac ymarfer corff**



## Pysgod

Mae faint o bysgod rydym yn eu bwyta'n parhau i fod yn sefydlog ac yn sylweddol is na'r lefelau a argymhellir, sef o leiaf ddau ddogn o bysgod yr wythnos, a dylai un o'r dognau hyn fod yn bysgod olewog. Ym mhob grŵp oedran, roedd y lefel ddyddiol gymedrig o bysgod olewog a fwyteir hefyd yn is na'r hyn a argymhellir, sef un dogn yr wythnos. Nid yw'r lefel gyfartalog ar gyfer pob math o bysgod sy'n cael eu bwyta wedi newid llawer rhwng 2008 a 2019.

**Ffigur 8: Pysgod a fwyteir bob wythnos ar gyfartaledd yn ôl grŵp oedran (2020)**




Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Lloegr **NDNS: Astudiaeth ddilynol yn ystod COVID-19 ar ddeiet ac ymarfer corff**




## Cig

Bu gostyngiad o ran faint o gig a fwyteir bob dydd ar gyfartaledd rhwng 2008 a 2019, a hynny yn bennaf oherwydd gostyngiad yn y cig coch a chig wedi'i brosesu sy'n cael ei fwyta (ffigurau 9 a 10). Mae'r ffigurau diweddaraf o 2020 yn dangos bod yr oedolyn cyffredin bellach yn bwyta llai na'r uchafswm a argymhellir ar gyfer cig coch a chig wedi'i brosesu, sef 70g y dydd. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth mawr rhwng y rhywiau, gyda dynion 19-64 oed yn bwyta bron ddwywaith cymaint (68g) â menywod o'r un oedran (38g).


## Mae dynion a menywod bellach yn bwyta llai o gig coch a chig wedi'i brosesu

**Ffigur 9: Faint o gig coch a chig wedi'i brosesu a fwyteir bob dydd ar gyfartaledd gan oedolion oedran gweithio (gramau y dydd)**




Ffynhonnell:
**NDNS Iechyd Cyhoeddus Lloegr: canlyniadau o flynyddoedd 9 i 11 (2016 i 2017 a 2018 i 2019)**

**Ffigur 10: Faint o gig coch a chig wedi'i brosesu a fwyteir bob dydd yn ôl grŵp oedran (gramau y dydd) (2020)**





Ffynhonnell:
Iechyd Cyhoeddus Lloegr **NDNS: Astudiaeth ddilynol yn ystod COVID-19 ar ddeiet ac ymarfer corff**

# Ble rydym yn prynu ein bwyd?

Mae sut a ble rydym yn cael ein bwyd hefyd yn dylanwadu ar ein deiet. Er bod y rhan fwyaf o bobl yn siopa am fwyd mewn archfarchnadoedd yn rheolaidd, mae **arolwg Bwyd a Chi 2 yr ASB** yn dangos bod dros un o bob tri o bobl yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn prynu bwyd mewn siopau cornel lleol, siopau papurau newydd neu siopau garej yn rheolaidd. Mae'r siopau hyn yn dueddol o fod yn ddrutach, yn cynnig ystod gyfyng o gynhyrchion, ac yn gwerthu llai o fwyd ffres. Mae dadansoddiad yn dangos bod cartrefi sydd â diogeledd bwyd ymylol, isel neu isel iawn, yn fwy tebygol o brynu bwyd o'r mathau hyn o siopau o leiaf unwaith yr wythnos, o gymharu â'r rheiny sydd â diogeledd bwyd uchel.

## Mae'r rhan fwyaf o bobl yn siopa am fwyd mewn archfarchnadoedd o leiaf unwaith yr wythnos

**Ffigur 11: % yr ymatebwyr yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon sy'n siopa tua unwaith yr wythnos neu'n amlach**




Ffynhonnell: Yr Asiantaeth Safonau Bwyd **Bwyd a Chi 2: Cylch 3**

Yn y cyfamser, mae ymchwil yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban ar **fuddiannau, anghenion a phryderon cyhoedd y DU mewn perthynas â bwyd** yn dangos bod 22% o bobl yn y DU yn archebu bwyd o siop tecawê, a bod 23% arall yn archebu bwyd drwy wasanaeth dosbarthu bwyd (er enghraifft, Deliveroo, Just Eat, Uber Eats) o leiaf unwaith yr wythnos, tra bod un o bob pump (20%) yn bwyta allan mewn bwytai, tafarndai neu gaffis o leiaf unwaith yr wythnos. Mae oedolion iau a chartrefi sydd ag incwm uwch yn fwy tebygol o fwyta allan neu archebu bwyd tecawê.

# Beth sy'n dylanwadu ar ein dewisiadau bwyd?

Beth sydd ar feddyliau pobl pan fyddant yn prynu bwyd iddynt nhw eu hunain a'u teuluoedd? Yn gynnar yn 2022, fel rhan o ymchwil yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban ar **fuddiannau, anghenion a phryderon cyhoedd y DU mewn perthynas â bwyd**, arolygwyd mwy na 6,000 o bobl er mwyn nodi'r hyn sy'n llywio ein hymddygiad a'n dewisiadau heddiw. Dyma rai o'r prif ganfyddiadau:

## Pris bwyd



Wrth feddwl am ddyfodol bwyd yn y DU dros y tair blynedd nesaf, pris bwyd sy'n peri'r pryder mwyaf i ddefnyddwyr (roedd 76% yn eithaf pryderus neu'n hynod bryderus). Dywedodd mwy na dwy ran o dair (68%) eu bod yn poeni am gost bwyd iachus yn benodol, a dywedodd mwy na hanner (53%) eu bod yn teimlo na allant fforddio prynu bwyd iachus.

## Pryderon iechyd



Honnodd mwy na phedwar o bob deg o ddefnyddwyr yn y DU eu bod yn aml yn dewis bwyd oherwydd ei briodweddau iechyd penodol, a dywedodd bron i hanner (49%) eu bod nhw'n osgoi prynu bwydydd sy'n cynnwys cynhwysion ychwanegol fel traws-frasterau, olew palmwydd, cyffeithyddion neu E-rifau.

## Arferion bwyta sy'n newid



Nododd llawer o ddefnyddwyr eu bod nhw'n mabwysiadu deiet 'hyblyg' – hynny yw, maen nhw'n bwyta bwydydd sy'n deilio o blanhigion yn bennaf, ac yn bwyta cig a chynhyrchion anifeiliaid eraill yn achlysurol. Yn y DU, disgrifiodd 25% o'r cyhoedd eu hunain fel rhai 'sy'n dal i fwyta cig, cynnyrch llaeth ac anifeiliaid ond sy'n cwtogi arnynt'. Mae 5% arall eisoes yn nodi eu bod yn llysieuwyr, 3% yn dweud eu bod yn bescatariaid, a 2% yn figan[7].

## Ymwybyddiaeth foesegol ac amgylcheddol



Mae llawer o ddefnyddwyr yn gwneud dewisiadau bwyd yn seiliedig ar bryderon moesegol ac amgylcheddol, gyda 64% o bobl yn dweud eu bod yn poeni'n fawr am driniaeth anifeiliaid yn y gadwyn fwyd, a 67% yn dweud eu bod yn ceisio lleihau neu osgoi cynhyrchion bwyd sy'n creu gwastraff plastig. Mynegodd cyfrannau tebyg bryderon am faint o wastraff pecynnu neu ddeunydd pecynnu plastig sydd yn y gadwyn fwyd (65%), lefelau uchel o wastraff bwyd (64%), a thlodi ac anghydraddoldeb bwyd (64%).

# Effaith y pandemig

> **Mae wyth o bob deg o bobl yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon wedi gwneud newidiadau i'w harferion bwyta yn y 12 mis diwethaf.**

Ffynhonnell: Yr ASB **Bwyd a Chi 2: Cylch 3**

> **Yn 2021, dywedodd 75% o bobl yn yr Alban eu bod yn gwybod bod yn rhaid iddynt wneud newidiadau sylweddol i'r hyn maent yn ei fwyta er mwyn bod yn iachach, a dywedodd 23% o oedolion fod eu deiet wedi gwaethygu ers y pandemig.**

Ffynhonnell: **Traciwr Defnyddwyr *Food in Scotland* Safonau Bwyd yr Alban: Cylch 12**

Yn sicr, effeithiodd COVID-19 ar arferion bwyta'r genedl. O'r cyfnod clo i'r cynllun 'Bwyta Allan i Helpu Allan', mae'r pandemig wedi achosi newidiadau sydyn i'r hyn rydym yn ei fwyta a sut rydym yn siopa. Mae'n llai amlwg, fodd bynnag, a fu newidiadau tymor hwy i ymddygiad defnyddwyr.

Mae nifer o astudiaethau wedi edrych ar effaith y pandemig ar ein deiet. Mae hyn yn cynnwys arolygon rheolaidd **Bwyd a Chi 2** a ***Food in Scotland***, arolwg misol **Traciwr COVID-19** a sefydlwyd ym mis Ebrill 2020, astudiaeth bwrpasol ***Food in a Pandemic*** a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2020, ac ymchwil ansoddol a gynhaliwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon rhwng mis Mehefin a mis Gorffennaf 2020. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Safonau Bwyd yr Alban **Adroddiad Sefyllfa** newydd a roddodd drosolwg o newidiadau i ymddygiadau siopa a bwyta yn yr Alban yn 2020 o ganlyniad i'r pandemig.

Nodir y prif sylwadau isod.

### Sylw 1: Roedd pwysau ariannol y pandemig yn golygu bod bwyta'n iachus yn anoddach i rai defnyddwyr.

Canfu astudiaeth yr ASB, ***Food in a Pandemic***, fod y rheiny a oedd yn agored i ddiffyg diogeledd bwyd (*food insecurity*) cartrefi hefyd yn fwy tebygol o'i chael hi'n anoddach cynnal deiet iachus yn ystod y pandemig: dywedodd 51% o'r rheiny â phlant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ei bod yn anodd bwyta'n iachus, tra bod 37% o'r rheiny â phlant nad oeddent yn gymwys yn cael yr un problemau.

Dangosodd **arolwg NDNS 2020** fod pobl sy'n dod o gartrefi â diogeledd bwyd is neu gartrefi llai diogel yn ariannol yn nodi eu bod yn bwyta llai o ffrwythau a llysiau, llai o bysgod, ac yn yfed mwy o ddiodydd meddal wedi'u melysu â siwgr na'r rhai a oedd yn fwy diogel yn ariannol neu â mwy o ddiogeledd bwyd[8].

Canfu arolwg Safonau Bwyd yr Alban, ***Food in Scotland***, fod ychydig llai na 23% o oedolion yn yr Alban wedi poeni am allu fforddio bwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a bod y rheiny â phlant yn fwy tebygol o boeni (36%). Dywedodd tua un o bob saith oedolyn (14%), a bron i un o bob pedwar o'r rheiny sydd â phlant (24)%, eu bod wedi hepgor prydau o ganlyniad[9].

### **Sylw 2:** Mae'n ymddangos bod y pandemig wedi cael effaith gymysg ar ansawdd maethol ein deiet.

Canfu **ymchwil defnyddwyr** a gomisiynwyd gan Safonau Bwyd yr Alban fod coginio o'r newydd yn yr Alban wedi cynyddu am gyfnod byr ar ôl y cyfnod clo cyntaf. Fodd bynnag, roedd mwy o bobl hefyd yn 'coginio â chymorth' (er enghraifft, defnyddio sawsiau a phecynnau coginio), yn enwedig ar gyfer prydau gyda'r nos, a barhaodd drwy gydol 2020.

Canfu astudiaeth yr ASB, ***Food in a Pandemic***, fod un o bob tri (32%) o bobl wedi dweud eu bod yn bwyta prydau iachach adeg yr astudiaeth (mis Tachwedd 2020) o gymharu â chyn y pandemig (nododd 9% eu bod yn bwyta llai ohonynt), gyda'r mwyafrif yn dweud bod ganddyn nhw fwy o amser rhydd a'u bod nhw'n coginio mwy gartref[10].

Fodd bynnag, canfu arolwg a oedd yn gofyn i rieni yn yr Alban, (wedi'i gynnwys yn **Adroddiad Sefyllfa Safonau Bwyd yr Alban**) fod 34% o'r farn bod eu deiet wedi dod yn llai iachus o ganlyniad i bandemig COVID-19, tra bod 17% yn teimlo bod deiet eu plant yn llai iachus[11].

### **Sylw 3:** Gwnaeth y pandemig annog pobl i fwyta byrbrydau a danteithion afiach yn ystod y cyfnod clo.

Mae ymchwil yr ASB, ***Food in a Pandemic***, yn dangos bod cyfran debyg o bobl (33%), o fwy neu lai'r un grwpiau a nododd eu bod yn bwyta prydau iachach, hefyd yn nodi eu bod yn bwyta mwy o fyrbrydau afiach. Er mwyn cymharu, dywedodd 18% eu bod yn bwyta llai ohonynt.

Yn yr un modd, canfu **data Safonau Bwyd yr Alban** fod bwyta byrbrydau yn y cartref wedi cynyddu bron i draean (31%) yn yr Alban, yn enwedig yn ystod y dydd. Roedd hefyd gynnydd o 31% yng ngwerth y sector tecawê a dosbarthu yn yr Alban pan oedd y pandemig ar ei anterth.

### **Sylw 4:** Roedd llawer o ddefnyddwyr yn siopa ar-lein yn fwy am fwyd, tra bod rhai defnyddwyr hefyd yn siopa'n fwy lleol.

Mae **arolwg NDNS 2020** yn awgrymu bod tua dwy ran o dair (68%) o ddefnyddwyr y DU wedi mynd i siopau bwyd yn llai aml na chyn y pandemig, a dywedodd tua thraean (34%) eu bod wedi gwneud mwy o siopa am fwyd ar-lein.

Mae **data** a gomisiynwyd gan Safonau Bwyd yr Alban hefyd yn dangos cynnydd mewn siopa bwyd ar-lein yn yr Alban, gyda 64% o nwyddau wedi'u prynu ar-lein o gymharu â 2019.

Canfu ymchwil yr ASB, ***Food in a Pandemic***, fod mwy nag un o bob pedwar defnyddiwr (28%) yn dweud eu bod wedi prynu mwy o fwyd wedi'i gynhyrchu'n lleol, a dywedodd cyfran debyg (29%) eu bod yn prynu bwyd o siopau bwyd llai. Roedd y newid hwn i brynu'n lleol yn uwch ymhlith defnyddwyr mwy cefnog, pobl sy'n dod o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a phobl â phlant[12].

# Pa mor fforddiadwy yw ein bwyd?

Mae **data swyddogol y Swyddfa Ystadegau Gwladol** (ffigur 12) yn dangos bod prisiau bwyd wedi codi 4.5% rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Rhagfyr 2021. Mae hyn yn cynrychioli'r cynnydd blynyddol mwyaf ym mhris bwyd o un mis Rhagfyr i'r llall ers 2010, ac ers hynny mae'r cynnydd blynyddol wedi codi i 6.7% o fis Ebrill 2021 i fis Ebrill 2022. Bu cynnydd sydyn hefyd ym mhrisiau petrol ac ynni, sy'n cynyddu biliau'r cartref ac yn effeithio ar gyllidebau teuluoedd.

Gwnaeth cartrefi'r DU wario £72.45 yr wythnos ar gyfartaledd ar fwyd, gan gyfrif am 8.2% o wariant cartrefi. Mae hyn yn cyfateb i oddeutu £30 y person yr wythnos. Ar ôl addasu'r ffigur hwn ar gyfer chwyddiant, roeddem yn gwario 5.8% yn fwy ar fwyd mewn termau real yn 2021 nag y gwnaethom dros y pum mlynedd flaenorol ar gyfartaledd, er bydd hyn yn amrywio rhwng cartrefi.


## Diffiniadau prisiau bwyd

**Pris nominal bwyd** yw'r swm o arian rydych yn ei wario i brynu'r eitem honno.

**Pris bwyd real** yw'r swm o arian rydych yn ei wario i brynu'r eitem honno, wedi'i addasu ar gyfer y ffaith bod prisiau nwyddau a gwasanaethau eraill yn newid dros amser. Mae prisiau real yn ein helpu i ddeall a yw rhywbeth yn mynd yn fwy neu'n llai drud dros amser, o gymharu â nwyddau a gwasanaethau eraill.



**Ffigur 12: Sut mae pris bwyd wedi newid dros amser (2000-21)**




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2022) ***Consumer price inflation time series***

## Sut i ddehongli'r graff

Mae'r graff wedi'i gyflwyno fel mynegai sy'n ein galluogi i gymharu'r ffordd mae prisiau bwyd nominal a phrisiau real wedi newid ers y flwyddyn 2000, y rhoddir gwerth sylfaenol o 100 ar eu cyfer yn y flwyddyn honno. Er enghraifft, gallwn weld o'r mynegai mai 110 oedd y pris nominal yn 2005, gan olygu bod prisiau nominal tua 10% yn uwch yn 2005 nag yr oeddent yn y flwyddyn 2000.

## Sut mae chwyddiant prisiau bwyd yn cael ei gyfrifo

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cyfrifo eu prif ystadegyn ar gyfer costau byw drwy gasglu prisiau dros 700 o nwyddau a gwasanaethau bob dydd a brynir gan gartrefi'r DU. Er enghraifft, gellir monitro pris tomatos tun trwy edrych ar frand penodol.

Fodd bynnag, os yw eich siop leol yn gwerthu brand gwahanol o domatos tun, efallai y bydd pris y brand rydych chi'n ei brynu wedi codi'n fwy cyflym o gymharu â'r brand sy'n cael ei fonitro gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Os bydd hyn yn digwydd ar gyfer llawer o'r bwyd y byddwch yn ei brynu, bydd cost eich siop wythnosol yn codi'n fwy cyflym nag y mae'r ystadegau swyddogol yn ei awgrymu.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn datblygu set newydd o fetrigau yn seiliedig ar gyfuniad o ddata o'r desg dalu a gwybodaeth o wefannau siopau. Bydd hyn yn cynyddu nifer y pwyntiau data pris a gesglir bob mis o gannoedd o filoedd i gannoedd o filiynau, gan wella pa mor fanwl yw'r data yn fawr.

## Diffyg diogeledd bwyd cartrefi a phryderon defnyddwyr


Er bod pwysau ar safonau byw yn effeithio ar bob aelwyd i raddau amrywiol, mae'n peri'r pryder mwyaf i'r rheiny sydd fwyaf agored i ddiffyg diogeledd bwyd cartrefi am fod **cartrefi incwm is yn dueddol o wario cyfran fwy o'u cyllideb ar fwyd**.

Mae ffigurau swyddogol o **arolwg yr Adran Gwaith a Phensiynau ar adnoddau teuluoedd** yn dangos bod cyfanswm o 7% o gartrefi'r DU – tua 2 filiwn o gartrefi – wedi'u disgrifio fel rhai sydd â diffyg diogeledd bwyd yn 2020/21, gyda 3% yn nodi eu bod yn wynebu diogeledd bwyd isel, a 3% yn nodi eu bod yn wynebu diogeledd bwyd isel iawn. Er bod hyn yn ostyngiad bach o gymharu â'r 8% o gartrefi â diffyg diogeledd bwyd yn y flwyddyn flaenorol, mae'r codiadau mewn prisiau bwyd ac ynni yn y misoedd diwethaf yn golygu bod y ffigurau hyn yn debygol o godi eto.



## Cyfran deg? Cartrefi yn y DU sydd â diffyg diogeledd bwyd

**Ffigur 13: Diogeledd bwyd cartrefi yn y DU fesul rhanbarth (2020-21)**





Ffynhonnell: **Arolwg yr Adran Gwaith a Phensiynau ar adnoddau teuluoedd ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2021**

> **❝ Roedd cynnydd o 177% yn y galw am fanciau bwyd rhwng mis Mawrth 2019 a mis Mawrth 2020, ac mae elusennau bwyd yn rhagweld cynnydd pellach yn y galw eleni wrth i gostau byw godi. ❞**
>
> Ffynhonnell: Lambie-Mumford, Gordon a Loopstra (2020) ***Monitoring responses to risk of rising food insecurity during the COVID-19 crisis across the UK***

Mae **data olrhain yr ASB** (ffigur 14) hyd at ddiwedd mis Mawrth 2022 yn dangos bod pryderon defnyddwyr am fforddiadwyedd bwyd (yn eu hachos nhw neu eu cartref) wedi amrywio ers mis Ebrill 2020, gyda thua un o bob tri defnyddiwr yn poeni am fforddiadwyedd bwyd ym mis Mawrth 2022. Er nad oes modd cymharu'r data yn uniongyrchol, mae **ffigurau diweddaraf Safonau Bwyd yr Alban** (ffigur 15) yn dangos bod mwy nag un o bob pump defnyddiwr yn poeni am fforddiadwyedd bwyd ym mis Medi 2021[13].


## Y storm sy'n agosáu: dechreuodd pryderon am brisiau bwyd godi tua diwedd 2021

**Ffigur 14: Cyfran y defnyddwyr sy'n poeni am fforddiadwyedd bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon**




Ffynhonnell: **Traciwr COVID-19 yr ASB**

**Ffigur 15: Cyfran y defnyddwyr sy'n poeni am fforddiadwyedd bwyd yn yr Alban**




Ffynhonnell: **Traciwr COVID-19 Safonau Bwyd yr Alban**

Yn ôl ymchwil a gynhaliwyd yn gynnar yn 2022, mae'r straen ariannol hwn eisoes yn amlygu ei hun yn newisiadau bwyd arfaethedig pobl. Mae llawer o ddefnyddwyr yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd ynghylch taro cydbwysedd rhwng cost a chyfleustra â'u gwerthoedd a'u pryderon ehangach am faterion fel ansawdd sylfaenol, gwerth maethol, ac effaith amgylcheddol eu bwyd.

Mae ymchwil yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban ar **fuddiannau, anghenion a phryderon cyhoedd y DU mewn perthynas â bwyd** yn rhoi syniad o sut mae hyn yn debygol o effeithio ar ddeietau pobl, gydag un o bob pedwar o bobl bellach yn teimlo mai'r unig fwydydd sydd wirioneddol ar gael iddynt yw bwydydd sy'n cael eu prosesu'n helaeth. Mae'r ffigur hwn yn cynyddu i oddeutu un o bob dau ymhlith grwpiau sydd â diogeledd bwyd isel.



# Blaenoriaethau'r cyhoedd ar gyfer y dyfodol

Sut y gellir cynnal hyder y cyhoedd mewn safonau bwyd yn ystod cyfnod mor heriol? Mae ymchwil yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban ar **fuddiannau, anghenion a phryderon cyhoedd y DU mewn perthynas â bwyd** yn dangos bod defnyddwyr yn glir ynghylch pa gamau y mae angen eu cymryd i wella argaeledd bwyd diogel a maethlon.

## Blaenoriaeth 1: Sicrhau mynediad teg at fwydydd iachus, diogel a fforddiadwy



Dywedodd union hanner (50%) y bobl fod "mynediad at gynhyrchion bwyd iachus am brisiau fforddiadwy" yn bwysig iddynt, a dywedodd 41% fod "mynediad at fwyd am bris isel nad yw wedi'i or-brosesu ac sy'n bodloni safonau ansawdd da" yn bwysig. Mae bron i un o bob dau defnyddiwr (48%) yn dweud eu bod am i'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban weithio gyda'u partneriaid er mwyn ei gwneud yn flaenoriaeth allweddol i sicrhau bod mwy o ddewis o fwydydd sylfaenol am bris isel ac o ansawdd da. Byddai mwy na thraean (36%) yn hoffi canllawiau clir ar sut i wneud dewisiadau iachach ar gyllideb.

## Blaenoriaeth 2: Cynnal neu gryfhau safonau diogelwch a hylendid bwyd



Mae defnyddwyr am gael sicrwydd y bydd safonau diogelwch a hylendid bwyd yn cael eu cynnal yn sgil ymadawiad y DU â'r UE, a bod y safonau hyn yn cael eu cynnwys mewn bargeinion masnach yn y dyfodol. Mae gorfodi labelu cynhwysion bwyd ac alergenau'n gliriach hefyd yn flaenoriaeth allweddol i fwy na 43% o ddefnyddwyr.

## Blaenoriaeth 3: Gweithredu ar ychwanegion a bwydydd wedi'u prosesu



Mae bron i hanner (47%) y cyhoedd am i'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban gymryd camau i leihau'r pethau a gaiff eu hychwanegu at brosesau bwyd fel E-rifau a chyffeithyddion (*preservatives*). Mae mwy na phedwar o bob deg defnyddiwr yn y DU yn honni eu bod yn aml yn dewis bwyd oherwydd ei briodweddau iechyd penodol, a dywed bron i hanner (49%) eu bod nhw'n osgoi prynu bwydydd sy'n cynnwys cynhwysion ychwanegol fel traws-frasterau, olew palmwydd, cyffeithyddion neu E-rifau.

## Blaenoriaeth 4: Sicrhau bod bwyd a gynhyrchir yn lleol ar gael i bawb



Roedd dros hanner y defnyddwyr (59%) yn ymddiried mewn cynhyrchwyr bwyd lleol (llai) i gynnal safonau ansawdd uwch na busnesau mawr. Fodd bynnag, roedd bwyd o ansawdd uchel wedi'i gynhyrchu'n lleol hefyd yn cael ei ystyried yn ddrud ac yn rhywbeth na allai llawer o gartrefi ei fforddio. Dywedodd mwy na phedwar o bob deg o bobl eu bod am i'r ASB a Safonau Bywyd yr Alban weithio gydag adrannau'r llywodraeth, awdurdodau lleol, cynhyrchwyr, gweithgynhyrchwyr neu fanwerthwyr i 'sicrhau mynediad at fwydydd fforddiadwy, wedi'u cynhyrchu'n lleol' fel blaenoriaeth.

## Blaenoriaeth 5: Cymryd camau pellach ar wastraff bwyd a chynaliadwyedd amgylcheddol



Mae diddordeb mawr gan y cyhoedd mewn agweddau amgylcheddol ar systemau bwyd, gyda defnyddwyr yn mynegi pryderon am gadwyni cyflenwi byd-eang, cynaliadwyedd, a materion lles anifeiliaid. Mae ychydig yn llai na hanner y defnyddwyr (46%) eisiau i'r ASB a Safonau Bywyd yr Alban weithio gydag adrannau'r llywodraeth, awdurdodau lleol, cynhyrchwyr, gweithgynhyrchwyr neu fanwerthwyr i osod safonau i leihau gwastraff bwyd yn y gadwyn gyflenwi – dywedodd 57% y dylai sicrhau safonau uchel o les anifeiliaid, gan gynnwys ar gyfer bwydydd wedi'u mewnforio, fod yn flaenoriaeth allweddol.


## Blaenoriaeth 6: Ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr wneud dewisiadau bwyd da



Yn olaf, mynegodd defnyddwyr rwystredigaeth yn ystod cyfweliadau a grwpiau ffocws ynghylch pa mor anodd y gall fod i 'gael y gwir' o ran dewisiadau bwyd. Dywed tri o bob pump (61%) eu bod yn aml yn teimlo bod bwydydd sy'n cael eu labelu fel 'opsiynau iachach' yn afiach mewn ffyrdd eraill. Hoffai dros draean gael mwy o eglurder ar gynnwys braster, halen a siwgr (38%), a labelu gwybodaeth iechyd syml a chyson (37%). Mynegodd llawer o bobl anawsterau o ran deall effaith amgylcheddol hirdymor bwyd, a hoffent weld gwybodaeth gliriach i'w helpu i wneud dewisiadau.

## Mae defnyddwyr am gael mynediad at fwyd iachus, fforddiadwy sy'n well i'r blaned

**Ffigur 16: 10 prif flaenoriaeth y cyhoedd o ran bwyd dros y tair blynedd nesaf**




Gofynnwyd y cwestiwn canlynol i'r ymatebwyr: "Wrth feddwl am y 3 blynedd nesaf, pa rai o'r materion hyn, os o gwbl, sy'n bwysig i chi ar gyfer dyfodol bwyd?"

Ffynhonnell: Bright Harbour, Esposito Research & Strategy, ac ymchwil yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban ar **fuddiannau, anghenion a phryderon cyhoedd y DU mewn perthynas â bwyd**

# I grynhoi


- Mae'r rhan fwyaf ohonom yn dal i fwyta gormod o siwgrau rhydd, halen a braster dirlawn a dim digon o bysgod, ffrwythau a llysiau, a ffeibr fel rhan o'n deiet. Mae mwy o bobl bellach yn bwyta'r lefelau a argymhellir o gig coch a chig wedi'i brosesu.
- Mae cyfran sylweddol o'r boblogaeth yn parhau i fyw gyda gordewdra ac mae'r nifer hwn yn cynyddu. Mae angen cymryd camau gweithredu brys pellach, gan weithio mewn partneriaeth â'r llywodraeth, cymunedau a busnesau, i annog a galluogi pobl i fwyta'n iachach a gwneud mwy o ymarfer corff.
- Cafodd y pandemig effaith amrywiol ar ein deiet. Dywedodd rhai pobl eu bod yn coginio prydau iachach gartref yn amlach, er bod y dystiolaeth yn awgrymu bod y pandemig hefyd yn annog arferion afiach yn ymwneud â byrbrydau. Roedd cartrefi ag incwm is yn ei chael hi'n arbennig o heriol i gynnal deiet iachus yn ystod y cyfnod clo.
- Mae diffyg diogeledd bwyd cartrefi yn parhau i fod yn her sylweddol i fwyta'n iach, gydag o leiaf ddwy filiwn o gartrefi'n cael eu hystyried yn rhai sydd â diffyg diogeledd bwyd. Mae llawer mwy o gartrefi'n debygol o ddod yn agored i effeithiau costau bwyd sy'n cynyddu, gan effeithio'n uniongyrchol ar eu gallu i gael deiet iachus.
- Mae pobl eisiau i'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban weithio gyda'r llywodraeth a'r diwydiant i ddarparu mynediad tecach i fwyd fforddiadwy, iachus, sydd wedi'i gynhyrchu'n lleol, gwybodaeth a chymorth gwell i alluogi defnyddwyr i wneud dewisiadau bwyd iachach, a mesurau cryfach i ddiogelu cynaliadwyedd hirdymor y system fwyd.





# 2 Safbwynt byd-eang

## Mewnforion bwyd a'u heffaith ar safonau



### Cipolwg

**Yn y bennod hon, byddwn yn ystyried y canlynol:**

- **sut mae patrymau mewnforion bwyd y DU wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf**
- **yr hyn rydym yn ei wybod am safonau diogelwch y bwyd rydym yn ei fewnforio**
- **pa effaith y mae ein hymadawiad â'r UE yn debygol o'i chael ar y safonau hyn yn y dyfodol**

# Cyflwyniad

**Nid oes amheuaeth bod ein system fwyd – fel y bwyd ar ein platiau – yn gwbl fyd-eang. Mae bron i hanner yr hyn rydym yn ei fwyta yn dod i'r DU o dramor, ac mae bron i ddwy ran o dair ohono wedi dod o'r UE dros y blynyddoedd diwethaf.**

Mae'r patrymau masnachu hirsefydlog hyn wedi cynnig amrywiaeth a dewis enfawr i ddeiet y genedl, ac eto maent hefyd yn cyflwyno heriau parhaus o ran sicrhau bod y bwyd yr ydym yn ei fewnforio yn ddiogel ac yn bodloni'r safonau disgwyliedig.

Wrth i ddefnyddwyr ddod yn fwy ymwybodol o ganlyniadau amgylcheddol a moesegol ehangach eu dewisiadau bwyd, mae'n gynyddol bwysig ein bod ni'n rhannu ffeithiau am darddiad ein bwyd a sut rydym yn cynnal safonau er mwyn cynnal hyder y cyhoedd yn ein bwyd.

Mae'r bennod hon yn edrych ar safonau bwyd sy'n ymwneud â diogelwch bwyd a rheolaethau swyddogol o safbwynt ein perthnasoedd masnachu cyfnewidiol â'r byd.

# Tueddiadau cyfredol o ran mewnforion bwyd

Yn ôl **ffigurau swyddogol**, yn 2019 cyfrannodd y diwydiant bwyd ac amaeth gyfanswm o £128.7 biliwn i economi'r DU. Ar gyfer rhai mathau o fwyd, mae cynhyrchwyr domestig yn cyflenwi llawer o'r hyn rydym yn ei fwyta – er enghraifft, rydym yn fwy na 70% hunangynhaliol mewn cig eidion, cig oen, dofednod, wyau ieir a grawnfwydydd[14].

Ar gyfer nwyddau eraill, yn enwedig ffrwythau a llysiau ffres a siwgr, mae'r DU yn dibynnu mwy ar nwyddau a fewnforir. Yn hyn o beth, y cyflenwr mwyaf yn ystod y blynyddoedd diwethaf yw'r UE o hyd, er ein bod yn cael gafael ar symiau sylweddol o rai cynhyrchion o ymhellach i ffwrdd – fel y dangosir yn ffigur 17.

## Diffiniad o dermau


Yn gyffredinol, rhennir bwyd yn ddau gategori at ddibenion rheoli mewnforion:

**Cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid (POAO):** Mae hyn yn cynnwys cig, dofednod, pysgod, pysgod cregyn, llaeth a chynhyrchion llaeth, wyau a chynhyrchion wyau.

**Bwyd nad yw'n dod o anfeiliaid (FNAO) a Bwyd anifeiliaid:** Mae FNAO yn cynnwys ffrwythau, llysiau, grawnfwydydd a ffyngau, ac mae trefniadau rheoli tebyg i drefniadau rheoli bwyd anifeiliaid yn berthnasol iddynt.


## Mae'r rhan fwyaf o'r cig a'r wyau rydym yn eu bwyta yn cael eu cynhyrchu yn ddomestig

**Ffigur 17: % o gyfanswm defnydd y DU o'r prif gategorïau POAO**




## Mae cyfran sylweddol o'n ffrwythau a'n llysiau ffres yn dod o dramor

**Ffigur 18: % o gyfanswm defnydd y DU o'r prif gategorïau FNAO**




*Nid oes data ar wahân ar gael ar gyfer tatws o'r UE a thatws o weddill y byd

## Ar hyn o bryd mae'r mwyafrif o'n mewnforion bwyd yn dod o wledydd yr UE

**Ffigur 19: % o gyfanswm mewnforion y DU a gafwyd o'r UE ac o ranbarthau eraill, 2017-21**

| Nwydd | Canran yr UE | Cyflenwyr mawr eraill (>10%) |
|---|---|---|
| **Porc** | **99.9%** | Dim |
| **Wyau** | **99.6%** | Dim |
| **Cynnyrch Llaeth** | **96%** | Dim |
| **Cig Eidion** | **91%** | Dim |
| **Cynhyrchion Eraill sy'n dod o Anifeiliaid** | **82%** | Dim |
| **Dofednod** | **75%** | Asia **(19%)** |
| **Cyfansawdd (bwyd wedi'i brosesu)** | **75%** | Dim |
| **FNAO** | **65%** | America Ladin a'r Caribî **(11%)** |
| **POAO Arall** | **45%** | Asia **(43%)** |
| **Bwyd Anifeiliaid** | **45%** | America Ladin a'r Caribî **(30%)**<br>Gogledd America **(10%)** |
| **Pysgod** | **35%** | Asia **(26%)**,<br>Ewrop: Y tu allan i'r UE **(23%)** |
| **Cig oen** | **20%** | Ynysoedd y De **(77%)** |

Er na fu unrhyw newid uniongyrchol neu gyfan gwbl mewn llifoedd masnachu yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, mae rhai arwyddion petrus bod y cydbwysedd rhwng mewnforion o'r UE, mewnforion o wledydd y tu allan i'r UE a chynnyrch cartref yn dechrau newid. Er enghraifft, gostyngodd cyfran y pysgod a fewnforiwyd o'r UE o 38% yn 2019 i 29% yn 2021. Mae mewnforion cig oen a phorc hefyd wedi gostwng dros yr un cyfnod[15].


Efallai mai un o'r rhesymau dros hyn yw cyflwyno rheolaethau mewnforio'r UE ar gynhyrchion Prydeinig o fis Ionawr 2021 – gallai'r costau uwch a'r gwaith papur sy'n gysylltiedig ag allforio bwyd fod wedi arwain at roi mwy o gynnyrch Prydeinig ar y farchnad ddomestig, gan leihau'r galw am fewnforion[16].

Bu rhywfaint o gynnydd nodedig mewn mewnforion o wledydd eraill dros y 10 mlynedd diwethaf. Gwnaethom gymharu mewnforion cynhyrchion o'r pum mlynedd rhwng Ionawr 2012 a Rhagfyr 2016 (cyn y refferendwm) â'r pum mlynedd ar ôl y refferendwm (2017-2021), ar gyfer 50 prif fewnforiwr y DU. Mewnforiodd wyth gwlad dros 50% yn fwy o fwyd i'r DU ar ôl y refferendwm na chyn y refferendwm, fel y dangosir yn ffigur 20 isod[17].

Bu cynnydd penodol yn 2018 a 2019 mewn dofednod a chig oen o Ganada, sydd wedi gostwng ers hynny. Roedd Moroco yn gyfrifol am gynnydd mawr yn nifer y cynhyrchion FNAO a gafodd eu mewnforio i'r DU. Ar draws y chwe gwlad yn nwyrain Ewrop, bu cynnydd mawr mewn mewnforion o gynhyrchion FNAO yn ogystal â physgod, cynhyrchion llaeth a chynhyrchion cyfansawdd. Dadansoddiad rhagarweiniol yw hwn: gall newidiadau mewn patrymau masnachu ddigwydd am nifer o resymau nad ydynt yn gysylltiedig â'n hymadawiad â'r UE, neu gallai newidiadau fod wedi digwydd fel rhan o waith cynllunio wrth gefn a wnaed gan y diwydiant cyn ymadael â'r UE. At ei gilydd, mae'n rhy fuan i ddweud beth fydd effaith hirdymor ymadael â'r UE ar lifau mewnforio.

## Cynnydd nodedig mewn mewnforion o rai gwledydd dros y degawd diwethaf

**Ffigur 20: Twf canrannol mwyaf mewn cyfeintiau mewnforio o 2012-16 i 2017-21**



# Pa mor ddiogel yw bwyd wedi'i fewnforio?

Mae tua 40 miliwn o dunelli o fwyd yn cael ei fewnforio i'r wlad bob blwyddyn, ac mae gan y DU gyfres o fesurau rheoli ar waith i sicrhau bod y cynhyrchion hyn yn bodloni'r safonau diogelwch gofynnol.

Mae pob cynnyrch anifeiliaid yn cael ei ystyried yn 'risg uchel' yn awtomatig ac yn destun rheolaethau mewnforio penodol ac archwiliadau ar y ffin (ffigur 21), ac eithrio'r UE lle disgwylir i reolaethau gael eu cymhwyso yn 2023. Dim ond os ydynt yn dod o wledydd penodol lle mae risgiau diogelwch bwyd neu fwyd anifeiliaid penodol wedi'u nodi ac mae angen eu rheoli y caiff mewnforion bwyd a bwyd anifeiliaid o blanhigion eu hystyried yn risg uchel.

Mae'r prif wiriadau mewnforio a gynhelir ar fwyd a bwyd anifeiliaid risg uchel yn cynnwys:

- **gwiriad dogfennol gorfodol** – mae hyn fel arfer yn cynnwys archwilio'r dogfennau sy'n cyd-fynd â'r llwyth fel tystysgrif swyddogol, adroddiad dadansoddol neu ddogfennau masnachol a chymharu'r dogfennau hynny â'r hyn a ddisgwylir[18].
- **gwiriad adnabod** – mae hyn yn cynnwys archwiliad gweledol o'r llwyth i gadarnhau ei fod yr hyn y dylai fod. Mae'r gwiriadau hyn yn orfodol ar gyfer mewnforio POAO ac fe'u cynhelir ar amlder penodol ar gyfer FNAO risg uchel, a all amrywio rhwng 5% a 50% o lwythi. Lle cyflwynir dogfennaeth swyddogol, bydd hyn yn cynnwys gwirio a dilysu'r dogfennau yn erbyn y nwydd ei hun.
- **gwiriadau ffisegol** – mae hyn yn cynnwys gwirio'r nwyddau eu hunain gan gynnwys, lle bo'n briodol, gwirio'r deunydd pecynnu, y dull cludo, labeli a thymheredd, samplu ar gyfer dadansoddi, profi neu ddiagnosis mewn labordy ac unrhyw wiriadau eraill sy'n angenrheidiol i gadarnhau cydymffurfiaeth â rheolaethau diogelwch.

Yn ystod rhai gwiriadau ffisegol, cymerir sampl o fwyd a'i brofi i chwilio am bresenoldeb halogion, fel pathogenau microbaidd, tocsinau naturiol a chemegau artiffisial gan gynnwys plaladdwyr a gweddillion cyffuriau milfeddygol.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys data a geir o wiriadau mewnforio bwyd a gynhaliwyd gan awdurdodau gorfodi yn 2020 a 2021[19]. At ei gilydd, cafodd bron i 90,000 o lwythi risg uchel eu prosesu yn 2020, gan godi i dros 123,000 yn 2021. Mae cyfraddau cydymffurfio wedi'u nodi yn ffigur 21.

## Mae lefelau cydymffurfio bwyd a fewnforir wedi aros yn weddol sefydlog

**Ffigur 21: % y llwythi sy'n methu gwiriadau rheoli mewnforio, wedi'u dadansoddi yn ôl math o wiriad**

**Gwiriadau dogfennol**

| Gwiriadau a gynhelir | 2020 | 2021 |
|---|---|---|
| Cig a chynhyrchion anifeiliaid eraill (POAO) | 1% | 1% |
| Bwydydd risg uchel eraill (HRFNAO) | 1% | 1% |
| Pob llwyth | 1% | 1% |

**Gwiriadau adnabod**

| Gwiriadau a gynhelir | 2020 | 2021 |
|---|---|---|
| Cig a chynhyrchion anifeiliaid eraill (POAO) | 1% | 1% |
| Bwydydd risg uchel eraill (HRFNAO) | 5% | 2% |
| Pob llwyth | 1% | 1% |

**Gwiriadau ffisegol**

| Gwiriadau a gynhelir | 2020 | 2021 |
|---|---|---|
| Cig a chynhyrchion anifeiliaid eraill (POAO) | 1% | Dd/B |
| Bwydydd risg uchel eraill (HRFNAO) | 6% | 4% |
| Pob llwyth | 2% | Dd/B |

**Gwiriadau samplu**

| Gwiriadau a gynhelir | 2020 | 2021 |
|---|---|---|
| Cig a chynhyrchion anifeiliaid eraill (POAO) | 1% | 1% |
| Bwydydd risg uchel eraill (HRFNAO) | 4% | 5% |
| Pob llwyth | 3% | 3% |

**Sylw 1: Arhosodd cyfraddau methu cyfartalog ar gyfer gwiriadau dogfennol yn sefydlog drwy gydol y cyfnod hwn.**

Mae hyn yn cwmpasu cyfnod pan oedd y pandemig wedi tarfu ar gyflenwadau bwyd byd-eang ac wedi peri i'r UE sefydlu mesurau dros dro i ganiatáu i fwyd a bwyd anifeiliaid risg uchel heb ardystiad iechyd allforio gael ei fewnforio.

**Sylw 2: Roedd tri y cant o'r samplau a gymerwyd yn 2020 a 2021 yn methu â chydymffurfio, gyda chyfradd methu uwch ymhlith FNAO risg uchel o gymharu â POAO.**

Nid yw'n annisgwyl i gyfraddau methu samplu fod yn uwch ar gyfer FNAO risg uchel a fewnforir nag ar gyfer POAO. Mae rheolaethau mewnforio ar gyfer HRFNAO yn caniatáu i nwyddau y credwn eu bod yn peri pryder iechyd posibl gael eu rheoli dros dro er mwyn gallu casglu tystiolaeth. Nid yw'n syndod felly fod cyfraddau methu samplu yn uwch ar gyfer FNAO, a gaiff eu gwirio dim ond pan fydd tystiolaeth flaenorol o risg uwch, o gymharu â POAO sy'n destun rheolaethau mewnforio drwy'r amser. Mae'r rhan fwyaf o fethiannau'n gysylltiedig â chanfod gweddillion plaladdwyr neu afflatocsinau[20].

**Sylw 3: O gymharu data ar gyfer y cyfnodau hyn, ymddengys fod safonau diogelwch bwyd sy'n cael ei allforio i Brydain Fawr wedi aros yn gymharol sefydlog at ei gilydd.**

Roedd hwn yn gyfnod heriol i gynhyrchwyr bwyd gyda'r pandemig yn rhoi pwysau sylweddol ar systemau diogelwch bwyd byd-eang. Ar y cyfan, mae'n galonogol gweld y data'n aros yn weddol sefydlog.

# Effaith ymadawiad y DU â'r UE ar reolaethau mewnforio

Daeth Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon i rym ar 1 Ionawr 2021. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Ogledd Iwerddon gymhwyso gofynion mewnforio'r UE at unrhyw gynhyrchion sy'n dod i mewn i barth rheoleiddio'r UE o'r tu allan i'r UE. Mae trafodaethau technegol yn parhau rhwng yr UE a'r DU ar weithredu'r Protocol mewn perthynas â chynhyrchion sy'n symud o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon.

Mae ymadawiad y DU â'r UE wedi arwain at oblygiadau pwysig o ran y ffordd rydym yn cynnal ansawdd a diogelwch bwyd sy'n dod i mewn i'r wlad. Fel aelod-wladwriaeth, roedd gwiriadau mewnforio ar gyfer bwyd a oedd yn dod i mewn i'r DU o wledydd y tu allan i'r UE yn cael eu cynnal yn y man cyrraedd cyntaf yn yr UE. Nawr, dylai'r gwiriadau gael eu cynnal yn y mannau cyrraedd ym Mhrydain Fawr (ac eithrio ar gyfer bwyd sy'n dod o Ogledd Iwerddon).

Er bod y DU yn cymhwyso rheolaethau diogelwch at fwyd a bwyd anifeiliaid risg uchel a fewnforir o wledydd y tu allan i'r UE, fel yr oeddem yn ei wneud pan oeddem yn rhan o'r UE, mae'n annhebygol y caiff rheolaethau cyfatebol ar gyfer cynhyrchion o'r UE eu cyflwyno cyn diwedd 2023. Mae hyn yn golygu nad ydym yn cael sicrwydd swyddogol gan y wlad sy'n allforio fod y mewnforion hynny yn bodloni safonau diogelwch uchel y DU o ran bwyd a bwyd anifeiliaid. Gallai absenoldeb archwiliadau ar y ffin effeithio ar y ffordd rydym yn nodi ac yn ymateb i risgiau diogelwch yn y dyfodol, ac mae'n bosibl y bydd angen adnoddau ychwanegol ar y DU er mwyn cynnal y lefelau sicrwydd diogelwch bwyd ar gyfer y mewnforion hyn.

Er y bu'n annhebygol y byddai mewnforion o'r UE yn achosi digwyddiadau diogelwch bwyd, nid yw hyn yn wir ar gyfer pob aelod-wladwriaeth, ac nid yw'n sefyllfa sefydlog chwaith

> **“Mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban o'r farn bod diffyg cyfundrefn rheoli mewnforion lawn yn y DU ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid o'r UE yn lleihau ein gallu i atal bwydydd nad ydynt yn bodloni safonau uchel y DU rhag cael eu rhoi ar ein marchnad.”**

Ffynhonnell: Yr Athro Susan Jebb (Cadeirydd yr ASB) a Heather Kelman (Cadeirydd Safonau Bwyd yr Alban)

Bydd cyflwyno gofynion newydd i allforwyr yn yr UE gyhoeddi hysbysiadau ymlaen llaw ar gyfer nwyddau risg uchel a fewnforir i'r DU yn helpu i liniaru rhai o'r materion hyn. Daeth y gofyniad newydd i rym ym mis Ionawr 2022 a bydd yn helpu'r ASB, Safonau Bwyd yr Alban ac awdurdodau lleol i ymateb i ddigwyddiadau diogelwch bwyd drwy ei gwneud yn bosib i gynhyrchion gael eu holrhain yn gyflymach. Mae'r ddau sefydliad hefyd wedi atgyfnerthu eu gallu a'u capasiti i gynnwys gwaith goruchwylio, sy'n adeiladu ar ddulliau profedig sy'n eu galluogi i fod yn well wrth ganfod ac ymateb i risgiau wrth iddynt ddod i'r amlwg, fel y byddwn yn ei ddisgrifio ymhellach yn y bennod nesaf. Fodd bynnag, nid yw'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban o'r farn bod y camau hyn yn ddigonol i ddisodli rheolaethau mewnforio cadarn, ac maent yn rhannu pryder parhaus bod ein system gyfredol o reolaethau mewnforio yn wannach o ganlyniad.

### Y System Rhybuddio Cyflym ar gyfer Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (RASFF)

Mae RASFF yn system hysbysu a weithredir gan y Comisiwn Ewropeaidd i gyfnewid gwybodaeth am risgiau a pheryglon rhwng aelod-wladwriaethau. Mae awdurdodau gorfodi aelod-wladwriaethau'r UE yn cyhoeddi hysbysiadau Rhybuddio Cyflym pan fyddant yn canfod pryderon diogelwch bwyd difrifol gyda'u cynnyrch eu hunain neu gynnyrch aelod-wladwriaethau eraill.

Mae'r hysbysiadau hyn yn rhybuddio aelod-wladwriaethau am risgiau difrifol i iechyd mewn amser real ac yn helpu i hwyluso ymateb i ddigwyddiad, gan gynnwys trwy gymryd camau gweithredu. Mae cyfraith bwyd yr UE hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i aelod-wladwriaethau gyfathrebu a chydweithio i ddatrys digwyddiadau bwyd sy'n digwydd rhwng aelod-wladwriaethau. Mynediad trydydd gwlad sydd gan y DU i RASFF erbyn hyn, sy'n golygu ein bod yn cael darlun llai manwl o rybuddion diogelwch bwyd ar draws marchnad sengl yr UE.

# Cytundebau masnach rydd a safonau bwyd

Fel y nodwyd yn y bennod flaenorol, mae buddiannau defnyddwyr heddiw yn ehangach o lawer na safonau diogelwch – mae'r cyhoedd yn poeni'n fawr am faterion fel maeth, fforddiadwyedd, cynaliadwyedd, effeithiau amgylcheddol a lles anifeiliaid.

Mae pryder ar draws y DU, ymhlith defnyddwyr, y diwydiant, a rhanddeiliaid eraill, y gallai trefniadau masnach rydd newydd effeithio ar safonau yn y DU dros amser, fel yr adlewyrchir yn y **Strategaeth Fwyd Genedlaethol** yn Lloegr, a dogfen ***Vision for Trade*** Llywodraeth yr Alban.


Fel rhan o'r broses graffu ar gyfer cadarnhau unrhyw fargen masnach rydd yn y dyfodol, mae'n ofynnol i Lywodraeth y DU, o dan Ddeddf Amaethyddiaeth 2020, adrodd i'r Senedd gan nodi a yw darpariaethau'r cytundeb masnach rydd yn cynnal mesurau diogelu statudol ar gyfer bywyd neu iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion, lles anifeiliaid neu'r amgylchedd.

Er mwyn llywio'r adroddiadau hyn, mae Llywodraeth y DU wedi gofyn am gyngor gan yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban a'r Comisiwn Masnach ac Amaethyddiaeth sydd newydd ei ffurfio, ymhlith eraill. Cafodd yr adroddiad sy'n asesu'r cytundeb masnach rydd ag Awstralia ei osod gerbron Senedd y DU ar 6 Mehefin 2022, a disgwylir i adroddiad Seland Newydd gael ei lunio yn ystod haf 2022.

Dylid nodi hefyd fod y cytundebau masnach rydd gydag Awstralia a Seland Newydd yn ailddatgan hawliau a rhwymedigaethau'r DU i gynnal safonau bwyd rhyngwladol o dan reolau Sefydliad Masnach y Byd. Maent hefyd yn ailddatgan yr egwyddor sylfaenol y bydd yn rhaid i fewnforion gydymffurfio â rheolau diogelwch bwyd y DU o hyd.

## I grynhoi

- Mae gan y DU hanes hir o fewnforio bwyd o bob rhan o'r byd. Er na fu newid mawr yn y patrymau masnachu ers i'r DU ymadael â'r UE, mae arwyddion cynnar cynnil bod rhai llifoedd mewnforion bellach yn esblygu.
- Er bod y pandemig wedi tarfu ar y system fwyd fyd-eang, mae lefel y gydymffurfiaeth â gwiriadau mewnforio wedi aros yn weddol sefydlog, gan awgrymu na fu unrhyw ostyngiad sylweddol mewn safonau diogelwch bwyd rhyngwladol hyd yn hyn.
- Er bod rheolaethau mewnforio wedi cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus a gyfer nwyddau risg uchel o wledydd y tu allan i'r UE, mae'r oedi parhaus wrth sefydlu rheolaethau cyfatebol ar gyfer cynhyrchion yr UE yn lleihau ein gallu i atal bwydydd nad ydynt yn bodloni safonau uchel y DU rhag cael eu rhoi ar ein marchnad.
- Mae cytundebau masnach rydd newydd yn cael eu llofnodi ond ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn nid ydynt eto wedi'u cadarnhau nac wedi dod i rym. Mae'r yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn cyfrannu at asesiadau swyddogol y llywodraeth i weld a oes mesurau diogelu digonol yn y cytundebau i gynnal amddiffyniadau statudol ar gyfer iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion, lles anifeiliaid a'r amgylchedd.





# 3 Diogel a chadarn

## Y tueddiadau diweddaraf o ran troseddau bwyd a digwyddiadau bwyd



## Cipolwg

**Yn y bennod hon, byddwn yn ystyried y canlynol:**

- **yr hyn rydym yn ei wybod am raddfa a natur digwyddiadau bwyd a bwyd anifeiliaid heddiw**
- **sut mae unedau troseddau bwyd yn gweithredu, a'r hyn y gallwn ei ddysgu o'r data sydd ar gael**
- **sut rydym yn ymateb i risgiau sy'n dod i'r amlwg ar draws ein cadwyn cyflenwi bwyd**

# Cyflwyniad

**Hyd yn oed pan fydd y gwiriadau llymaf ar waith, bydd amgylchiadau lle gallai ansawdd, diogelwch ac uniondeb ein bwyd fod wedi'u peryglu. Pan fydd hyn yn digwydd, mae angen ymateb yn gyflym i nodi'r broblem a thynnu'r cynhyrchion oddi ar y farchnad cyn y gallant achosi niwed.**

Mae Timau Diogelu Defnyddwyr yr ASB yng Nghymru a Gogledd Iwerddon ac Uned Digwyddiadau a Gwytnwch yr ASB yn Lloegr yn cydlynu'r ymateb i ddigwyddiadau bwyd a bwyd anifeiliaid, a hefyd rai agweddau ar frigiadau o achosion o salwch a gludir gan fwyd[21] – tra bo Uned Troseddau a Digwyddiadau Bwyd (SFCIU) yr Alban yn cyflawni rôl gyfochrog trwy ei thîm Digwyddiadau.

Mae'r SFCIU hefyd yn gyfrifol am ymchwilio i dwyll bwyd difrifol a throseddoldeb cysylltiedig ar draws yr Alban, tra bo'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd (NFCU) yn cwmpasu Cymru, Lloegr, a Gogledd Iwerddon[22]. Mae'r ddwy uned yn cydweithio'n agos ag awdurdodau lleol a phartneriaid yn yr heddluoedd, sydd oll â rhan wrth ymchwilio i droseddau bwyd.

Fel y dengys y bennod hon, mae'r gwaith hwn yn mynd at wraidd sawl agwedd allweddol ar safonau bwyd, gan gynnwys diogelwch a hylendid bwyd, dilysrwydd a labelu, safonau cyfansoddiad a rheolaethau swyddogol. Gallai awdurdodau lleol hefyd arwain ar ymchwiliadau i droseddau bwyd.

## Digwyddiadau bwyd a bwyd anifeiliaid


Mae digwyddiad bwyd yn codi pan fydd pryderon am ddiogelwch, ansawdd neu uniondeb bwyd, lle gallai fod angen gweithredu er mwyn diogelu defnyddwyr[23]. Gall hysbysiadau am ddigwyddiadau bwyd ddod o sawl ffynhonnell, gan gynnwys awdurdodau lleol, awdurdodau iechyd porthladdoedd, sefydliadau llywodraethol, y diwydiant bwyd, gwledydd eraill, a defnyddwyr eu hunain.

Cynyddodd nifer y digwyddiadau bwyd y rhoddwyd gwybod amdanynt am sawl blwyddyn wedi 2010 o ganlyniad i reoliadau newydd a datblygiadau mewn technoleg, gwyddoniaeth a dulliau dadansoddi, a arweiniodd at ganfod ac adrodd gwell[24]. Mae sylwadau allweddol data 2019 i 2021 wedi'u cynnwys yn yr adran nesaf.

## **Sylw 1:** Mae'n ymddangos bod cyfraddau digwyddiadau bwyd yn dychwelyd at lefelau disgwyliedig yn seiliedig ar gyfraddau a gofnodwyd yn flaenorol ar ôl cwympo yn ystod y pandemig.

Mae data diweddar yn dangos y bu gostyngiad gweddol sydyn yn nifer yr hysbysiadau am ddigwyddiadau bwyd a ddaeth i law yn y DU pan oedd y pandemig yn ei anterth ddechrau 2020, wrth i achosion yr adroddwyd amdanynt ostwng 13% yn 2020 o gymharu â 2019. Roedd hyn o ganlyniad i nifer o ffactorau, gan gynnwys newidiadau i ymddygiad defnyddwyr, symleiddio llinellau cynhyrchu bwyd, llai o fusnesau bwyd yn gweithredu, a lleihad yng nghymhlethdod yr ystodau o gynhyrchion a oedd yn cael eu cynnig. Mae nifer y digwyddiadau yr adroddwyd amdanynt wedi cynyddu'n gyson drwy gydol 2021, er bod y nifer hwn yn is na 2019.

**Ffigur 22: Nifer y digwyddiadau bwyd yr adroddwyd amdanynt yn y DU**





Ffynhonnell: Cronfeydd data rheoli digwyddiadau'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban

## **Sylw 2:** Halogiad gan ficro-organebau niweidiol oedd y perygl yr adroddwyd amdano amlaf.

Salmonela oedd yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r digwyddiadau microbiolegol yr adroddwyd amdanynt dros y tair blynedd diwethaf. Gellir priodoli'r cynnydd diweddar yn rhannol i lefelau uwch o wyliadwriaeth reoleiddiol ar fwyd yn dilyn cyfres o frigiadau o achosion cysylltiedig o salwch a gludir gan fwyd yn 2020 a 2021, a drafodir yn y bennod hon. Maent hefyd yn adlewyrchu cynnydd tymor hwy mewn hysbysiadau am frigiadau o achosion o ganlyniad i gyflwyno dilyniannau genom cyfan, sy'n caniatáu i achosion o heintiau gael eu cysylltu'n fwy diffiniol â tharddiad bwyd[25].

**Ffigur 23: Nifer yr achosion yr adroddwyd amdanynt o halogiad gan ficro-organebau niweidiol yn y DU**





Ffynhonnell: Cronfeydd data rheoli digwyddiadau'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban

## Sylw 3: Halogiad cemegol oedd yr ail gategori mwyaf cyffredin yr adroddwyd amdano y llynedd.

Roedd cyfran o ddigwyddiadau halogi yn gysylltiedig ag adroddiadau eang yn yr UE a'r DU am bresenoldeb ethylen ocsid heb ei ganiatáu mewn hadau sesame a chynhyrchion sy'n cynnwys hadau sesame a fewnforiwyd yn ystod 2020 a 2021. Arweiniodd y rhain at dynnu'r cynhyrchion yr effeithiwyd arnynt oddi ar y farchnad ar draws y DU, a dylai hyn gael ei ystyried yn arwydd calonogol bod y system adrodd yn gweithio'n effeithiol yn ystod y pandemig[26].


**Ffigur 24: Nifer yr achosion yr adroddwyd amdanynt o halogiad cemegol yn y DU**




Ffynhonnell: Cronfeydd data rheoli digwyddiadau'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban

## Sylw 4: Mae digwyddiadau sy'n ymwneud ag alergenau heb eu datgan neu alergenau heb eu datgan yn gywir wedi cwympo, ond mae hwn yn faes sy'n peri pryder mawr o hyd.

Bu 272 o achosion a oedd yn gysylltiedig ag alergenau yn 2021, gostyngiad o bron i chwarter ar y 355 o achosion a gafwyd yn 2019. Gallai'r gostyngiad fod o ganlyniad i fwy o adrodd yn y cyfryngau am alergenau mewn bwyd, ac effaith newidiadau diweddar i gyfreithiau labelu. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban hefyd wedi cynnal mwy o ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd a busnesau bwyd – fel y mae nifer o elusennau wedi'i wneud hefyd.




**mewn digwyddiadau yr adroddwyd amdanynt sy'n ymwneud ag alergenau heb eu datgan yn 2021 o gymharu â 2019**


Ffynhonnell: Cronfeydd data rheoli digwyddiadau'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban



## **Sylw 5:** Bu cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion sy'n ymwneud â dofednod yn ystod 2020 a 2021.

Yn hanesyddol, mae cyfraddau digwyddiadau bwyd a gofnodwyd wedi tueddu i fod ar eu huchaf mewn perthynas â chig a chynhyrchion cig – yn rhannol oherwydd ystod ac amlder y gwiriadau y mae angen eu cynnal ar y bwydydd hyn. Fodd bynnag, rhwng 2019 a 2021 mae'n nodedig bod nifer y digwyddiadau a oedd yn ymwneud â dofednod wedi treblu bron yn dilyn cyfres o frigiadau o achosion o Salmonela a chynnydd cysylltiedig mewn gweithgarwch gwyliadwriaeth (gweler isod).

**Ffigur 25: Nifer yr achosion yr adroddwyd amdanynt a oedd yn cynnwys dofednod yn y DU**




Ffynhonnell: Cronfeydd data rheoli digwyddiadau'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban

Mae'n bwysig nodi bod yna nifer mawr o achosion o glefydau a gludir gan fwyd nad oes neb yn rhoi gwybod amdanynt. Er enghraifft, yn achos Campylobacter, cofnodir tua **60,000-70,000 o adroddiadau labordy wedi'u cadarnhau bob blwyddyn gan gyrff gwyliadwriaeth**. Fodd bynnag, mae ymchwil yn amcangyfrif bod gwir nifer yr achosion o Campylobacter y gellir eu priodoli i fwyd yn nes at 300,000. Ychydig iawn o'r achosion hyn y gellir eu priodoli i frigiadau o achosion am eu bod yn digwydd ar hap, a hynny yn aml yn y cartref. Dim ond un hysbysiad ar gyfer Campylobacter a gafodd yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn ystod 2021. Yn y dyfodol, gallai gwyliadwriaeth genomig well ar gyfer pathogenau o'r fath, er enghraifft drwy'r rhaglen PATH-SAFE (a drafodir yn ddiweddarach yn y bennod hon), ddarparu dulliau mwy cywir o nodi ffynhonnell rhagor o'r achosion hyn.



## Salmonela a chyw iâr mewn briwsion bara


Mae'r cynnydd yn nifer yr achosion a oedd yn ymwneud â dofednod yn adlewyrchu ymateb y DU i gyfres o frigiadau o achosion o salwch a gludir gan fwyd a oedd yn cynnwys Salmonela mewn cynhyrchion cyw iâr mewn briwsion bara o Wlad Pwyl yn 2020 a 2021, a effeithiodd ar fwy na mil o bobl a **nifer o gynhyrchion/brandiau**[27]. Mewn ymateb, lansiodd Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (Iechyd Cyhoeddus Lloegr ar y pryd) **arolwg mawr yn 2020** i werthuso graddau'r halogiad. Dilynwyd hyn gan arolwg ehangach gan yr ASB a chwiliodd am bathogenau ychwanegol a thystiolaeth o ymwrthedd gwrthficrobaidd. Ers hynny mae awdurdodau yng Ngwlad Pwyl wedi rhoi mesurau rheoli gwell ar waith i sicrhau diogelwch dofednod sy'n cael eu mewnforio i'r DU.



**Sylw 6: Yn 2021 gwelwyd cynnydd o 49% ers 2019 yn nifer y digwyddiadau bwyd a oedd yn ymwneud â bwydydd deietetig, atchwanegiadau bwyd a bwydydd cyfnerthedig.**

Credwn fod y cynnydd hwn o ganlyniad i gynnydd sylweddol yn y defnydd o atchwanegiadau bwyd yn y blynyddoedd diwethaf – yn enwedig yn y categorïau maetheg chwaraeon, profiotigion, ac atchwanegiadau perlysieuol neu draddodiadol. Bydd yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn monitro'r digwyddiadau hyn sy'n ymwneud â'r cynhyrchion yn unol â newidiadau i'r farchnad.

**Ffigur 26: Nifer y digwyddiadau yr adroddwyd amdanynt yn ymwneud ag atchwanegiadau bwyd yn y DU**




Ffynhonnell: Cronfeydd data rheoli digwyddiadau'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban

## Rhybuddion alergedd, hysbysiadau galw cynnyrch yn ôl a rhybuddion bwyd er gweithredu

Unwaith y bydd digwyddiad bwyd wedi'i nodi, gallai fod angen tynnu neu alw cynnyrch bwyd yn ôl[28]. Mae'r camau gweithredu hyn yn cael eu harwain gan y diwydiant ac yn cael eu cyflawni mewn cysylltiad agos â'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban. Mae'r dull partneriaeth hwn fel arfer yn allweddol i allu rheoli digwyddiad yn llwyddiannus. Yna, bydd yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn aml yn cyhoeddi rhybuddion i roi gwybod i ddefnyddwyr a busnesau bwyd am y mater a'r camau gweithredu arbennig y mae angen iddynt eu cymryd.

## Diffiniad o dermau


- Cyhoeddir **Rhybudd Alergedd** pan fydd y cynnyrch wrthi'n cael, neu wedi cael, ei alw'n ôl oherwydd bod gwybodaeth am alergenau naill ai heb ei datgan ar labeli bwyd (gan gynnwys ei bod mewn iaith heblaw'r Saesneg) neu ei bod yn anghywir.
- Cyhoeddir **Hysbysiad Galw Cynnyrch yn Ôl** pan fydd pryderon am ddiogelwch cynnyrch, gan amlaf oherwydd halogiad, cambecynnu neu gamlabelu cynhyrchion.
- Cyhoeddir **Rhybudd Bwyd er Gweithredu (FAFA)** ar gyfer awdurdodau lleol pan nad yw dosbarthiad cynhyrchion mor amlwg neu pan nad yw gweithredwr busnes bwyd yn cymryd y camau gofynnol i dynnu cynnyrch oddi ar y farchnad, ac mae angen i awdurdodau lleol gymryd camau ymyrryd adferol.

Cynyddodd nifer y rhybuddion alergedd pan gyflwynwyd deddfwriaeth newydd yn 2017 oedd yn ei gwneud yn orfodol i nodi cynhwysion alergenaidd ar labeli.

Yn gyson, llaeth yw'r bwyd y cyhoeddwyd rhybudd alergedd ar ei gyfer amlaf, wedi'i ddilyn gan rawnfwydydd sy'n cynnwys glwten a chnau neu bysgnau. Mae hwn yn batrwm hirsefydlog ac mae'n adlewyrchu'r ffaith bod y cynhwysion hyn yn cael eu defnyddio'n helaeth mewn cynhyrchion bwyd o bob math.

Fodd bynnag, ar draws y categorïau hyn, gostyngodd nifer y digwyddiadau yr adroddwyd amdanynt rhwng 2019 a 2021 – arwydd posib bod ymwybyddiaeth gyffredinol o'r risgiau yn cynyddu a bod arferion y diwydiant yn gwella.

**Ffigur 27: Cyfanswm y rhybuddion alergedd a gyhoeddwyd yn y DU, 2019-21**





Ffynhonnell: Systemau Rheoli Digwyddiadau'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban

## Mae digwyddiadau bwyd sy'n gysylltiedig ag alergenau wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf

**Ffigur 28: Y pum alergen a oedd yn gysylltiedig amlaf â digwyddiadau bwyd**


Noder: gall rhybuddion alergedd gynnwys un neu ragor o'r alergenau a restrir yn y tabl uchod.




Ffynhonnell: Systemau Rheoli Digwyddiadau'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban

Yn y cyfamser, mae nifer yr hysbysiadau galw cynnyrch yn ôl wedi aros yn sefydlog dros y tair blynedd diwethaf gyda chyfanswm o 181 o hysbysiadau wedi'u cyhoeddi. Dim ond pedwar hysbysiad FAFA a gyhoeddwyd yn ystod yr un cyfnod.

**Ffigur 29: Cyfanswm yr hysbysiadau galw cynnyrch yn ôl a gyhoeddwyd yn y DU**




Ffynhonnell: Systemau Rheoli Digwyddiadau'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban

## Datblygiadau ym maes gwyliadwriaeth bwyd ers ymadael â'r UE

Fel y gwelsom yn y bennod flaenorol, mae ymadawiad y DU â'r UE yn golygu nad oes gennym fynediad llawn at y system rhybuddio cyflym sy'n cael ei chynnal gan y Comisiwn Ewropeaidd. Cyn ymadael â'r UE, roedd y DU yn cyfathrebu'n helaeth â gwledydd eraill ar faterion diogelwch bwyd trwy'r RASFF. Erbyn hyn, mae gan y DU fynediad trydydd gwlad i'r

system hon, sy'n golygu ein bod yn parhau i gael hysbysiadau perthnasol sy'n effeithio ar y DU.

Ers hynny, rydym wedi cymryd sawl cam ychwanegol i gryfhau ein dull o nodi ac ymateb i risgiau bwyd:

## Cam 1: Adeiladu partneriaethau rhyngwladol newydd



Mae'r DU yn defnyddio Rhwydwaith Rhyngwladol yr Awdurdodau Diogelwch Bwyd (INFOSAN) i gyfathrebu â gwledydd eraill ar faterion diogelwch bwyd. Mae hyn eisoes wedi helpu'r DU i weithio gyda'r gymuned ryngwladol wrth ymateb i nifer o ddigwyddiadau mawr. Mae Safonau Bwyd yr Alban a'r ASB hefyd yn aelodau allweddol o weithgor INFOSAN.

## Cam 2: Gwella monitro diogelwch bwyd byd-eang



Mae tîm monitro newydd yn yr ASB yn defnyddio gwybodaeth o rybuddion bwyd rhyngwladol, ffynonellau dibynadwy yn y cyfryngau, chwiliadau gwefannau, a gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid i nodi risgiau bwyd posib mewn modd rhagweithiol. Rhennir yr wybodaeth hon â Safonau Bwyd yr Alban lle bo'n berthnasol i'r Alban. Mae'r dulliau newydd hyn wedi helpu i nodi 24 o ddigwyddiadau y llynedd, tra bod 109 o gynhyrchion pellach wedi'u cyfeirio at awdurdodau eraill yn y DU ar gyfer ymchwil bellach[29].

## Cam 3: Gwella prosesau atal a rheoli risg



Mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban hefyd yn parhau i weithio gyda busnesau bwyd, awdurdodau gorfodi a grwpiau buddiannau defnyddwyr i wella prosesau diogelwch bwyd ar gyfer tynnu a galw bwyd yn ôl. Yn benodol, rydym yn cynyddu ein ffocws ar atal digwyddiadau trwy annog awdurdodau lleol a gweithredwyr busnesau bwyd i ddefnyddio 'dadansoddiad o wraidd y broblem' i'w helpu i ddeall pa ffactorau sy'n achosi digwyddiadau bwyd, a sut i'w hatal yn y dyfodol.

## Cam 4: Defnyddio gwyddoniaeth y genhedlaeth nesaf



Gyda datblygiadau ym maes Dilyniannu Genom Cyfan a dadansoddiadau genetig eraill dan arweiniad Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, gall yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban bellach ddefnyddio ffyrdd cynyddol soffistigedig o nodi a deall salwch a gludir gan fwyd. Mae hyn yn ein helpu i nodi lle mae achosion yn gysylltiedig neu'n debygol o fod yn gysylltiedig â'r un ffynhonnell fwyd a chymryd camau priodol. Yn ystod 2021, llwyddodd y systemau newydd hyn i nodi nifer o faterion diogelwch bwyd pwysig sydd bellach yn destun ymchwiliadau i ddigwyddiadau[30].

## Y prosiect PATH-SAFE

Yn 2021, dyfarnwyd cyllid i'r ASB, Safonau Bwyd yr Alban, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC), Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (Iechyd Cyhoeddus Lloegr ar y pryd) ac Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer rhaglen gwyliadwriaeth pathogenau fawr. Dechreuodd y rhaglen ddiwedd 2021 a bydd yn weithredol tan fis Mawrth 2024. Cynlluniwyd PATH-SAFE i helpu i ddiogelu bwyd, amaethyddiaeth a defnyddwyr yn y DU trwy ddefnyddio technoleg flaengar i ddeall sut mae pathogenau ac ymwrthedd gwrthficrobaidd yn lledaenu. Bydd olrhain ffynhonnell y materion hyn yn ein helpu i ddatblygu strategaethau rheoli gwell i leihau salwch a marwolaethau.

## Mynd i'r afael â throseddau bwyd

Diffinnir troseddau bwyd fel twyll difrifol a throseddu cysylltiedig o fewn cadwyni cyflenwi bwyd, er eu bod hefyd yn cwmpasu diodydd a bwyd anifeiliaid[31]. Mae unedau troseddau bwyd y DU, yr **Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd (NFCU)**, ac **Uned Troseddau a Digwyddiadau Bwyd yr Alban (SFCIU)**, yn gyfrifol am ddwyn troseddwyr bwyd i gyfrif a helpu busnesau a defnyddwyr i ddiogelu eu hunain.

Gall faint o wybodaeth sy'n dod i law'r ddwy uned roi syniad o raddfa a natur troseddau bwyd yn y DU, er nad yw hyn o reidrwydd yn dangos a yw'r gyfradd droseddu gyffredinol yn cynyddu neu'n gostwng, yn rhannol am na fydd defnyddwyr a busnesau bwyd yn ymwybodol eu bod wedi dioddef twyll bwyd yn aml. Gellir dod i nifer o gasgliadau o'r dystiolaeth sydd ar gael.



### Sylw 1: mae ffocws yr adroddiadau cudd-wybodaeth am droseddau bwyd a ddaeth i law yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau strategol yr unedau troseddau bwyd.

Mae ffigurau 2021 yn dangos bod y rhan fwyaf o'r gudd-wybodaeth am droseddau bwyd a ddaeth i law yn ymwneud â blaenoriaethau priodol yr unedau, fel y nodir isod. O'r **1,747** o adroddiadau cudd-wybodaeth am droseddau bwyd a ddaeth i law yn ystod 2021 (sef gwybodaeth sy'n ymwneud â throsedd bwyd newydd neu drosedd a nodwyd eisoes), roedd mwy na dwy ran o dair (69%) yn ymwneud â'r blaenoriaethau strategol hyn.

| Blaenoriaethau rheoli strategol yr NFCU, 2021-22 |
|---|
| Cynhyrchion peryglus nad ydynt yn fwyd |
| Cig coch |
| Alcohol anghyfreithlon a ffug |
| Pysgod cregyn |
| Sgil-gynhyrchion anifeiliaid |
| Cyflenwi anghyfreithlon i fodloni galw yn y gymuned |
| Twyll dosbarthu Ewropeaidd |
| E-fasnach |
| Gwasanaeth bwyd |

| Blaenoriaethau rheoli strategol yr SFCIU, 2021-22 | Themâu allweddol yr SFCIU 2021-22 |
|---|---|
| Pysgod | Gorgyffwrdd â throseddau cyfundrefnol difrifol |
| Cig coch | Camgyfleu statws premiwm |
| Alcohol | E-fasnach |
| Pysgod cregyn gwyllt | Cadwyni cyflenwi risg uchel |
| | Twyll yng nghyswllt alergenau neu gynhyrchion sy'n deillio o blanhigion |
| | Ymadael â'r UE |
| | COVID-19 |

### Sylw 2: roedd 21 o ymchwiliadau byw yn mynd rhagddynt ar draws dwy uned troseddau bwyd y DU ddiwedd 2021.

Yn yr Alban, mae ymchwiliadau'r SFCIU wedi rhychwantu materion sy'n ymwneud ag alcohol ffug a chamgyfleu cig eidion a bwydydd eraill, yn ogystal ag ymdrin ag achos lles anifeiliaid difrifol. Mae pum achos wedi'u cyfeirio at Swyddfa'r Goron a'r Gwasanaeth Procuradur Cyllidol, gyda thri o'r rhain yn cael eu hystyried o dan y weithdrefn ddeisebu a gedwir ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol.

Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ymchwiliodd yr NFCU i amrywiaeth o faterion, gan gynnwys dargyfeirio cynnyrch gwastraff o gynhyrchu cig i'r gadwyn fwyd ar gyfer pobl yn anghyfreithlon, datganiad cynhwysion ffug a ddefnyddiwyd wrth weithgynhyrchu, a gwerthu'r cemegyn gwenwynig 2,4 deunitroffenol (DNP), a hyrwyddir yn beryglus weithiau fel 'llosgwr braster'.

Y llynedd hefyd gwelwyd yr erlyniad cyntaf o ganlyniad i ymchwiliad gan yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd. Roedd yr euogfarn yn ymwneud â gwerthu 2,4 deunitroffenol (DNP) ochr yn ochr â throseddau eraill a oedd yn gysylltiedig â chyffuriau a reolir a meddyginiaethau presgripsiwn-yn-unig. Cafodd diffynnydd ei garcharu am dros ddwy flynedd ar ôl pledio'n euog i'r troseddau.

### Sylw 3: cyflawnwyd 100 o 'darfiadau' gan unedau troseddau bwyd y DU yn ystod 2021.

Nid erlyniadau yw'r unig ffordd i fynd i'r afael â throseddau bwyd. Mae'r unedau hefyd yn canolbwyntio ar ystod o fesurau sy'n rhwystro neu'n atal ymddygiad troseddol yn y lle cyntaf, ac yn cefnogi defnyddwyr a busnesau trwy ddarparu canllawiau ymarferol ar yr hyn y gallant ei wneud i amddiffyn eu hunain, gan gynnwys trwy'r **Adnodd Gwytnwch rhag Twyll Bwyd** newydd.

Mae'r NFCU yn disgrifio unrhyw waith a gyflawnir ganddi sy'n cael effaith amlwg ar fygythiad troseddau bwyd fel 'tarfiad', ac yn adrodd amdano i'r Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol (NCA). Yn ystod 2021, cofnododd yr NFCU 60 o darfiadau o'r fath, gan gynnwys:

- atal dros dro am gyfnod amhenodol gymeradwyaeth person i drin sgil-gynhyrchion anifeiliaid (ABP) ar ôl canfod bod ABP yn cael eu dargyfeirio i'r gadwyn fwyd ar gyfer pobl
- tynnu i lawr 34 o wefannau neu restriadau ar farchnadoedd ar-lein a oedd gwerthu 2,4-Deunitroffenol (DNP) i'w fwyta gan bobl
- gweithio gyda phartneriaid i atafaelu a dinistrio swm mawr o bysgod a oedd yn anaddas i'w bwyta gan bobl mewn marchnad bysgod ym mis Hydref 2021

Cyfrannodd yr SFCIU at 40 o gamau gweithredu sydd wedi helpu i ganfod, atal, neu darfu ar weithgarwch troseddol. Mae'r rhain yn helpu i atal gweithgarwch troseddau bwyd lefel isel yn ogystal â chyfrannu at ymchwiliadau i droseddau mwy difrifol, ac maent yn cynnwys:

- ymchwiliad i werthu a dosbarthu melysion yr amheuir eu bod yn rhai ffug ledled y DU
- gweithio gydag awdurdodau lleol ar sawl achlysur i bennu geirwiredd cudd-wybodaeth a chymryd camau gorfodi lle bo'n briodol

## Edrych i'r dyfodol

Mae newidiadau ym mhatrymau troseddau bwyd yn tueddu i adleisio datblygiadau yn y ffordd y caiff y system cyflenwi bwyd ei threfnu, a'r hyn rydym ni fel defnyddwyr yn ei flaenoriaethu.

Yn ystod y pandemig, roedd rhai honiadau anghywir ar fwyd ac atchwanegiadau mewn perthynas â COVID-19, ond roeddent yn droseddau graddfa fach ac ymchwiliwyd iddynt i raddau helaeth gan awdurdodau lleol a phartneriaid eraill.

> **“Yn gyffredinol, nid oedd unrhyw gynnydd canfyddadwy mewn troseddau bwyd o ganlyniad i'r pandemig. Yn yr un modd, prin yw'r dystiolaeth o droseddwyr yn ecsbloetio ein hymadawiad â'r UE, er bod y ddwy uned troseddau bwyd yn parhau i fod yn wyliadwrus.”**

Gan edrych i'r dyfodol, mae'r ddwy uned troseddau bwyd bellach yn meithrin perthnasoedd cryfach â llwyfannau manwerthu bwyd ar-lein, cynhyrchwyr bwyd, a rhanddeiliaid eraill er mwyn achub y blaen ar unrhyw gynnydd posibl mewn twyll neu arferion anghyfreithlon eraill yn y blynyddoedd i ddod.

Trwy'r Gynghrair Fyd-eang ar Droseddau Bwyd, maent hefyd yn chwarae rhan amlwg mewn mentrau rhyngwladol i fynd i'r afael â throseddau bwyd, gan gynnwys cymryd rhan weithredol yn **Ymgyrch OPSON**, sy'n targedu bwyd a diod ffug ac israddol yn fyd-eang.

Yn olaf, yn yr Alban, mae'r SFCIU yn gweithio gyda nifer o asiantaethau i fynd i'r afael â gweithgareddau troseddol penodol sy'n effeithio ar dda byw, gydag ymchwiliadau yn mynd rhagddynt i achosion a amheuir o dwyll tagiau clustiau, defnydd anghyfreithlon o basbortau gwartheg a phryderon am les anifeiliaid.



# I grynhoi

- Mae ein systemau gwyliadwriaeth ac ymateb a'r ffordd rydym yn cydweithio'n rhyngwladol wedi newid o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod gweithgarwch troseddol mewn cadwyni cyflenwi bwyd wedi cynyddu. Bydd y ddwy uned troseddau bwyd yn parhau i fonitro bygythiadau sy'n dod i'r amlwg yn agos.
- Mae achosion o ddigwyddiadau bwyd yr adroddwyd amdanynt a gwybodaeth sydd wedi dod i law am droseddau bwyd yn parhau i fod yn gymharol sefydlog – bu gostyngiad mewn rhai mathau o ddigwyddiadau bwyd yr adroddwyd amdanynt yn ystod anterth y pandemig, ond mae lefelau bellach yn dechrau dychwelyd i lefelau a welwyd cyn COVID-19.



# 4 Hysbysu defnyddwyr

## Y datblygiadau diweddaraf o ran labelu bwyd a gwybodaeth am fwyd



## Cipolwg

**Yn y bennod hon, byddwn yn ystyried y canlynol:**

- **sut mae rheoliadau gwybodaeth am fwyd yn esblygu yn sgil ymadawiad y DU â'r UE**
- **effaith y datblygiadau hyn ar y cyhoedd a'r diwydiant bwyd**
- **pa ffactorau all ddylanwadu ar safonau gwybodaeth am fwyd yn y dyfodol**

# Cyflwyniad

**Bob dydd, mae defnyddwyr yn cael llwyth o wybodaeth am y bwyd y maent yn ei fwyta, boed ar labeli a'r deunydd pecynnu, gwefannau, neu ddeunyddiau marchnata a hysbysebu eraill.**

Mae llawer o'r wybodaeth hon wedi'i chreu i'n helpu i wneud penderfyniadau gwrthrychol a gwybodus am ein dewisiadau bwyd – ac i rai pobl, gall hyn gael goblygiadau iechyd sylweddol, yn enwedig pobl sydd ag alergeddau bwyd neu gyflyrau hirdymor sy'n effeithio ar eu hanghenion deietegol.

Fodd bynnag, weithiau gall eglurder a chywirdeb yr wybodaeth hon fynd yn erbyn sut mae'r cynnyrch yn cael ei farchnata neu ei labelu. Pan fydd hyn yn digwydd, mae safonau gwybodaeth am fwyd yno i sicrhau bod cwmnïau bwyd yn onest ac yn dryloyw o ran yr hyn y maent yn ei ddweud, a bod defnyddwyr yn cael yr wybodaeth glir a chywir sydd ei hangen arnynt.

Mae'r bennod hon hefyd yn ystyried goblygiadau yn y maes hwn ers i'r DU ymadael â'r UE. Mae llawer o'r rheolau sy'n llywodraethu labelu bwyd a gwybodaeth am fwyd yn y wlad hon yn seiliedig ar gyfraith bwyd Ewropeaidd. Gan fod llawer o'r DU bellach y tu allan i'r awdurdodaeth hon, rydym yn ystyried pa gamau sydd wedi'u cymryd i gynnal sefydlogrwydd a pharhad i fusnesau, a sut olwg sydd ar y dyfodol.

Rydym hefyd yn ystyried sut mae'r safonau ar gyfer labelu bwyd a gwybodaeth am fwyd wedi datblygu dros y blynyddoedd diwethaf, gan olrhain effaith newidiadau allweddol fel gwybodaeth well am alergenau, labelu maeth ar flaen deunydd pecynnu a nodi calorïau ar fwydlenni mewn bwytai a sefydliadau bwyd eraill y tu allan i'r cartref.

Yn olaf, rydym yn dangos canlyniadau arolwg basged o fwyd a oedd yn samplu diogelwch a chyfansoddiad detholiad o eitemau sy'n cael eu gwerthu yng Nghymru a Lloegr, yn ogystal â chanlyniadau rhaglen samplu bwyd blynyddol Safonau Bwyd yr Alban.



# Pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys ar label bwyd?

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i labeli bwyd gyfleu nifer o ddarnau pwysig o wybodaeth.

Mae'r tabl isod yn nodi'r gofynion mwyaf cyffredin ar gyfer y rhan fwyaf o fwydydd wedi'u pecynnu. Ceir rhai eithriadau pwysig a chaiff y rhain eu hesbonio'n fanylach yn y **canllawiau swyddogol** ar gyfer busnesau.

1. **Enw a disgrifiad:** Rhaid i bob bwyd wedi'i becynnu ddisgrifio'n gywir beth yw'r bwyd. Rhaid i rai enwau bwyd fodloni safonau cyfansoddiadol penodol sy'n diogelu defnyddwyr trwy atal cynhwysion rhag cael eu disodli gan ddewisiadau eraill o ansawdd gwaeth. Er enghraifft, rhaid i fyrgyr cig eidion gynnwys o leiaf 62% o gig eidion er mwyn cael ei ddisgrifio felly[32].

2. **Rhestr gynhwysion:** Yn aml iawn, mae'r rhestr gynhwysion ar y label yn cynnwys yr holl wybodaeth fanwl am yr hyn sydd yn y bwyd. Yn amodol ar eithriadau, rhaid i unrhyw fwyd sy'n cynnwys dau gynhwysyn neu fwy eu rhestru i gyd yn ôl eu pwysau, o'r trymaf i'r ysgafnaf. Rhaid i'r rhestr bwysleisio unrhyw un o'r 14 prif alergen sydd yn y cynnyrch yn glir. Os nad oes safonau cyfansoddiadol penodol, rhaid nodi nifer (er enghraifft, canran) rhai cynhwysion. Rhaid i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys yn enw'r bwyd neu'r rhestr gynhwysion fel bod defnyddwyr yn gwybod faint maent yn ei fwyta. Mae'n berthnasol mewn rhai amgylchiadau gan gynnwys pan fo cynhwysyn yn cael ei bwysleisio trwy eiriau neu luniau ar y label, neu mae'n berthnasol i gynhwysion y mae'r defnyddiwr yn eu cysylltu â'r bwyd fel y caws ar pizza margherita.

**Italian penne pasta in tomato and basil sauce, topped with mozzarella and mature cheddar**

**Ingredients:**

Tomato sauce (55%) [Tomatoes 51%, Water, Onion, Olive oil, Tomato purée (2.5%), Cornflour, Garlic purée, Demerara sugar, Basil, **Celery** salt, Marjoram, Pepper], Cooked Italian Pasta (30%) [Durum **wheat** Semolina, Water], Cheese mix (10%) [Mozzarella cheese (from **milk**) (7%) Mature cheddar cheese (from **milk**) (3%)]

**Mae'r label hwn yn dangos enw'r bwyd ynghyd â rhestr gynhwysion sy'n pwysleisio'r alergenau.**


3. **Gwybodaeth am faeth:** Rhaid i fwyd wedi'i becynnu nodi faint o egni, cyfanswm braster, braster dirlawn, carbohydradau, siwgr, protein a halen sydd mewn dogn (*portion*) arferol. Mae cynllun labelu maeth ar flaen pecynnau gwirfoddol a ddefnyddir gan lawer o weithgynhyrchwyr bwyd hefyd yn helpu defnyddwyr i gymharu cynnwys calorïau, braster, siwgr a halen yn fras mewn cynhyrchion bwyd.

**Dyma enghraifft o label maeth, y cyfeirir ato'n aml fel gwybodaeth orfodol am faeth ar gefn y pecyn.**

| | Typical value per 100g (%RI) | Typical value per 35g serving (%RI) |
|---|---|---|
| Energy | 1075kJ/254kcal (18) | 367kJ/89kcal (6) |
| Fat | 2.3g (3) | 0.8g (0.3) |
| of which: saturates | 1.2g (6) | 0.4g (2) |
| Carbohydrate | 57g (22) | 20g (8) |
| of which: sugars | 1.4g (1) | 0.5g (<1) |
| Protein | 1.2g (2) | 0.4g (1) |
| Salt | 0.6g (10) | 0.2g (3) |

Reference Intake of an average adult (8400kJ/2000kcal)


**Dyma enghraifft o label maeth gwirfoddol ar flaen pecyn. Mae hyn yn seiliedig ar ailadrodd rhai elfennau o'r datganiad maeth gorfodol ar gefn pecynnau er mwyn rhoi syniad bras i ddefnyddwyr o'r egni a'r cynnwys maethol.**




4. **Dyddiad 'ar ei orau cyn' neu 'defnyddio erbyn':** Dylai bwyd wedi'i becynnu gynnwys naill ai'r dyddiad 'ar ei orau cyn' neu'r dyddiad 'defnyddio erbyn'. Rhoddir dyddiadau 'defnyddio erbyn' ar fwyd sy'n mynd yn ddrwg yn gyflym, fel cynhyrchion cig neu saladau parod i'w bwyta. Mae'r dyddiad yn dweud wrth y defnyddiwr pan na fydd y bwyd yn ddiogel i'w fwyta mwyach. Mae'r dyddiad 'ar ei orau cyn', sy'n cael ei ddangos weithiau fel BBE (*best before end*), yn ymwneud ag ansawdd ac nid diogelwch. Bydd bwyd yn ddiogel i'w fwyta ar ôl y dyddiad hwn, ond efallai na fydd ar ei orau. Mae'r ddau ddyddiad ond yn gywir os dilynir yr **wybodaeth storio** ar y label yn iawn.



5. **Rhybuddion:** Rhaid i fwyd sy'n cynnwys rhai ychwanegion neu gynhwysion eraill gynnwys rhybuddion perthnasol hefyd – er enghraifft, rhaid i unrhyw ddiod, nad yw'n de neu goffi, sy'n cynnwys mwy na swm penodol o gaffein nodi, *'Not suitable for children, pregnant women and persons sensitive to caffeine'.*




6. **Man Tarddiad:** Dylai rhai bwydydd hefyd gynnwys gwybodaeth yn nodi o ble y daw'r bwyd (ei darddiad). Ar gyfer rhai bwydydd fel porc, dofednod a physgod ffres ac wedi'u rhewi wedi'u pecynnu ymlaen llaw, mae angen gwybodaeth am darddiad bob amser. Yn achos bwyd wedi'i brosesu, mae angen gwybodaeth am darddiad os yw'r labelu'n awgrymu y gallai ddod o wlad neu safle penodol pan nad yw hyn yn wir. Os rhoddir gwybodaeth am darddiad, mae angen i'r label ddangos o ble y daw'r prif gynhwysion neu os nad ydynt yn dod o'r un man tarddiad.




**Enghraifft o label a allai roi'r argraff bod bwyd yn dod o Wlad Groeg.**




**Enghraifft o label sy'n dangos bwyd wedi'i wneud gyda chynhwysyn o wlad arall.**

## Cyfrifoldebau adrannau a gorfodi

Mae gwahanol adrannau ledled y DU yn gyfrifol am bolisi labelu bwyd a safonau cyfansoddiad bwyd.

Yn Lloegr, Defra sy'n gyfrifol am labelu bwyd a safonau cyfansoddiad bwyd yn gyffredinol, gyda'r ASB yn gyfrifol am labelu diogelwch bwyd a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) yn arwain ar labelu maeth.

Yn yr Alban, Safonau Bwyd yr Alban sy'n gyfrifol am labelu bwyd cyffredinol, gan gynnwys labelu diogelwch bwyd, safonau cyfansoddiadol, a labelu maeth.

Yng Nghymru, mae'r ASB yn gyfrifol am labelu cyffredinol a diogelwch bwyd, ac mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am labelu maeth.

Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r ASB yn gyfrifol am yr holl feysydd hyn.

Awdurdodau lleol sy'n gorfodi'r gofynion hyn, a gall adrannau iechyd yr amgylchedd neu safonau masnach fod yn gyfrifol am wneud hyn, yn dibynnu ar eu lleoliad yn y DU.

# Effaith ymadawiad y DU â'r UE

### Ymadael â'r UE

Er bod y rhan fwyaf o'r cyfreithiau labelu a gwybodaeth am fwyd sy'n dod o'r UE wedi'u cadw, ceir rhai newidiadau sy'n effeithio ar fasnach rhwng Prydain Fawr a'r UE, a busnesau Prydeinig sy'n anfon bwyd i Ogledd Iwerddon. Mae'r ASB, Safonau Bwyd yr Alban ac adrannau'r llywodraeth, gan gynnwys Defra ac Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) Gogledd Iwerddon wedi helpu'r diwydiant gyda'r newidiadau hyn.

Mae ymadawiad y DU â'r UE yn drobwynt sylweddol ar gyfer cyfreithiau gwybodaeth am fwyd y mae rheoliadau Ewropeaidd wedi dylanwadu arnynt yn drwm yn hanesyddol. O hyn ymlaen, bydd penderfyniadau ynghylch rheoleiddio a rheoli safonau labelu a gwybodaeth am fwyd yn cael eu gwneud ym Mhrydain Fawr.

O safbwynt defnyddwyr, ychydig iawn o effaith amlwg a fu hyd yn hyn – mae'r ffocws uniongyrchol wedi bod ar barhau â chyfreithiau presennol yr UE er mwyn lleihau unrhyw darfu ar gadwyni cyflenwi. Fodd bynnag, mae rhai sylfeini pwysig wedi'u rhoi ar waith mewn perthynas â safonau gwybodaeth am fwyd ar ôl ymadael â'r UE:

**Diweddaru'r gyfraith:** mae cyfreithiau presennol yr UE sy'n llywodraethu labeli bwyd bellach wedi'u trosi'n gyfreithiau Prydeinig, gyda newidiadau cyfatebol i'r rheoliadau domestig yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i ganiatáu i awdurdodau gorfodi barhau i orfodi'r cyfreithiau hyn.

**Cael gwared ar gydnabyddiaeth gilyddol *(mutual recognition)* ar gyfer safonau cyfansoddiad bwyd:** mae trefniadau 'cydnabyddiaeth gilyddol' ar gyfer cynhyrchion sy'n cynnwys cig, brasterau taenadwy a blawd gwenith a gynhyrchir yn yr UE, Gwlad yr Iâ, Norwy a Thwrci wedi'u dileu ym Mhrydain Fawr. Roedd cynhyrchion fel ceuled lemwn, briwgig, selsig, a marjarîn heb ei gyfnerthu yn flaenorol â chaniatâd i'w gwerthu yn y DU, hyd yn oed os nad oeddent yn bodloni safonau cyfansoddiadol y DU, ar yr amod eu bod wedi'u gwerthu'n gyfreithiol yn y wlad tarddiad. O 1 Hydref 2022 ymlaen, ni fydd hyn yn wir mwyach. Er enghraifft, bydd rhaid i flawd sydd wedi'i fewnforio bellach gael ei atgyfnerthu â chalsiwm, haearn, thiamin a niasin i'r lefel sy'n ofynnol ar gyfer blawd wedi'i felino ym Mhrydain.

**Newidiadau i gyfeiriadau a labeli Gwlad Tarddiad:** bydd ymadawiad y DU â'r UE hefyd yn golygu newidiadau i gyfeiriadau a labelu gwlad tarddiad ar gyfer busnesau sy'n masnachu ym Mhrydain Fawr. Mae busnesau wedi cael tan ddiwedd mis Medi 2022 i wneud y newidiadau angenrheidiol. O 1 Hydref 2022 ymlaen, bydd angen i'r busnesau hynny nad ydynt wedi'u sefydlu ym Mhrydain Fawr naill ai ddefnyddio mewnforwyr neu sefydlu endidau cyfreithiol yn y wlad hon.

**Pwerau newydd i asesu ac awdurdodi honiadau maeth ac iechyd:** mae Prydain Fawr bellach yn gyfrifol am asesu ac awdurdodi'r honiadau maeth ac iechyd ar gynhyrchion. Mae Pwyllgor Hawliadau Maeth ac Iechyd newydd y DU (UKNHCC) wedi'i sefydlu er mwyn darparu cyngor a chraffu arbenigol i gefnogi'r penderfyniadau hyn.

## Datblygiadau allweddol eraill mewn perthynas â safonau gwybodaeth am fwyd

Dylai gwybodaeth ar labeli bwyd ein helpu i wneud dewisiadau diogel a gwybodus am yr hyn rydym yn ei fwyta, ac mae'n arbennig o bwysig wrth helpu pobl ag alergeddau bwyd a gorsensitifrwydd i fwyd i gadw'n ddiogel.

Er ei bod yn annhebygol bod y mesurau uchod wedi cael unrhyw effaith dymor byr ar safonau gwybodaeth am fwyd, bydd rhai o'r newidiadau mawr canlynol i bolisi yn effeithio'n sylweddol ar y ffordd y mae defnyddwyr yn cael gwybodaeth am yr hyn y maent yn ei fwyta, ac mae sawl newid arall yn yr arfaeth.

## Newidiadau i gyfreithiau labelu ar gyfer bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol

Cyflwynwyd rheoliadau newydd i ddiwygio Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd 2014 (a'r hyn sy'n cyfateb iddynt yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban)[33], a elwir hefyd yn 'Gyfraith Natasha' ledled y DU o 1 Hydref 2021 ymlaen. Rhaid i bob bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (PPDS) bellach gynnwys enw'r bwyd a rhestr gynhwysion ar y label, gan dynnu sylw at unrhyw alergenau o'r 14 prif alergen yn y rhestr honno. Mae'r gofynion yn cwmpasu'r holl fwydydd sy'n cael eu pecynnu ar y safle lle cânt eu gwerthu.

Sbardunwyd y newid hwn gan ymgyrch a arweiniwyd gan deulu Natasha Ednan-Laperouse, a brofodd adwaith alergaidd angheuol i baguette a oedd yn cynnwys sesame a brynwyd mewn siop.

**CHEESE AND PICKLE SANDWICH**

**Mature Cheddar cheese, pickle and butter in sliced wholemeal bread**

**INGREDIENTS**: Wholemeal bread (wholemeal **wheat** flour, water, **wheat** bran, **wheat** protein, yeast, salt, emulsifiers (mono- and diglycerides of fatty acids, mono- and diacetyl tartaric acid esters of mono- and diglycerides of fatty acids), spirit vinegar, rapeseed oil, flour treatment agent (ascorbic acid), palm fat, palm oil, **wheat** starch) mature Cheddar cheese (**milk**), pickle (carrots, sugar, swede, onion, **barley** malt vinegar, water, spirit vinegar, apple pulp, dates, salt, modified maize starch, rice flour, colour (**sulphite** ammonia caramel), onion powder, concentrated lemon juice, spice and herb extracts), butter (**milk**).

**Enghraifft o label a ddefnyddir ar gyfer bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol.**

## Gwybodaeth orfodol am galorïau wrth fwyta allan yn Lloegr

Ym mis Ebrill 2022, daeth rheoliadau newydd i rym yn Lloegr yn ei gwneud yn ofynnol i gadwyni bwytai a busnesau mawr eraill â mwy na 250 o weithwyr ddarparu gwybodaeth am galorïau ar fwyd. Mae'r mesur yn rhan o **Strategaeth Gordewdra Llywodraeth y DU**, a'r bwriad yw helpu defnyddwyr i wneud penderfyniadau iachach yn ogystal ag annog busnesau i ailfformiwleiddio a chynnig dewisiadau â llai o galorïau. Mae awdurdodau lleol yn Lloegr yn gyfrifol am orfodi Rheoliadau Labelu Calorïau (Sector y Tu Allan i'r Cartref) (Lloegr) 2021. Cyflwynwyd y rheoliadau hyn ar 1 Ebrill 2022 a bydd eu heffeithiolrwydd yn cael ei adolygu erbyn mis Ebrill 2026.

O dan **gynllun cyflawni 2021 i 2022 Pwysau Iach: Cymru Iach**, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar labelu calorïau gorfodol ar gyfer bwyd sy'n cael ei brynu a'i fwyta y tu allan i'r cartref yn 2022. Ymrwymodd cynllun gweithredu Llywodraeth yr Alban, ***Out of Home***, i ymgynghori ar gynigion manwl ar gyfer labelu calorïau gorfodol ar fwyd a diodydd meddal a werthir y tu allan i'r cartref. Cyhoeddwyd yr **ymgynghoriad** hwn ar 8 Ebrill 2022.

### Lleihau gwastraff bwyd

Yn 2019, gweithiodd yr ASB, Safonau Bwyd yr Alban ac adrannau'r llywodraeth gyda sefydliadau lleihau gwastraff i gynhyrchu canllawiau swyddogol i helpu busnesau i ddefnyddio'r dyddiadau priodol ar eu cynhyrchion.

Mae'r canllawiau'n annog busnesau i ystyried eu dulliau cynhyrchu bwyd, a nodi a fyddai'n briodol defnyddio dyddiadau 'ar ei orau cyn', yn enwedig os na fydd y bwyd yn anniogel i'w fwyta gan bobl. Yn wahanol i gynhyrchion sydd â dyddiad 'defnyddio erbyn', sy'n ymwneud â diogelwch bwyd, nid oes angen taflu bwyd sydd wedi mynd heibio ei ddyddiad 'ar ei orau cyn' o reidrwydd. Yn gyffredinol, po fwyaf y gall busnesau ddefnyddio dyddiadau 'ar ei orau cyn' ar eu cynhyrchion, y mwyaf o amser y bydd gan ddefnyddwyr i'w defnyddio, a fydd yn ei dro yn helpu i leihau gwastraff bwyd.

### Gwella gwybodaeth ragofalus (*precautionary*) am alergenau

Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i wella'r ffordd y mae busnesau bwyd yn cyfleu'r risg o groeshalogi alergenau mewn cynhyrchion bwyd, lle gellir canfod y mymryn lleiaf (*traces*) o alergenau mewn rhai cynhyrchion o ganlyniad i'r ffordd y caiff y bwyd neu'r cynhyrchion eu gweithgynhyrchu neu eu paratoi. O fis Rhagfyr 2021 i fis Mawrth 2022, ymgynghorodd yr ASB ar ddatblygu safonau gwell o ran gwybodaeth ragofalus am alergenau i dynnu sylw at y risgiau hyn.

## Hyder y cyhoedd mewn gwybodaeth am fwyd

Felly, beth yw effaith hyn oll ar safbwynt y cyhoedd mewn perthynas â safonau gwybodaeth am fwyd?

Canfu ffigurau diweddaraf **arolwg Bwyd a Chi 2** yr ASB fod dros wyth o bob deg o bobl (83%) yn hyderus bod yr wybodaeth ar labeli bwyd yn gywir. Ymhlith y rheiny sy'n siopa i rywun ag alergedd neu anoddefiad bwyd, roedd yr un gyfran (83%) yn teimlo'n hyderus yn yr wybodaeth am alergenau a ddarperir ar labeli bwyd.

Roedd pobl yn fwyaf hyderus o allu nodi alergenau mewn bwyd wrth siopa yn yr archfarchnad (71% yn y siop a 69% ar-lein), ac mewn siopau bwyd annibynnol (67%). Roedd yr ymatebwyr yn llai hyderus wrth brynu bwyd o farchnadoedd neu stondinau bwyd (57%).

Yn yr Alban, mae ffigurau o arolwg Safonau Bwyd yr Alban, ***Food in Scotland***, yn dangos darlun tebyg, gyda 70% o bobl yn dweud eu bod yn ymddiried yn yr wybodaeth ar labeli bwyd. Ymhlith y rheiny ag alergeddau bwyd, roedd bron i dri chwarter (72%) yn ei chael hi'n hawdd iawn neu'n eithaf hawdd dod o hyd i wybodaeth am alergenau wrth brynu bwyd mewn archfarchnadoedd.

Mae hefyd rai meysydd ehangach sy'n peri pryder i'r cyhoedd. Mae ymchwil yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban ar **fuddiannau, anghenion a phryderon cyhoedd y DU mewn perthynas â bwyd** yn dangos bod tua chwech o bob deg ohonom yn credu bod bwydydd sy'n cael eu labelu fel 'opsiynau iachach' yn afiach mewn ffyrdd eraill.

## Cydymffurfio â safonau gwybodaeth am fwyd

Mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn cynnal gweithgarwch samplu rheolaidd i weld a yw'r cynhyrchion sydd ar gael mewn siopau ledled y wlad yn bodloni ystod o ofynion diogelwch, dilysrwydd a gwybodaeth am fwyd. Mae'r gweithgarwch samplu diweddaraf yn dangos i ba raddau y gwnaeth busnesau bwyd gynnal safonau yn ystod y pandemig.


## Arolwg basged o fwyd

Yn 2020, ar ddechrau'r pandemig COVID-19, lansiodd yr ASB arolwg i wirio diogelwch a chyfansoddiad bwyd ar y farchnad yng Nghymru a Lloegr. Cynhaliwyd profion tebyg wedi hynny yn 2021 mewn arolwg 'basged o fwyd'. Ei nod oedd cael cipolwg o gydymffurfiaeth â diogelwch a safonau bwyd, gan gynnwys presenoldeb alergenau a halogion, yn ogystal â gwybodaeth i ddefnyddwyr mewn perthynas â dilysrwydd a labelu.

Pennwyd y nwyddau a'r profion gan grŵp samplu traws-lywodraeth a oedd yn cynnwys yr ASB, Safonau Bwyd yr Alban a Defra. Dewiswyd cynhyrchion oherwydd problemau dilysrwydd blaenorol (fel reis basmati, perlysiau a sbeisys), ynghyd â bwydydd sy'n cael eu bwyta yn gyffredin (fel bara a llaeth). Nid sampl ar hap o'r holl gynhyrchion a oedd ar gael ydoedd. At hynny, cymerwyd y mwyafrif o samplau gan fusnesau bwyd llai ledled y wlad (gan gynnwys siopau manwerthu ac ar-lein), sy'n cynnal gwaith samplu'n llai rheolaidd na busnesau bwyd mawr. Mae ffigur 30 yn dangos ble cafodd samplau eu casglu. Cynhaliwyd y gwaith samplu a phrofi gan Labordai Swyddogol y Dadansoddwyr Cyhoeddus, sy'n gyfrifol am gynnal profion gorfodi ar fwyd a bwyd anifeiliaid.

Mae ffigur 31 yn dangos y mathau o brofion a gynhaliwyd ar gyfer pob grŵp cynnyrch neu nwydd, nifer y samplau a brofwyd, a chanran y canlyniadau anfoddhaol. At ei gilydd, dangosodd canlyniadau'r arolwg fod 89% o'r cynhyrchion a brofwyd yn cydymffurfio â'r safon benodol a brofwyd gennym (ffigur 32). Roedd y mwyafrif o'r achosion o ddiffyg cydymffurfio a ganfuwyd yn ymwneud â labelu a chyfansoddiad.

**Ffigur 30: Lleoliad samplau'r arolwg basged o fwyd a'r canlyniadau**






## Dangosodd gwaith samplu'r ASB lefelau uchel o gydymffurfiaeth yn y rhan fwyaf o gategorïau – gyda rhai eithriadau nodedig


**Ffigur 31: Arolwg basged o fwyd yr ASB: canlyniadau yn ôl categori bwyd**

Dangosir nifer y samplau a gymerwyd ym mhob categori bwyd, gyda nifer y samplau nad oeddent yn cydymffurfio wedi'u nodi mewn cromfachau.

| Nwydd | Labelu | Dilysrwydd | Alergen | Cyfansoddiad | Halogi | Difwyno |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Reis basmati | – | 18 (3) | – | – | – | – |
| Bara | 26 (2) | – | 26 (6) | – | – | – |
| Caws | 29 (0) | 29 (0) | – | – | – | – |
| Heb gynnyrch llaeth *(dairy free from)* | 29 (1) | – | 29 (1) | – | – | – |
| Heb glwten | 30 (4) | – | 30 (0) | – | – | – |
| Llaeth | 31 (0) | – | – | 31 (6) | – | – |
| Olew olewydd | 29 (1) | 29 (0) | – | 29 (1) | – | – |
| Sudd oren | 30 (2) | – | – | 30 (0) | – | – |
| Oregano | – | 30 (1) | – | 30 (4) | 30 (0) | 30 (0) |
| Pasta | – | – | – | – | – | 30 (0) |
| Heb bysgnau *(peanut free from)* | 30 (4) | – | 30 (0) | – | – | – |
| Tyrmerig | – | 30 (0) | – | – | 30 (2) | 30 (0) |
| Cynhyrchion figan | 24 (3) | – | 24 (0) | – | – | – |
| Cyfanswm % yr achosion o ddiffyg cydymffurfio (yn ôl mater) | **7** | 3 | **5** | **9** | **3** | **0** |

**Ffigur 32: % gyffredinol y samplau y barnwyd eu bod yn foddhaol, gyda math a chyfran yr achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ôl categori bwyd**

Efallai na fydd canrannau'n cyfateb i 100% oherwydd talgrynnu.




Roedd pryderon nodedig yn cynnwys presenoldeb alergenau na chawsant eu datgan ar y label mewn 7 sampl, gyda phob pryder ond un yn ymwneud â bara. Mae hyn yn cyfateb i 5% o'r samplau a brofwyd ar gyfer alergenau heb eu datgan, a chafodd y rhain eu nodi fel digwyddiadau gan yr ASB. Nodwyd achosion o ddiffyg cydymffurfio mewn perthynas â dilysrwydd mewn un sampl o oregano (wedi'i ddifwyno (*adulterated*) â dail olewydd) a thri sampl o reis basmati (wedi'u difwyno â reis nad oedd yn reis basmati). Roedd y samplau hyn yn cyfateb i 3% o gyfanswm y samplau a brofwyd o ran dilysrwydd.

Cafwyd achosion hefyd lle nad oedd y cyfansoddiad yn gyson â'r gofynion cyfreithiol. Nid oedd cynnwys braster 19% o'r samplau llaeth a brofwyd yn gyson â'r hyn oedd ar y label, gyda rhai yn cynnwys mwy a rhai yn cynnwys llai na'r hyn a ddatganwyd, a'r cyfan y tu allan i'r lefelau a ganiateir (gyda gwyriad yn amrywio o 2% i 17% oddi wrth y lefelau a ganiateir).

Ar gyfer llawer o gynhyrchion eraill (fel cynhyrchion figan a chynhyrchion 'rhydd rhag'), roedd canlyniadau anfoddhaol yn ymwneud ag agweddau technegol ar labelu, ac nid oeddent yn cynrychioli risg penodol i iechyd y cyhoedd – er enghraifft, materion yn ymwneud â pha mor hawdd i'w ddarllen oedd y math o ffont a ddefnyddiwyd i ddarparu gwybodaeth am alergenau a datganiadau croeshalogi rhagofalus i ddefnyddwyr.

At ei gilydd, mae'r arolwg hwn yn rhoi hyder rhesymol yn niogelwch y mwyafrif o gynhyrchion, yn enwedig o ystyried bod gwaith samplu wedi'i dargedu at feysydd risg uchel. Nodwyd nifer bach o faterion diogelwch (llai na 3% o gyfanswm y samplau a brofwyd), gan atgyfnerthu'r angen am raglen samplu a gorfodi reolaidd, yn enwedig ar gyfer alergenau. Fodd bynnag, nid oedd nifer sylweddol o'r cynhyrchion a brofwyd yn bodloni'r safonau gofynnol mewn o leiaf un maes, yn enwedig o ran labelu a darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr, gan bwysleisio'r angen am ganllawiau pellach i'r diwydiant a monitro parhaus.

Er nad oedd hwn yn arolwg cynrychioliadol, mae'n tynnu sylw at yr angen am wyliadwriaeth barhaus ac mae'r ASB yn cynllunio gwaith samplu pellach yn 2022-23. Ymdrinnir â gwaith samplu cig a chynhyrchion cig yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

## Rhaglen samplu bwyd wedi'i thargedu flynyddol Safonau Bwyd yr Alban


Mae Safonau Bwyd yr Alban hefyd yn cynnal rhaglen samplu bwyd wedi'i thargedu bob blwyddyn. Caiff blaenoriaethau samplu a ddewisir bob blwyddyn eu llywio gan wybodaeth a thueddiadau o Gronfa Ddata Samplu Bwyd yr Alban (SFSD), gweithgareddau sganio'r gorwel, materion a nodir gan awdurdodau lleol a thrwy gysylltu ag eraill (gan gynnwys yr ASB).

Mae'r rhaglen yn ymdrin â materion diogelwch bwyd a safonau bwyd. Mae safonau bwyd yn cynnwys dilysrwydd a phrofi alergenau, yn ogystal â dadansoddi labeli. Mae data a gyflwynir yn y bennod hon yn canolbwyntio ar faterion safonau bwyd yn unig, ac nid yw'n cynnwys unrhyw ddata am ddiogelwch bwyd a ddaeth i law yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Mae canlyniadau gwaith samplu wedi'i dargedu a gynhaliwyd yn 2021 yn dangos lefelau uchel o gydymffurfiaeth ar y cyfan, gyda 90.2% o'r samplau yn rhoi canlyniadau boddhaol (ffigur 33). Nifer isel o ganlyniadau anfoddhaol a gafwyd ar gyfer y mwyafrif o nwyddau a brofwyd, sy'n rhoi lefel resymol o hyder bod y cynhyrchion a samplwyd yn bodloni'r safonau bwyd gofynnol.

Fodd bynnag, roedd y gyfradd fethu uchaf yn ymwneud â briwgig eidion wedi'i becynnu ymlaen llaw (25%), lle'r oedd lefel y braster yn y cynnyrch terfynol yn uwch na'r hyn a nodwyd ar y label, ac mae hyn yn peri pryder. Er nad yw hyn yn broblem diogelwch bwyd, mae angen i ddefnyddwyr allu ymddiried yng nghywirdeb gwybodaeth labelu, sy'n tanlinellu'r angen am fuddsoddiad priodol mewn gwaith samplu a monitro parhaus a, lle bo angen, gamau gorfodi. Bydd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodir yn llywio blaenoriaethau samplu Safonau Bwyd yr Alban yn y dyfodol.

**Ffigur 33: % gyffredinol o samplau a gafodd eu hasesu i fod yn foddhaol neu'n anfoddhaol fel rhan o waith samplu Safonau Bwyd yr Alban (2021)**






# Edrych i'r dyfodol


Er mwyn parhau i fod yn berthnasol ac yn effeithiol, rhaid i safonau gwybodaeth am fwyd fodloni anghenion y defnyddiwr a'r datblygiadau allweddol yn ein system fwyd.

Mae **technoleg** yn offeryn arbennig o bwysig. Wrth i fwy o bobl brynu bwyd ar-lein, mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn archwilio sut y gallant weithio gyda busnesau i sicrhau bod cysondeb ac ansawdd yr wybodaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr yn cael ei chynnal, boed hynny wrth brynu bwyd yn y siop neu ar wefan.

Yn yr un modd, mae'r nifer cynyddol o fusnesau bwyd sy'n masnachu ar y cyfryngau cymdeithasol neu drwy farchnadoedd ar-lein eraill yn ei gwneud hi'n anoddach monitro cydymffurfiaeth â chyfreithiau gwybodaeth am fwyd mewn ffordd gyson.

Mae pwysau eraill ar safonau gwybodaeth am fwyd yn faterion allanol. Mae **tarfu mawr ar gadwyni cyflenwi** – fel y gwelwyd yn ddiweddar o ganlyniad i'r rhyfel yn Wcráin – yn debygol o gynyddu'r risg o labelu camarweiniol, yn enwedig os caiff cynhwysion neu gynhyrchion eu newid ar fyr rybudd. Mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn gweithio'n agos gyda'r diwydiant bwyd a swyddogion gorfodi yn yr achosion hyn i sicrhau bod defnyddwyr yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Ac yn olaf, rhaid i unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol ar safonau gwybodaeth am fwyd ym Mhrydain Fawr barhau i roi sylw manwl i newidiadau i gyfraith yr UE yng ngoleuni **Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon**.



## Sganio'r gorwel: datblygiadau rhyngwladol allweddol

Mae'r UE yn ystyried sawl newid pwysig i'w rheolau ar labelu bwyd a gwybodaeth am fwyd a fydd, os cânt eu gweithredu, yn effeithio ar Ogledd Iwerddon ac ar fusnesau ym Mhrydain Fawr sy'n allforio i'r UE. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cynnig ar gyfer **dynodi tarddiad** cynhyrchion penodol, a fyddai'n ymestyn y gofynion o ran gwybodaeth tarddiad sydd eisoes yn berthnasol i fwyd fel cig eidion, dofednod, pysgod, wyau, ac olew olewydd.
- **proffiliau maethynnau newydd** i roi sgôr gyffredinol ar gyfer bwyd yn hytrach na manylu ar yr egni a'r maeth unigol. Gallai'r rhain gael eu defnyddio i gyfyngu ar y defnydd o honiadau iechyd ar gyfer cynhyrchion sy'n cynnwys llawer o egni, halen, siwgrau rhydd a braster dirlawn, ac o bosibl i gefnogi gwybodaeth am faeth sy'n cael ei nodi ar flaen y deunydd pecynnu trwy roi cipolwg i ddefnyddwyr ar ba mor iachus yw'r bwyd.
- datblygu **fframwaith labelu bwyd cynaliadwy** sy'n ymdrin ag agweddau maethol, hinsawdd, amgylcheddol a chymdeithasol ar gynhyrchion bwyd – disgwylir hyn erbyn 2024 a'r nod yw gwella gwybodaeth i ddefnyddwyr am sut a ble y caiff bwyd ei gynhyrchu.

Bydd angen i'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban adolygu'r newidiadau hyn yng nghyd-destun y DU, a byddwn yn gweithio gyda **Chomisiwn Codex Alimentarius** i gefnogi cysondeb yn rhyngwladol lle y bo'n briodol – er enghraifft, o ran labelu alergenau.



# I grynhoi

- Mae hwn wedi bod yn gyfnod o gydgrynhoi yn sgil ymadawiad y DU â'r UE. Mae deddfwriaeth helaeth wedi'i rhoi ar waith a gwaith manwl wedi'i wneud gyda'r diwydiant bwyd i gynnal parhad busnes a mynediad i'r farchnad, er na fydd llawer o'r gwaith hwn wedi cael effaith amlwg ar y defnyddiwr hyd yn hyn.
- Mae cyfreithiau labelu bwyd y DU wedi datblygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Disgwylir y bydd cyflwyno rheolau newydd ar labelu alergenau a chyfreithiau gwybodaeth calorïau gorfodol ar fwydlenni yn gwella ansawdd yr wybodaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr. Byddwn yn monitro effeithiolrwydd y newidiadau, gan ystyried adborth gan ddefnyddwyr, busnesau a'r rheiny sy'n gorfodi'r newidiadau hyn. Cynhelir adolygiad o'r newidiadau i labelu bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu yn uniongyrchol yn 2022.
- Sefydlwyd hefyd systemau a strwythurau ar ôl ymadael â'r UE ar gyfer goruchwylio safonau gwybodaeth am fwyd, er enghraifft creu Pwyllgor Honiadau Maeth ac Iechyd newydd y DU i asesu honiadau maeth ac iechyd arfaethedig.



# 5 Pwysigrwydd hylendid

## Safonau hylendid mewn sefydliadau bwyd a bwyd anifeiliaid



### Cipolwg

**Yn y bennod hon, byddwn yn ystyried y canlynol:**

- **y lefel gyfredol o gydymffurfiaeth gyfreithiol â safonau hylendid mewn busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid, gan gynnwys canlyniadau'r cynlluniau sgorio hylendid bwyd diweddaraf**
- **i ba raddau y gwnaeth y pandemig herio a tharfu ar reolaethau hylendid bwyd, a'r goblygiadau posib i safonau hylendid bwyd**
- **heriau allweddol eraill sy'n wynebu'r system arolygu hylendid, gan gynnwys recriwtio a chadw'r gweithlu, a thwf gwerthiannau bwyd ar-lein**

# Cyflwyniad

**Boed mewn siop, ffreutur neu fwyty, mae diogelwch yr hyn rydym yn ei fwyta yn cael ei gynnal gan ystod o safonau sydd wedi'u cynllunio i sicrhau bod ein bwyd a'n bwyd anifeiliaid yn cael eu cynhyrchu, eu gweithgynhyrchu, eu storio, a'u paratoi mewn ffordd ddiogel a hylan.**

Mae gofynion llym yn berthnasol i ystod eang o fusnesau, gan gynnwys siopau bwyd, bwytai, siopau tecawê, arlwywyr, cynhyrchwyr cig, pysgod, pysgod cregyn a llaeth, a gweithgynhyrchwyr bwyd anifeiliaid. Maent yn cael eu gwirio'n rheolaidd er mwyn asesu cydymffurfiaeth.

Mae busnesau bwyd anifeiliaid hefyd yn destun rheolaethau ac arolygiadau llym, y mae llawer ohonynt wedi deillio o argyfwng Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (BSE) y 1980au.

Yn ogystal ag atal pobl ac anifeiliaid fferm rhag mynd yn sâl, mae cynnal y safonau hylendid hyn yn allweddol i gynnal enw da'r DU fel allforiwr y gellir ymddiried ynddo i ddarparu cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid diogel.

**Mae yna nifer o brif elfennau sy'n cyfrannu at gynnal safonau hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid uchel:**

- deddfwriaeth a chanllawiau clir ar gyfer busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid
- dulliau cymesur a chyson at arolygiadau awdurdodau lleol sy'n seiliedig ar risg, er mwyn sicrhau bod gweithredwyr busnesau bwyd yn cydymffurfio â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid
- cymryd camau priodol i reoli brigiadau o achosion o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd a bwyd anifeiliaid
- cymryd camau priodol lle bo achosion o ddiffyg cydymffurfio
- meddu ar weithlu cymwys a hyfforddedig sydd ag adnoddau da i fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth busnesau

Mae'r bennod hon yn archwilio'r hyn y mae'r data sydd ar gael yn ei ddweud wrthym am safonau hylendid ac yn tynnu sylw at yr heriau penodol a wynebir gan y rheiny sy'n gyfrifol am eu cynnal.



**Ffigur 34: Cost economaidd flynyddol rhai mathau adnabyddus o salwch a gludir gan fwyd**[34]

**Norofeirws:**
Fe'i trosglwyddir yn aml drwy bysgod cregyn, wystrys, letys, aeron ffres a rhai wedi'u rhewi

**£1,680 miliwn**



**Campylobacter:**
Fe'i trosglwyddir yn aml drwy gyw iâr, moch a chynhyrchion llaeth

**£710 miliwn**



**Salmonela:**
Fe'i trosglwyddir yn aml drwy wyau neu gynhyrchion wyau, cig coch a dofednod

**£210 miliwn**



**Escherichia coli (VTEC O157):**
Fe'i trosglwyddir yn aml drwy gig eidion a chynhyrchion llaeth

**£4 miliwn**



## Rôl busnesau

Mae busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion hylendid. Mae hyn yn golygu bod angen iddynt fod â systemau rheoli diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid effeithiol ar waith a'u cynnal. Yn ymarferol, mae hyn yn cynnwys mesurau i ddiogelu bwyd a bwyd anifeiliaid rhag eu halogi, fel cymhwyso safonau hylendid uchel, rheoli tymheredd, a sicrhau bod staff yn gymwys trwy hyfforddiant neu oruchwyliaeth ddigonol.


# Hylendid mewn sefydliadau bwyd

Mae awdurdodau lleol ledled y DU yn cynnal amrywiaeth eang o wiriadau ac ymyriadau mewn sefydliadau bwyd er mwyn sicrhau bod lefel uchel o hylendid bwyd yn cael ei chynnal a bod busnesau'n cydymffurfio â phob cyfraith bwyd berthnasol[35]. Mae'r rhain yn cael eu cyflawni gan swyddogion diogelwch bwyd, fel swyddogion iechyd yr amgylchedd.

Effeithiwyd ar y data cydymffurfio a gasglwyd yn ystod y pandemig gan ostyngiad yn nifer yr arolygiadau cyffredinol, a byddwn yn disgrifio hyn yn ddiweddarach yn y bennod hon. Mae rhai gwahaniaethau hefyd yn y modd y caiff cydymffurfiaeth ei mesur ar draws pedair gwlad y DU. Fodd bynnag, ar sail y data sydd ar gael, canfuwyd bod mwy na 95% o sefydliadau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn cydymffurfio neu'n rhagori ar hynny. Yn yr Alban, barnwyd bod mwy na 96% o sefydliadau'n cydymffurfio i lefel foddhaol neu well o dan System Sgorio newydd Cyfraith Bwyd[36].

**Ffigur 35: Y cyfraddau cydymffurfio diweddaraf a nodwyd ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd y DU**

Mae'r newid pwynt canrannol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol wedi'i gynnwys mewn cromfachau.





Ffynhonnell: System Monitro Gorfodi Lleol (LAEMS), Cronfa Ddata Genedlaethol yr Alban (SND). Mae'r ffigurau'n nodi'r data diweddaraf sydd ar gael, sy'n cwmpasu 2019-20 ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a 2020-21 ar gyfer yr Alban.

Yn yr un modd, mae'r **Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd** yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon a'r **Cynllun Gwybodaeth am Hylendid Bwyd (FHIS)** yn yr Alban yn dangos bod y mwyafrif helaeth o'r bwytai a mannau eraill sy'n gweini bwyd wedi cael sgoriau boddhaol neu well ar y cyfan[37].

**Ffigur 36: % y busnesau bwyd yn y DU a gafodd sgoriau boddhaol neu well ar gyfer hylendid bwyd yn ôl 31 Rhagfyr 2021**

Mae'r newid pwynt canrannol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol wedi'i gynnwys mewn cromfachau.




Mae'r ffigurau'n cynnwys pob busnes sy'n ennill sgôr 'boddhaol ar y cyfan' o dri neu uwch fel rhan o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a sgôr 'pasio' fel rhan o'r FHIS ar gyfer yr Alban.


# Hylendid mewn sefydliadau cig cymeradwy

Mae sefydliadau cig cymeradwy yn cynnwys lladd-dai, sefydliadau trin anifeiliaid helgig, ffatrïoedd torri cig a marchnadoedd cyfanwerthu cig, ac maent yn destun set benodol o reolaethau i sicrhau eu bod yn bodloni safonau diogelwch a hylendid bwyd. Swyddogion yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban sy'n cynnal llawer o'r rheolaethau ar gyfer y sefydliadau hyn. Cynhelir archwiliadau busnesau bwyd yn rheolaidd yn y sefydliadau hyn i wirio cydymffurfiaeth[38].

Er bod gwahaniaethau yn y ffordd y cynhelir archwiliadau yn yr Alban o gymharu â gweddill y DU (gweler y nodiadau esboniadol) sy'n cael eu hadlewyrchu yn y ffigurau sydd ar gael, maent yn dangos eto bod y rhan fwyaf o sefydliadau cig yn cydymffurfio â safonau hylendid, gyda ffigurau yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn parhau'n gyson, fwy neu lai, â'r blynyddoedd blaenorol[39].



**Ffigur 37: % y sefydliadau cig a gafodd sgôr hylendid dda neu foddhaol yn 2020/21**
Mae'r newid pwynt canrannol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol wedi'i gynnwys mewn cromfachau.




Ffynhonnell: Data archwilio sefydliadau cig

# Cydymffurfiaeth hylendid wrth gynhyrchu llaeth


Mae'r cyfrifoldeb dros arolygu sefydliadau llaeth yn amrywio ar draws y DU, ond ym mhob achos y nod yw sicrhau bod safonau hylendid yn cael eu cynnal ar draws ffermydd a chynhyrchwyr llaeth cofrestredig[40]. Unwaith eto, cafodd y pandemig effaith sylweddol ar weithredu, a thrafodir hyn ymhellach yn yr adran nodiadau esboniadol[41].

O ran sefydliadau llaeth, mae'r data sgorio diweddaraf sydd ar gael yn dangos bod 80.6% o sefydliadau yng Nghymru a Lloegr a 99.2% yng Ngogledd Iwerddon yn cydymffurfio[42]. Mae dosbarthiad mathau o sefydliadau llaeth yn amrywio rhwng Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a gall hyn effeithio ar lefelau cydymffurfio.

Nid oes gan Safonau Bwyd yr Alban unrhyw rôl orfodi uniongyrchol ar gyfer hylendid llaeth yn yr Alban. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am hyn yn yr Alban. Mae cydymffurfiaeth wedi'i mesur drwy edrych ar ba ganran o fusnesau a gafodd cyngor ysgrifenedig neu gyngor ar lafar. Mae diffyg angen camau gorfodi ffurfiol yn awgrymu lefelau uchel o gydymffurfiaeth yn yr Alban[43]. Mae hyn yn golygu bod mwyafrif helaeth y busnesau hyn yn gweithredu mewn modd diogel.


**Ffigur 38: Lefelau cydymffurfio sefydliadau llaeth yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn ôl mis 31 Rhagfyr 2021**

Mae'r newid pwynt canrannol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol wedi'i gynnwys mewn cromfachau.




Ffynhonnell: System ddata cynnyrch llaeth K2, Cangen Arolygu Bwyd-Amaeth DAERA, 2021

**Ffigur 39: Cyfran y sefydliadau llaeth yn yr Alban sy'n cael cyngor ar lafar neu gyngor ysgrifenedig, 2019-20**




Ffynhonnell: **Multi-Annual National Control Plan Annual Report 2019**

## Cydymffurfiaeth mewn sefydliadau bwyd anifeiliaid

Mae bwyd anifeiliaid yn chwarae rhan bwysig yn y gadwyn fwyd ac mae methiannau o ran rheolaethau bwyd anifeiliaid wedi arwain yn hanesyddol at ddigwyddiadau mawr, gan gynnwys y brigiad o achosion o BSE. Mae ystod eang o ofynion cyfreithiol ar gyfer bwyd anifeiliaid sy'n ymwneud â hylendid, olrheiniadwyedd, labelu, cyfansoddiad a sylweddau annymunol. Gall y cyfrifoldebau dros reolaethau bwyd anifeiliaid amrywio ar draws y gwledydd[44]. Mae rhai gwahaniaethau pwysig yn y ffordd y mae gwledydd y DU yn adrodd ar ddata cydymffurfio, a amlinellir yn yr adran nodiadau esboniadol[45].

### Yn yr Alban

Yn ôl y data sydd ar gael, llwyddodd 94.9% o fusnesau bwyd anifeiliaid i gydymffurfio i lefel foddhaol o leiaf yn 2016, o gymharu â 98.3% yn 2017.

### Yn Lloegr

Arhosodd cydymffurfiaeth busnesau bwyd anifeiliaid yn gyson, gyda 97.9% o fusnesau'n cydymffurfio i lefel foddhaol o leiaf yn 2018 a 97.1% yn 2019.

### Yng Nghymru

Llwyddodd 83.2% o fusnesau bwyd anifeiliaid i gydymffurfio i lefel foddhaol o leiaf yn 2020/21. Mae hyn yn weddol gyson â data 2019/20, pan lwyddodd 82.8% o fusnesau bwyd anifeiliaid i gydymffurfio i lefel foddhaol o leiaf.

### Yng Ngogledd Iwerddon

Mae cydymffurfiaeth busnesau bwyd anifeiliaid wedi aros yr un fath gyda 99.3% yn llwyddo i gydymffurfio i lefel foddhaol o leiaf yn 2019/20 a 2020/21

Ffynhonnell: Data cynllunio arolygiadau bwyd anifeiliaid Safonau Masnach Cenedlaethol ar gyfer Lloegr, data arolygu bwyd anifeiliaid Cymru fel yr adroddwyd gan awdurdodau lleol, data arolygu bwyd anifeiliaid DAERA ac arolygiadau bwyd anifeiliaid awdurdodau lleol yr Alban y mae Safonau Bwyd yr Alban wedi nodi canlyniadau ar eu cyfer.

## A effeithiodd y pandemig ar safonau hylendid?


Effeithiodd y pandemig yn ddifrifol ar allu arolygwyr i asesu cydymffurfiaeth y diwydiant, o ganlyniad i adleoli adnoddau awdurdodau lleol i gefnogi'r ymateb i'r pandemig, a'r her o gael mynediad corfforol at sefydliadau. Adlewyrchir hyn yn nifer y busnesau bwyd a gafodd sgoriau hylendid bwyd yn ystod y pandemig (gweler ffigurau 40 a 41).

Er bod hyn yn ostyngiad sylweddol, byddai swyddogion gorfodi wedi bod yn bresennol mewn rhai safleoedd lletygarwch i gynnal ymweliadau i asesu cydymffurfiaeth mewn perthynas â mesurau COVID-19. Er nad oedd yr ymweliadau hyn bob amser wedi'u cyfuno â gwiriadau hylendid bwyd, mae llawer o'r egwyddorion a ddefnyddiwyd i asesu a oedd safle'n ddiogel o ran COVID-19 hefyd yn berthnasol i arferion cynhyrchu bwyd.


Mae awdurdodau lleol bellach wedi ailddechrau cynnal arolygiadau mewn busnesau bwyd, gan flaenoriaethu'r busnesau hynny sydd â hanes o ddiffyg cydymffurfio, neu'r rheiny lle y gwnaeth cwynion dynnu sylw at broblemau posib. Mae trafodaethau cynnar gyda Grwpiau Cyswllt Bwyd Awdurdodau Lleol[46] yn awgrymu bod awdurdodau lleol nawr yn dod ar draws lefelau diffyg cydymffurfio uwch nag o'r blaen. Fodd bynnag, mae angen mwy o ddata cyn y gellir dod i gasgliadau ynghylch a yw'r pandemig wedi effeithio ar safonau hylendid yn ehangach.

## Gostyngodd nifer y sgoriau hylendid a ddyfarnwyd yn sydyn yn ystod anterth y pandemig

**Ffigur 40: Nifer y busnesau bwyd a gafodd sgôr yn ôl y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yng Nghymru, Lloegr, a Gogledd Iwerddon**




**Ffigur 41: Nifer y busnesau bwyd a gafodd sgôr yn ôl y FHIS yn yr Alban**




# Edrych i'r dyfodol

Yn olaf, beth yw rhai o'r heriau mawr i safonau hylendid bwyd yn y blynyddoedd i ddod?


Y risg allweddol gyntaf yw **prinder gweithlu**. Mae'r pandemig ac ymadawiad y DU â'r UE wedi tynnu sylw at yr heriau o ran recriwtio a chadw niferoedd digonol o staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda. Mae llawer o awdurdodau lleol yn wynebu anawsterau wrth gyflogi staff cymwys i gynnal arolygiadau, a bu problemau tebyg wrth recriwtio a chadw milfeddygon swyddogol ac arolygwyr hylendid cig yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Byddwn yn adolygu effaith hyn ar fentrau recriwtio a chadw staff trwy ddadansoddi data gweithluoedd mewn adroddiadau yn y dyfodol[47].

Yr ail risg allweddol yw **twf ym maes masnachu ar-lein**. Gydag amrywiaeth eang o lwybrau gwerthu ar-lein bellach ar gael, gan gynnwys trwy agregwyr, marchnadoedd ar-lein a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, mae'n dod yn fwyfwy anodd i awdurdodau orfodi goruchwylio'r holl fusnesau bwyd sy'n gweithredu ar-lein. Mewn ymateb, mae Safonau Bwyd yr Alban a'r ASB yn gweithio gydag awdurdodau lleol a darparwyr technoleg i ddeall maint a natur newidiol y farchnad fwyd ar-lein ac asesu unrhyw risgiau posib i


ddiogelwch bwyd. Unwaith eto, byddwn yn adolygu cynnydd mewn adroddiadau yn y dyfodol.

## I grynhoi

- Gwnaeth y pandemig darfu'n sylweddol ar raglenni arolygu hylendid arferol busnesau bwyd ym mhob un o’r pedair gwlad. Roedd graddfa’r gostyngiad yn nifer arolygiadau hylendid bwyd awdurdodau lleol oherwydd y pandemig yn sylweddol. Gostyngodd lefel yr arolygiadau i dua traean o’r lefel flaenorol yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a’r Alban.
- Mae data cydymffurfio yn dangos bod dros 95% o’r busnesau bwyd a arolygwyd gan awdurdodau lleol yn cydymffurfio i raddau helaeth neu well yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Yn yr un modd yn yr Alban, mae statws cydymffurfio â chyfraith bwyd yn uwch na 96%.
- Mae’r data diweddaraf ar sgoriau hylendid yn dangos bod 97% o fusnesau bwyd wedi cael sgôr foddhaol ar y cyfan o 3 neu uwch yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Yn yr Alban, roedd y gyfradd lwyddo ymhlith busnesau yn 93.8%.
- O ran sefydliadau cig cymeradwy, mae’r data archwilio diweddaraf sydd ar gael yn dangos cydymffurfiaeth o fwy nag 98% yng Nghymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac 85% yn yr Alban. O ran sefydliadau llaeth, mae dosbarthiad mathau o sefydliadau llaeth yn amrywio rhwng Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a allai gyfrannu at amrywiad mewn lefelau cydymffurfio. Mae’r data sgorio diweddaraf sydd ar gael yn dangos cydymffurfiaeth o fwy nag 80% yng Nghymru a Lloegr, a 99% yng Ngogledd Iwerddon. Mae diffyg angen camau gorfodi ffurfiol yn awgrymu lefelau uchel o gydymffurfiaeth yn yr Alban. Mae hyn yn golygu bod y mwyafrif helaeth o’r sefydliadau cig a llaeth hyn yn gweithredu mewn modd diogel.
- O ran busnesau bwyd anifeiliaid, mae pedair gwlad y DU yn gwirio cydymffurfiaeth â gofynion cyfraith bwyd anifeiliaid mewn modd gwahanol, a all gyfrannu at amrywiad mewn lefelau cydymffurfio. Mae’r data sgorio diweddaraf sydd ar gael yn dangos cydymffurfiaeth o fwy na 83% yng Nghymru, 97% yn Lloegr, 99% yng Ngogledd Iwerddon, a 98% yn yr Alban. Mae hyn yn golygu bod y mwyafrif helaeth o’r busnesau hyn yn gweithredu mewn modd diogel.
- O ystyried y gostyngiad mewn gweithgarwch arolygu sy’n gysylltiedig â’r pandemig, nid yw’n bosib penderfynu’n hyderus a yw safonau hylendid wedi gostwng ai peidio. Mae gwybodaeth gynnar gan grwpiau cyswllt bwyd awdurdodau lleol yn awgrymu y gallai fod rhywfaint o effaith ar gydymffurfiaeth, ond disgwyliwn i ddarlun cliriach ddod i’r amlwg yn adroddiad y flwyddyn nesaf.



# Casgliadau



**Mae safonau bwyd fel arfer yn chwarae rhan gudd ond hanfodol ym mywydau pobl, gan ein helpu i fwyta'n dda, cadw'n ddiogel a gwneud y dewisiadau gorau ar ein cyfer ni a'n teuluoedd.**

Daw ein hadroddiad blynyddol cyntaf ar safonau bwyd ar ôl i system fwyd y DU wynebu dwy flynedd o gynnwrf sylweddol. Fe wnaeth y pandemig COVID-19 gau rhannau helaeth o'r diwydiant lletygarwch, achosi ansicrwydd a tharfu ar gadwyni cyflenwi bwyd, gan bentyrru pwysau ychwanegol ar dimau iechyd yr amgylchedd a safonau masnach awdurdodau lleol, ac arolygwyr yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban.

At hynny, o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE, mae gweinidogion a rheoleiddwyr bwyd bellach yn uniongyrchol gyfrifol am gyfraith bwyd am y tro cyntaf ers bron i 50 mlynedd. O ganlyniad, mae gan Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig gyfrifoldebau newydd a sylweddol i'w cyflawni, fel trafod cytundebau masnach ac awdurdodi bwydydd newydd.

Ac mae rhagor byth o newidiadau ar y gorwel. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r rhyfel yn Wcráin yn effeithio ar gadwyni cyflenwi bwyd, ac mae prisiau bwyd byd-eang cynyddol yn peri pryder ar lefel genedlaethol a rhyngwladol.



Mae'r dystiolaeth a nodir yn yr adroddiad hwn yn awgrymu bod safonau diogelwch bwyd cyffredinol wedi'u cynnal i raddau helaeth yn ystod 2021. Yng nghyd-destun newid ac ansicrwydd, mae hwn yn gyflawniad rhyfeddol.

Fodd bynnag, ni allwn fod yn gwbl hyderus yn y casgliad hwn. Gwnaeth y pandemig darfu ar arolygiadau, gwaith samplu ac archwiliadau rheolaidd ym mhob rhan o'r system fwyd, gan leihau'r data sydd ar gael i ni ei ddefnyddio wrth asesu cydymffurfiaeth busnesau yn erbyn gofynion cyfraith fwyd. Newidiodd hefyd batrymau ymddygiad. Er enghraifft, roedd pobl wedi bwyta allan llai ac roedd archfarchnadoedd wedi lleihau'r amrywiaeth o eitemau ar y silffoedd. Mae hyn wedi ei gwneud hi'n anodd cymharu â blynyddoedd blaenorol ar gyfer rhai dangosyddion perfformiad allweddol, fel nifer y rhybuddion alergedd a gyhoeddwyd.

Er bod safonau diogelwch bwyd wedi'u cynnal i raddau helaeth, mae'r ddwy sefydliad yn cydnabod bod risgiau sylweddol o'u blaenau. Mae tystiolaeth o'r cyfnod hwn yn tynnu sylw at ddau bryder penodol yn y system.

Yn gyntaf, bu gostyngiad yn lefel arolygiadau awdurdodau lleol o fusnesau bwyd. Mae'r sefyllfa wrthi'n cael ei hunioni, yn enwedig o ran arolygu hylendid bwyd caffis a bwytai. Fodd bynnag, mae cynnydd wedi'i gyfyngu o ganlyniad i adnoddau ac argaeledd gweithwyr proffesiynol cymwys.

Mae'r ail yn ymwneud â mewnforio bwyd o'r UE. Er mwyn gwella lefelau sicrwydd mewn perthynas â bwyd risg uwch o'r UE fel cig, llaeth ac wyau, a bwyd a bwyd anifeiliaid sydd wedi dod i'r DU trwy'r UE, mae'n hanfodol bod rheolaethau gwell yn cael eu rhoi ar waith yn unol â'r amserlen y mae Llywodraeth y DU wedi'i phennu (diwedd 2023). Po hiraf y bydd y DU yn gweithredu heb sicrwydd gan y wlad sy'n allforio fod cynhyrchion yn bodloni safonau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid uchel y DU, y lleiaf hyderus y gallwn fod ynghylch nodi digwyddiadau diogelwch posibl yn effeithiol.

Mae'n hanfodol bod y DU yn gallu atal mynediad i fwyd anniogel, a nodi risgiau sy'n newid ac ymateb iddynt. Er ein bod wedi ystyried yr heriau hyn yn ofalus ac wedi rhoi trefniadau eraill sydd o fewn ein rheolaeth ar waith, nid ydynt yn ddigonol, yn ein barn ni. Rydym felly wedi ymrwymo i weithio gydag adrannau'r llywodraeth i sicrhau bod cyflwyno'r rheolaethau mewnforio gwell hyn yn darparu lefelau uchel o ddiogelwch i ddefnyddwyr yn y DU.

Mae'r pryderon hyn ynghylch y gallu i arolygu a gorfodi safonau ar gyfer bwyd a fewnforir yn y dyfodol yn atgyfnerthu'r angen am fwy o fuddsoddiad mewn rhaglenni samplu, fel arolwg basged o fwyd yr ASB a gweithgarwch samplu bwyd wedi'i dargedu Safonau Bwyd yr Alban. Mae hefyd angen adnoddau digonol ar awdurdodau lleol er mwyn iddynt allu chwarae eu rhan i sicrhau bod bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.

Gan edrych tua'r dyfodol, rydym hefyd yn cydnabod bod ystyriaethau ynghylch effaith masnach a cytundebau masnach rydd newydd yn mynd y tu hwnt i safonau diogelwch. Maent yn cynnwys pryderon defnyddwyr am safonau ehangach sy'n gysylltiedig â chynhyrchu, fel lles anifeiliaid a chynaliadwyedd, a chwestiynau am ddiogeledd bwyd cenedlaethol. Mae'r pryderon hyn yn cyd-fynd â chynnydd yng ngwerthfawrogiad defnyddwyr o safonau bwyd cyfredol y DU, gan gynnwys cynhyrchu domestig, a

chydnabyddiaeth o’r hyn y mae systemau bwyd domestig yn ei gyfrannu at gymunedau a’r economi. Byddwn yn ystyried y materion hyn mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Yn anad dim, mae canfyddiadau’r adroddiad hwn yn pwysleisio’r angen i bolisi bwyd gyd-fynd â disgwyliadau, pryderon, ymddygiadau a gwerthoedd defnyddwyr – yn enwedig wrth i’w hamgylchiadau personol newid.

Mae ein hymchwil yn dangos bod pryderon am bris, iechyd a’r amgylchedd yn uchel ymhlith blaenoriaethau’r cyhoedd. Er y bu rhai gwelliannau cymedrol a chadarnhaol yn neiet pobl, yn enwedig y gostyngiad yn faint o siwgrau rhydd a fwyteir, mae’r darlun cyffredinol yn dangos nad yw llawer ohonom yn bodloni argymhellion deietegol, sy’n ffaith a atgyfnerthir gan y niferoedd uchel a chynyddol o bobl ordew yn y DU. Mae hyn yn ei dro yn rhoi pwysau y gellir eu hosgoi ar adnoddau gofal iechyd ac yn cael effaith sylweddol ar economi ehangach y DU o ran cynhyrchiant a gollwyd, marwolaethau cynamserol ac anableddau.

Mae trafodaeth bwysig a pharhaus yn mynd rhagddi ynghylch rôl y llywodraeth wrth fynd i’r afael â materion iechyd a chynaliadwyedd sy’n mynd y tu hwnt i faterion diogelwch a dilysrwydd bwyd. Yn wyneb prisiau bwyd cynyddol a phwysau ehangach ar incwm cartrefi sy’n peri pryder difrifol wrth i ni ysgrifennu’r adroddiad hwn, gallwn fod yn eithaf sicr y bydd hi’n gynyddol heriol i ddefnyddwyr gael gafael ar fwyd iachus a chynaliadwy eleni.

Mae’r ASB a Safonau Bwyd yr Alban ymhlith llawer o sefydliadau cenedlaethol sy’n gyfrifol am wahanol agweddau ar bolisi bwyd. Dyma system gymhleth ac nid yw diogelwch a chynaliadwyedd ein system fwyd, i bobl a’r blaned, yn faterion y gellir eu datblethu’n daclus. Y cwestiwn sy’n bwrw ei gysgod dros yr adroddiad hwn yw sut y gallwn wneud yn siŵr nad yw pwysau costau byw cyfredol yn mynd yn argyfwng ar gyfer diogelwch bwyd nac yn gwaethygu’r heriau rydym eisoes yn eu hwynebu o ran iechyd y cyhoedd a chynaliadwyedd amgylcheddol.

Mae hyn y tu hwnt i’r pwerau sydd gennym fel rheoleiddwyr. Ond mae’n gwestiwn y mae angen i ni helpu ei ateb, gan weithio gyda busnesau a llywodraethau, ac mewn partneriaeth â phawb sy’n ymwneud â’r system fwyd. Rhaid i fwyd fforddiadwy hefyd fod yn fwyd da, er mwyn ein hiechyd a’r amgylchedd. Dyma’n cyfrifoldeb ni tuag at ddefnyddwyr heddiw, a chenedlaethau’r dyfodol.



# Atodiadau



# Atodiad 1: Acronymau

| Acronym | Ymadrodd |
|---|---|
| ABP | Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid *(Animal By-Product)* |
| ASB | Yr Asiantaeth Safonau Bwyd |
| BSE | Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol *(Bovine Spongiform Encephalopathy)* |
| CAC | Comisiwn Codex Alimentarius |
| CBD | Canabidiol |
| DAERA | Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig |
| Defra | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| DNP | 2,4 Dinitroffenol |
| EFSA | Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop |
| FAFA | Rhybudd Bwyd er Gweithredu *(Food Alert for Action)* |
| FHIS | Cynllun Gwybodaeth am Hylendid Bwyd yr Alban |
| FIIN | Rhwydwaith Cudd-wybodaeth y Diwydiant Bwyd |
| FNAO | Bwyd nad yw'n dod o anifeiliaid *(Food Not of Animal Origin)* |
| HIN | Hysbysiad Gwella Hylendid *(Hygiene Improvement Notice)* |
| HRFNAO | Bwyd risg uchel nad yw'n dod o anifeiliaid *(High-Risk Food Not of Animal Origin)* |
| INFOSAN | Rhwydwaith Rhyngwladol yr Awdurdodau Diogelwch Bwyd |
| LAEMS | System Monitro Gwaith Gorfodi Awdurdodau Lleol |
| NDNS | Arolwg Cenedlaethol o Ddeiet a Maeth |
| NFCU | Yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd *(National Food Crime Unit)* |
| NTS | Safonau Masnach Cenedlaethol |
| POAO | Cynnyrch sy'n dod o anifeiliaid *(Product of Animal Origin)* |
| QR | Ymateb Cyflym |
| RASFF | System Rhybuddio Cyflym ar gyfer Bwyd a Bwyd Anifeiliaid |

| Acronym | Ymadrodd |
|---|---|
| SFCIU | Uned Troseddau a Digwyddiadau Bwyd yr Alban |
| SFSD | Cronfa Ddata Samplu Bwyd yr Alban |
| SND | Cronfa Ddata Genedlaethol yr Alban |
| TCA | Cytundeb Masnach a Chydweithrediad y DU a'r UE *(UK-EU Trade and Co-operation Agreement)* |
| UE | Yr Undeb Ewropeaidd |
| UKNHCC | Pwyllgor Honiadau Maeth ac Iechyd y DU |
| VPHP | Rhaglen Iechyd y Cyhoedd Milfeddygol *(Veterinary Public Health Programme)* |

# Atodiad 2: Rhestr dermau

| Term | Esboniad |
|---|---|
| Afflatocsinau | Cyfansoddion gwenwynig a gynhyrchir gan rai mathau penodol o lwydni a geir mewn bwyd, a all achosi niwed i'r afu a chanser. |
| Alergenau | Mae 14 prif alergen y mae'n rhaid eu datgan yn ôl y gyfraith, ond gall defnyddwyr fod ag alergedd neu anoddefiad i fwydydd neu gynhwysion eraill. |
| Braster dirlawn | Math o fraster sy'n gysylltiedig â cholesterol uchel yn y gwaed, a all gynyddu'r risg o strôc a chlefyd y galon. |
| BSE | Mae Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol, a elwir hefyd yn glefyd y gwartheg gwallgof (*mad cow disease*), yn glefyd yr ymennydd sy'n gallu heintio gwartheg, defaid a geifr. Os yw pobl yn bwyta cig sydd wedi'i heintio, gall arwain at salwch difrifol a marwolaeth. |
| Campylobacter | Achos o wenwyn bwyd sy'n cael ei ledaenu'n bennaf trwy groeshalogi gan gyw iâr amrwd. |
| Canabidiol (CBD) | Cemegyn a geir o fewn cywarch (*hemp*) a chanabis. Mae darnau CBD yn cael eu gwerthu fel bwyd, yn aml fel ychwanegion bwyd yn y DU. |
| Cig wedi'i brosesu | Unrhyw gig sydd wedi'i addasu er mwyn newid y blas neu ymestyn ei oes silff. |
| Cod QR | Cod Ymateb Cyflym, ar ffurf cod bar matrics optegol, y gellir ei ddarllen fel arfer gan ffonau symudol. |
| Comisiwn Ewropeaidd | Cangen weithredol yr UE, sy'n gyfrifol am gynnig cyfreithiau newydd, rheoli polisïau a chyllid a gorfodi cyfraith yr UE. |

| **Term** | **Esboniad** |
|---|---|
| Cyfraith Natasha | Rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i fusnesau bwyd nodi'r cynhwysion llawn ar labeli bwyd sydd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol. Mae'r gofynion hyn yn diogelu pobl sydd ag alergeddau, ac yn rhoi mwy o hyder iddynt yn y bwyd y maent yn ei brynu. Mae'r gofynion wedi'u gosod o fewn Rheoliadau penodol:<br>• Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Diwygio) (Lloegr) 2019<br>• Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020<br>• Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Diwygio Rhif 2) (Gogledd Iwerddon) 2020<br>• Rheoliadau Diwygio Gwybodaeth am Fwyd (Yr Alban) 2021. |
| Cynaliadwy | Lleihau ein hôl troed carbon, hyrwyddo arferion gorau cynaliadwy, gwarchod adnoddau naturiol a meithrin ymwybyddiaeth amgylcheddol trwy ein polisïau a'n harferion. |
| Cynhyrchion wedi'u rheoleiddio | Mae angen awdurdodi rhai cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid (gan gynnwys ychwanegion bwyd a bwyd anifeiliaid, cyflasynnau a deunyddiau sy'n dod i gysylltiad â bwyd) cyn y gellir eu gwerthu yn y DU. |
| Cytundebau masnach rydd | Mae cytundebau masnach yn nodi'r rheolau sy'n ymwneud â masnach rhwng dwy wlad neu fwy. Eu nod yw hwyluso masnachu rhwng y gwledydd hynny. Gwnânt hyn drwy leihau'r cyfyngiadau ar fewnforion ac allforion rhyngddynt |
| Dadansoddi gwraidd y broblem | Mae **dadansoddi gwraidd y broblem** yn ymwneud â dod o hyd i wraidd y broblem a'i datrys, yn hytrach na chymhwyso atebion arwynebol i broblemau wrth iddynt godi. |
| Dadansoddi risg | Y broses o asesu, rheoli a chyfathrebu risgiau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid. |
| Diffyg diogeledd bwyd cartrefi | Term a ddefnyddir i ddisgrifio cartrefi sydd heb fynediad dibynadwy at ddigon o fwyd fforddiadwy a maethlon. |
| Dilyniannu genom | Techneg a ddefnyddir i 'ddarllen' DNA pobl sydd, yng nghyd-destun yr adroddiad hwn, yn caniatáu i wyddonwyr nodi a gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau o facteria a feirysau. |
| Dinitroffenol (DNP) | Cemegyn hynod wenwynig i bobl a all achosi marwolaeth. |

| **Term** | **Esboniad** |
|---|---|
| E. coli | Mae *Escherichia Coli* yn fath o facteria sy’n cael ei ganfod yng ngholuddion anifeiliaid a phobl. Gall rhai mathau achosi salwch difrifol mewn pobl, fel Verocytocsin sy’n cynhyrchu E.coli (VTEC). |
| E-rifau | Y rhif sydd wedi’i ddyrannu i ychwanegyn bwyd sydd wedi cael ei brofi i ddangos ei fod yn ddiogel ar gyfer y defnydd a fwriadwyd, ac nad yw ei ddefnydd yn camarwain y defnyddiwr. |
| Ffeibr | Math o garbohydrad na all y corff ei dorri i lawr. Mae ffeibr i’w gael yn naturiol mewn bwydydd planhigion fel grawn cyflawn, ffa, cnau, ffrwythau a llysiau. Mae’n helpu i gadw ein system dreulio’n iach. |
| Gordewdra | Defnyddir y term hwn i ddisgrifio rhywun sydd dros ei bwysau, gyda llawer o fraster corff. O ran **Mynegai Màs y Corff (BMI)**, byddai rhywun â sgôr o 30 neu uwch yn cael eu hystyried yn ordew. |
| Marchnadoedd ar-lein | Darparwyr bwyd sy’n dosbarthu bwyd yn uniongyrchol i’r defnyddiwr ar ôl iddynt archebu bwyd naill ai drwy gyfrifiadur neu ffôn clyfar dros y rhyngrwyd. |
| Newid yn yr hinsawdd | Newidiadau tymor hir mewn patrymau tywydd a thymheredd, a all fod yn newidiadau naturiol neu newidiadau sy’n cael eu hachosi gan losgi tanwydd ffosil ers y bedwaredd ganrif ar bymtheg. |
| Norofeirws | Fe’i gelwir hefyd yn fyg chwydu’r gaeaf, mae Norofeirws yn drosglwyddadwy iawn ac mae'n un o brif ffactorau sy’n achosi salwch a gludir gan fwyd yn y DU. Er ei fod yn annymunol, nid yw’n para’n hir ac mae’n cael ei ystyried yn salwch ysgafn. |
| O’r Fferm i’r Fforc | Taith ein cynhwysion bwyd, o’r ffynhonnell i’r adeg y cânt eu bwyta. |
| Pathogen | Bacteriwm, feirws neu organeb arall a all achosi afiechyd. |
| Profiotig | Sylwedd sy’n ysgogi micro-organebau i dyfu, yn enwedig y rheiny sydd â phriodweddau buddiol. |
| Rheolaethau swyddogol | Yn gyffredinol mae hyn yn golygu arolygiadau, gwaith gorfodi, cyngor a chanllawiau sy’n ofynnol yn ôl y gyfraith neu ganllaw’r llywodraeth. |

| Term | Esboniad |
|---|---|
| Rhydd rhag | Cynnyrch sydd wedi'i greu i fod yn rhydd rhag un neu fwy o gynhwysion y gall pobl fod ag alergedd neu anoddefiad iddynt. |
| Salmonela | Mae salmonela yn grŵp o facteria cyffredin sy'n achosi gwenwyn bwyd. Fel arfer, cânt eu lledaenu drwy goginio annigonol a thrwy groeshalogi.<br>Mae haint Salmonela (*salmonelosis*) yn glefyd bacteriol cyffredin sy'n effeithio ar y llwybr coluddol. Mae bacteria Salmonela fel arfer yn byw yng ngholuddion anifeiliaid a phobl ac yn cael eu gollwng trwy ysgarthion. Mae pobl yn cael eu heintio amlaf trwy ddŵr neu fwyd wedi'i halogi. |
| Samplu | Mae gwaith samplu yn ymwneud â chymryd cynnyrch i sicrhau ei fod yn cyrraedd y safon ofynnol. Gall hyn gynnwys bod yn ddiogel, o'r safon a ddymunir, neu wedi'i labelu'n gywir. Cynhelir gwaith samplu i gefnogi gwaith gorfodi, fel rhan o wiriadau busnesau, ac at ddibenion ymchwil a gwyliadwriaeth. |
| Siwgrau rhydd | Pob siwgr sy'n bresennol yn naturiol mewn sudd ffrwythau, sudd llysiau, piwrîau a phastiau a chynhyrchion tebyg, lle mae'r strwythur wedi'i dorri i lawr; pob siwgr mewn diodydd (ac eithrio diodydd llaeth); a lactos a galactos a ychwanegir fel cynhwysion. |
| System Rhybuddio Cyflym ar gyfer Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (RASFF) | System yn yr UE sy'n galluogi rhannu gwybodaeth yn effeithlon rhwng gwledydd yr UE, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) a'r Gymdeithas Masnach Rydd Ewrop (EFTA). |
| Tarfiadau | Dull o ymyriadau troseddau bwyd a roddwyd ar waith yn ddiweddar sy'n atal neu'n lleihau'r cyfleoedd i gyflawni droseddau bwyd ac, wrth wneud hynny, yn cynyddu diogelwch bwyd y DU drwy sicrhau bod bwyd yn ddiogel. |
| Traws-frasterau | Braster y ceir lefelau isel ohono yn naturiol mewn rhai bwydydd, fel cig a chynhyrchion llaeth, ac mewn olew llysiau rhannol hydrogenaidd. Gall traws-frasterau godi lefel y colesterol yn y gwaed, gan gynyddu'r risg o strôc a chlefyd y galon. |
| Ychwanegion | Mae ychwanegion bwyd yn gynhwysion sy'n cael eu hychwanegu at fwyd i gyflawni swyddogaethau penodol. |

# Atodiad 3: Tabl ffigurau

## Gosod adroddiad eleni mewn cyd-destun

Ffigur 1: Sut mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn gwneud argymhellion ac yn rhoi cyngor ar sail tystiolaeth 23

## Pennod 1: Plât y genedl

Ffigur 2: Faint o siwgrau rhydd a fwyteir bob dydd fel canran o gyfanswm egni oedolion a phlant 28
Ffigur 3: Faint o siwgrau rhydd a fwyteir ar gyfartaledd fel cyfran o gyfanswm egni dyddiol (2020) 29
Ffigur 4: Faint o fraster dirlawn a fwyteir ar gyfartaledd fel cyfran o gyfanswm egni dyddiol (2020) 30
Ffigur 5: Amcangyfrif o'r lefelau o halen a fwyteir bob dydd ar gyfartaledd yn y DU ar gyfer oedolion 19-64 oed 31
Ffigur 6: Dognau o ffrwythau a llysiau a fwyteir bob dydd ar gyfartaledd yn ôl oedran (2020) 32
Ffigur 7: Faint o ffeibr a fwyteir bob dydd ar gyfartaledd (2020) 33
Ffigur 8: Pysgod a fwyteir bob wythnos ar gyfartaledd yn ôl grŵp oedran (2020) 34
Ffigur 9: Faint o gig coch a chig wedi'i brosesu a fwyteir bob dydd ar gyfartaledd gan oedolion oedran gweithio (gramau y dydd) 35
Ffigur 10: Faint o gig coch a chig wedi'i brosesu a fwyteir bob dydd yn ôl grŵp oedran (gramau y dydd) (2020) 35
Ffigur 11: % yr ymatebwyr yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon sy'n siopa tua unwaith yr wythnos neu'n amlach 36
Ffigur 12: Sut mae pris bwyd wedi newid dros amser (2000-21) 41
Ffigur 13: Diogeledd bwyd cartrefi yn y DU fesul rhanbarth (2020-21) 43
Ffigur 14: Cyfran y defnyddwyr sy'n poeni am fforddiadwyedd bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon 44
Ffigur 15: Cyfran y defnyddwyr sy'n poeni am fforddiadwyedd bwyd yn yr Alban 45
Ffigur 16: 10 prif flaenoriaeth y cyhoedd o ran bwyd dros y tair blynedd nesaf 48

## Pennod 2: Safbwynt byd-eang

Ffigur 17: % o gyfanswm defnydd y DU o'r prif gategorïau POAO 53
Ffigur 18: % o gyfanswm defnydd y DU o'r prif gategorïau FNAO 53
Ffigur 19: % o gyfanswm mewnforion y DU a gafwyd o'r UE ac o ranbarthau eraill, 2017-21 54
Ffigur 20: Twf canrannol mwyaf mewn cyfeintiau mewnforio o 2012-16 i 2017-21 55
Ffigur 21: % y llwythi sy'n methu gwiriadau rheoli mewnforio, wedi'u dadansoddi yn ôl math o wiriad 57

## Pennod 3: Diogel a chadarn

Ffigur 22: Nifer y digwyddiadau bwyd yr adroddwyd amdanynt yn y DU 63
Ffigur 23: Nifer yr achosion yr adroddwyd amdanynt o halogiad gan ficro-organebau niweidiol yn y DU 63
Ffigur 24: Nifer yr achosion yr adroddwyd amdanynt o halogiad cemegol yn y DU 64
Ffigur 25: Nifer yr achosion yr adroddwyd amdanynt a oedd yn cynnwys dofednod yn y DU 65
Ffigur 26: Nifer y digwyddiadau yr adroddwyd amdanynt yn ymwneud ag atchwanegiadau bwyd yn y DU 66
Ffigur 27: Cyfanswm y rhybuddion alergedd a gyhoeddwyd yn y DU, 2019-21 67
Ffigur 28: Y pum alergen a oedd yn gysylltiedig amlaf â digwyddiadau bwyd 68
Ffigur 29: Cyfanswm yr hysbysiadau galw cynnyrch yn ôl a gyhoeddwyd yn y DU 68

## Pennod 4: Hysbysu defnyddwyr

Ffigur 30: Lleoliad samplau'r arolwg basged o fwyd a'r canlyniadau 85
Ffigur 31: Arolwg basged o fwyd yr ASB: canlyniadau yn ôl categori bwyd 86
Ffigur 32: % gyffredinol y samplau y barnwyd eu bod yn foddhaol, gyda math a chyfran yr achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ôl categori bwyd 87
Ffigur 33: % gyffredinol o samplau a gafodd eu hasesu i fod yn foddhaol neu'n anfoddhaol fel rhan o waith samplu Safonau Bwyd yr Alban (2021) 89

## Pennod 5: Pwysigrwydd hylendid

Ffigur 34: Cost economaidd flynyddol rhai mathau adnabyddus o salwch a gludir gan fwyd 95
Ffigur 35: Y cyfraddau cydymffurfio diweddaraf a nodwyd ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd y DU 96
Ffigur 36: % y busnesau bwyd yn y DU a gafodd sgoriau boddhaol neu well ar gyfer hylendid bwyd yn ôl 31 Rhagfyr 2021 97
Ffigur 37: % y sefydliadau cig a gafodd sgôr hylendid dda neu foddhaol yn 2020/21 99
Ffigur 38: Lefelau cydymffurfio sefydliadau llaeth yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn ôl mis 31 Rhagfyr 2021 100
Ffigur 39: Cyfran y sefydliadau llaeth yn yr Alban sy'n cael cyngor ar lafar neu gyngor ysgrifenedig, 2019-20 101
Ffigur 40: Nifer y busnesau bwyd a gafodd sgôr yn ôl y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yng Nghymru, Lloegr, a Gogledd Iwerddon 103
Ffigur 41: Nifer y busnesau bwyd a gafodd sgôr yn ôl y FHIS yn yr Alban 103

# Atodiad 4: Cyfeiriadau penodau a nodiadau esboniadol

1 Mae hysbysu ymlaen llaw yn ei gwneud hi'n haws olrhain cynhyrchion bwyd rhag ofn y bydd angen i awdurdodau diogelwch bwyd ac awdurdodau gorfodi ymateb i ddigwyddiad diogelwch.

2 Mae tarfu'n cyfeirio at unrhyw weithgarwch sy'n atal neu'n lleihau'r cyfle i gyflawni troseddau bwyd, ac wrth wneud hynny, yn cynyddu diogelwch bwyd y DU trwy sicrhau bod bwyd yn ddiogel.

3 I gael rhagor o fanylion, gweler **Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Diwygio) (Lloegr) 2019**, **Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020**, **Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Diwygio Rhif 2) (Gogledd Iwerddon) 2020**, a **Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Yr Alban) Diwygio 2021**.

4 Mae angen awdurdodi rhai cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid, a elwir yn gynhyrchion wedi'u rheoleiddio, cyn y gellir eu gwerthu yn y DU. Mae'r cynhyrchion hyn yn cynnwys ychwanegion bwyd a bwyd anifeiliaid, cyflasynnau a deunyddiau sy'n dod i gysylltiad â bwyd.

5 Darperir rhagor o argymhellion deietegol yng nghanllaw **Bwyta'n Iach** a **nodau deietegol yr Alban**.

6 Mae'r **data cymharol diweddaraf** yn dangos na fu unrhyw newid sylweddol yn ystadegol yn yr amcangyfrif o'r lefelau o halen a gafodd ei fwyta gan oedolion yn Lloegr rhwng 2005/6 a 2018/9. Nid oedd newid mawr yn y lefelau amcangyfrifedig yng Nghymru rhwng **2006** a **2009-2013**. Fodd bynnag, mae data a gasglwyd yn yr **Alban** yn dangos gostyngiad o ran faint o halen a fwytawyd rhwng 2006 a 2014. Dim ond un asesiad o samplau wrin yng **Ngogledd Iwerddon** sydd wedi'i gynnal hyd yn hyn, felly nid oes unrhyw dueddiadau ar gael.

7 Canfu **adolygiad tystiolaeth** diweddar mai'r cymhellion cryfaf dros leihau faint o gig a chynnyrch llaeth a fwyteir oedd gwella iechyd a rhesymau lles anifeiliaid, er bod rhesymau iechyd yn llai o gymhelliad ar gyfer lleihau faint o gynhyrchion llaeth a fwyteir o gymharu â chig. Dim ond nifer bach o ddefnyddwyr a nododd eu bod yn bwyta llai o gig a chynnyrch llaeth gyda'r nod o ddiogelu'r amgylchedd. Fodd bynnag, roedd hyn oherwydd ymwybyddiaeth isel ymhlith defnyddwyr o sut mae cynhyrchu cig a chynnyrch llaeth yn effeithio ar yr amgylchedd, ac i ba raddau, yn ogystal â'r gred bod gweithredoedd eraill yn bwysicach.

8 Canfu **adroddiad yr ASB ar brofiadau byw o ddiffyg diogeledd bwyd (2020)** fod pobl a oedd yn byw mewn cartrefi gyda diffyg diogeledd bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn teimlo nad oeddent wedi cael amrywiaeth yn eu deiet yn ystod y cyfnod clo, wrth iddynt fwyta bwyd nad yw'n debygol o fynd yn ddrwg fel bwydydd tun neu fwyd wedi'i rewi, neu garbohydradau rhad (fel bara, pasta a reis) yn bennaf, a hynny yn lle ffrwythau, llysiau neu gig ffres. Roedd llawer o ddefnyddwyr yn poeni am leihau'r amrywiaeth yn eu deiet a'r effaith y gallai hyn ei chael ar eu hiechyd ac iechyd eu plant.

9 I gael rhagor o fanylion, lawrlwythwch ganlyniadau llawn arolwg traciwr **Safonau Bwyd yr Alban**.

10 Roedd y canlyniadau'n amrywio yn ôl grŵp cymdeithasol. Roedd grwpiau incwm uwch, pobl mewn cyflogaeth amser llawn, a'r rheiny â phlant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn fwy tebygol o fod wedi bwyta prydau iachach na grwpiau eraill.

11 Ewch ati i lawrlwytho'r Adroddiad Sefyllfa llawn: **Newidiadau i ymddygiadau siopa a bwyta yn yr Alban yn ystod pandemig COVID-19 yn 2020 | Safonau Bwyd yr Alban**

12 Roedd graddau'r newidiadau mewn arferion siopa bwyd hefyd yn dibynnu ar sefyllfaoedd personol pobl. Er enghraifft, canfu arolwg NDNS 2020 fod pobl a ddywedodd eu bod yn cael mwy o broblemau ariannol yn fwy tebygol o nodi eu bod wedi prynu eitemau a oedd ar gynnig arbennig, newid lle roeddent yn siopa, neu brynu dewisiadau bwyd rhatach. Awgrymodd **ymchwil arall** a gynhaliwyd gan yr ASB fod newidiadau o ran sut a ble roedd pobl yn siopa hefyd yn cael eu hysgogi gan ffactorau pragmatig fel mynediad yn ystod y cyfnod clo, yn hytrach na'r awydd i gefnogi siopau lleol. Dywedodd pobl hefyd eu bod yn teimlo'n fwy cyfforddus yn siopa'n lleol (lle'r oedd ciwiau'n fyrrach yn aml), neu ar-lein, (oherwydd y risg is o drosglwyddo'r feirws yn y sefyllfaoedd hynny).

13 Mae maint y sampl ar gyfer yr ymchwil a gynhaliwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon (tua 2,000) yn wahanol i'r sampl yn yr Alban (tua 500). Dim ond am fisoedd penodol yn yr Alban y cynhaliwyd yr arolwg.

14 Daw'r data mewnforio yn y bennod hon yn bennaf o **gronfa ddata masnach Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM)**, a grynhoir drwy **adnodd delweddu data masnach** yr ASB. Daw data ar ddefnydd o'r cyhoeddiad **'Agriculture in the UK' (AUK)**. Nid yw data CThEM ac AUK yn cyd-fynd yn uniongyrchol oherwydd gwahaniaethau mewn diffiniadau cynnyrch ac am fod AUK yn gwneud addasiadau ar gyfer pwysau esgyrn. Fe wnaethom ddefnyddio'r rhestr o FNAO risg uwch (HRFNAO) a oedd **mewn grym ym mis Rhagfyr 2021**, heb gyfrif am newidiadau hanesyddol. Mae data mewnforio CThEM yn mynd i lefel nwydd 8 digid, felly lle diffinnir HRFNAO ar lefel cod nwyddau 10 digid, rhagdybiwyd bod pob cynnyrch ar lefel 8 digid yn gynnyrch risg uchel. Mae **rheolaethau mewnforio eraill** ar waith sy'n ymwneud â mewnforion o gynhyrchion neu nwyddau penodol fel cynhyrchion reis sy'n cynnwys GMOs (organebau a addaswyd yn enetig), deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd (llestri cegin) o Tsieina, a bwyd a bwyd anifeiliaid penodol o Japan neu Chernobyl. Nid yw ein dadansoddiad yn ystyried y rhain. Yn y dadansoddiad, rydym wedi defnyddio cyfaint (mewn kg) o

fewnforion bwyd a bwyd anifeiliaid y DU o bob gwlad arall: nid ydym wedi cynnwys dadansoddiad prisiau ac nid ydym wedi ystyried allforion. Mae'r adroddiad hwn wedi edrych ar symudiadau i mewn i'r DU yn unig. Mae symudiadau cynnyrch rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn parhau i fod yn destun trafodaethau rhwng yr UE a'r DU, ond nid yw data sy'n ymwneud â'r symudiadau hynny wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn.

15 Noder bod ein dadansoddiad yn ystyried mewnforion cyffredinol yn unig, ac nid effaith patrymau masnachu ehangach. Er enghraifft, yn hanesyddol mae rhywfaint o borc o'r DU wedi'i allforio i'w storio yn yr UE, i'w ailfewnforio pan fo angen. Yn ogystal, weithiau bydd cynnyrch yn cyrraedd un porthladd yn yr UE ac yna'n cael ei gludo i'r DU. Pan fydd y nwyddau hyn yn teithio'n syth i'r DU, dylent ymddangos yn y data gyda'r tarddiad cywir. Fodd bynnag, pan oedd y DU yn yr UE, byddai'r archwiliadau ar y ffin wedi'u cwblhau mewn porthladd yn yr UE a byddai'r cynnyrch yn ymuno â chylchrediad cyffredinol yr UE cyn cael ei gludo i'r DU. Gall ymddangos wedyn fod y cynnyrch wedi'i fewnforio o'r wlad lle cafodd ei anfon ddiwethaf; yr enw cyffredin ar senario o'r fath yw 'effaith Rotterdam'.

16 Gallai cyflwyno rheolaethau mewnforio newydd yr UE hefyd fod wedi ysgogi newidiadau mawr mewn patrymau masnachu ar gyfer rhai mathau o fusnesau. Er enghraifft, nid yw bellach yn gyfreithlon bosibl mewnforio cig o'r UE i'w sleisio, ei ailbecynnu a'i ailallforio i'r UE. Mae'n bosibl bod y cyfyngiad hwn wedi cael effaith sylweddol ar y diwydiant porc a bod iddo oblygiadau i gadwyni cyflenwi bwyd y DU.

17 Cymerwyd y ffigurau hyn hyd at 2021. Mae ffigurau ar gyfer 2022 yn debygol o newid o ganlyniad i'r sefyllfa yn Wcráin. Bydd hyn yn cael ei nodi mewn adroddiadau yn y dyfodol.

18 Bydd rhai gwiriadau FNAO risg uchel yn cael eu cynnal beth amser ar ôl i'r cynhyrchion ddod i mewn, felly gallai'r niferoedd a nodir yn ddiweddarach yn y bennod hon gynyddu oherwydd gwiriadau a gofnodwyd ar ôl i'r data gael ei grynhoi ar gyfer yr adroddiad hwn (Chwefror 2022).

19 Daw'r ffigurau hyn o System Arbenigol Masnach a Rheoli (TRACES) yr UE ar gyfer 2020 a System Mewnforio Cynhyrchion, Anifeiliaid, Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (IPAFFS) Defra ar gyfer 2021. Mae'r data ar gyfer Prydain Fawr yn unig. Ar hyn o bryd ni allwn bennu data canlyniadau ar gyfer gwiriadau ffisegol cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid (POAO) ar gyfer 2021.

20 Mae afflatocsinau yn deulu o docsinau a gynhyrchir gan ffyngau penodol a geir ar gnydau amaethyddol fel indrawn (corn), pysgnau, hadau cotwm, a chnau coed.

21 Rhennir y cyfrifoldeb am fynd i'r afael â brigiadau o achosion o glefydau a gludir gan fwyd ag Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU a'r asiantaethau iechyd cyhoeddus priodol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r asiantaethau hyn yn arwain ar waith gwyliadwriaeth yr holl glefydau heintus, gan gynnwys pathogenau gastroberfeddol sy'n achosi salwch a gludir gan fwyd, ac mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn ymchwilio i ba elfennau o'r gadwyn fwyd y gellir effeithio arnynt yn sgil hyn.

22 Troseddau bwyd difrifol yw'r rheiny sy'n achosi niwed sylweddol i ddefnyddwyr, y rheiny sydd â chyrhaeddiad daearyddol eang, a'r rheiny sy'n dangos troseddoldeb ar raddfa fawr neu sy'n peri risg sylweddol i enw da'r DU a'i buddiannau.

23 Mae enghreifftiau o ddigwyddiadau bwyd yn cynnwys:

- Bwyd a halogir â **micro-organebau niweidiol** fel Salmonela, E.coli neu Listeria, a allai achosi salwch a gludir gan fwyd
- Presenoldeb **alergenau** bwyd heb ddatganiad ar y label (neu gyda datganiad anghywir), a allai beri risg i bobl ag alergeddau neu anoddefiadau bwyd
- Presenoldeb **ychwanegion anawdurdodedig** mewn cynhyrchion bwyd neu fwyd anifeiliaid, a allai beri risg i iechyd os cânt eu bwyta
- Halogi bwyd neu fwyd anifeiliaid **â chemegion** fel plaladdwyr anghyfreithlon, metelau trwm neu docsinau eraill, a allai eu gwneud yn anniogel
- Halogi bwydydd â **deunyddiau estron** fel plastig, gwydr neu fetel, boed yn ddamweiniol neu'n fwriadol, a fydd yn niweidiol i ddefnyddwyr os cânt eu bwyta.

24 Mae data adrodd hefyd wedi'i effeithio gan fathau newydd o beryglon a nodwyd, fel cudd-deithwyr mewn cerbydau bwyd – mae hyn yn cyflwyno risg halogi bwyd sy'n cael ei gludo, a chyswllt â materion troseddol eraill fel masnachu pobl.

25 Un o fanteision allweddol dilyniannu genom cyfan yw ei fod yn caniatáu cysylltu achosion mewn ffordd nad oedd yn bosibl o'r blaen, sy'n golygu bod mwy o frigiadau o achosion o glefydau bellach yn cael eu nodi. Rydym yn rhoi enghraifft isod o sut mae hyn wedi helpu i wella ein hymateb i ddigwyddiadau diogelwch bwyd (pwynt 29).

26 Mae ethylen ocsid yn driniaeth wrth-ficrobaidd sydd wedi'i gwahardd yn yr UE a'r DU gan ei bod yn garsinogen hysbys. Mae'r lefelau uchel o ddigwyddiadau yn arwydd o lefelau uchel o fesurau rheoli gan awdurdodau diogelwch bwyd i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu a bod nwyddau yr effeithiwyd arnynt yn cael eu tynnu o'r farchnad.

27 Ffynhonnell: Systemau Rheoli Digwyddiadau'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban.

28 Mae'r broses tynnu'n ôl yn digwydd pan fydd bwyd anniogel yn cael ei dynnu o'r gadwyn gyflenwi cyn iddo gyrraedd defnyddwyr. Mae'r broses galw bwyd yn ôl yn digwydd pan gaiff bwyd anniogel ei dynnu o'r gadwyn gyflenwi ac y cynghorir defnyddwyr i gymryd camau priodol, fel dychwelyd neu gael gwared ar fwyd anniogel.

29 Mae'r system fonitro newydd hefyd yn helpu i nodi risgiau eraill i ddefnyddwyr, gan gynnwys presenoldeb Listeria mewn cynhyrchion sesame o Syria, Salmonela mewn madarch enoki o wledydd dwyrain a de-ddwyrain Asia, a halogiad mwstard posib heb ei ddatgan mewn cynhyrchion gwenith o'r Eidal. Mae'r rhain i gyd yn ymwneud â chynhyrchion bwyd a fewnforir ac maent wedi arwain at samplu targededig i nodi a thynnu bwydydd anniogel oddi ar y farchnad.

30 Er enghraifft, ym mis Ebrill 2021,cafodd brigiad o achosion o Salmonela Braenderup a oedd yn gysylltiedig â melonau ei nodi trwy Ddilyniannu Genom Cyfan, a wnaeth ganiatáu i'r ASB ac UKHSA nodi ffynhonnell y brigiad o achosion yn gyflym. Gan weithio gydag awdurdodau yn Honduras a gwledydd eraill yr effeithiwyd arnynt, llwyddodd gwyddonwyr y DU i ddangos trwy'r proffilio genomig taw melonau o Honduras oedd achos y brigiad. Mae awdurdodau yn Honduras bellach yn gweithio gyda'r tyfwyr i roi camau adferol ar waith i atal brigiadau o achosion yn y dyfodol.

31 Mae saith prif fath o droseddau bwyd:

1. **Dwyn** – cael gafael ar gynhyrchion bwyd, diod neu fwyd anifeiliaid mewn ffordd anonest er mwyn gwneud elw trwy eu defnyddio neu eu gwerthu.
2. **Prosesu anghyfreithlon** – lladd neu baratoi cig a chynhyrchion cysylltiedig mewn safleoedd sydd heb eu cymeradwyo, neu gan ddefnyddio technegau sydd heb eu hawdurdodi.
3. **Dargyfeirio gwastraff** – rhoi bwyd, diod neu fwyd anifeiliaid sy'n wastraff yn ôl i mewn i'r gadwyn fwyd yn anghyfreithlon.
4. **Difwyno** – cynnwys sylwedd estron nad yw wedi'i restru ar label y cynnyrch i ostwng costau neu ffugio ansawdd uwch.
5. **Amnewid** – amnewid bwyd neu gynhwysyn gyda sylwedd arall sy'n debyg ond yn israddol.
6. **Camgynrychioli** – marchnata neu labelu cynnyrch yn anonest o ran ei safon, ei ddiogelwch, ei darddiad neu ei ffresni.
7. **Twyllo dogfennau** – creu, defnyddio neu feddu ar ddogfennau ffug gyda'r bwriad o werthu neu farchnata cynnyrch twyllodrus neu is-safonol.

32 Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn **Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Cynnwys Cig 2014** – gweler Rheoliad 4 ac Atodlen 1.

33 I gael rhagor o fanylion, gweler Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Diwygio) (Lloegr) 2019, Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2020) 2, Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Diwygio Rhif 2020) (Gogledd Iwerddon) 2021, a Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Yr Alban) Diwygio 2021.

34 Daw'r ystadegau ar gyfer y diagram hwn o'r ffynhonnell ganlynol: **Adroddiad ymchwil yr ASB The Burden of Foodborne Disease in the UK 2018**. Mae'r ffynonellau bwyd cyffredin ar gyfer pob pathogen yn deillio o'r adroddiadau canlynol: **Adroddiad yr ASB ar Astudiaeth Priodoli Norofeirws**; **Adroddiad yr ASB ar wyliadwriaeth foleciwlaidd well a phriodoli ffynonellau heintiau campylobacter yn y DU** a'r **Adroddiad One Health ar Filheintiau (2019)**. Mae cyfanswm o 2.4 miliwn o achosion o salwch a gludir gan fwyd yn y DU bob blwyddyn, sy'n costio cyfanswm o £9 biliwn i'r economi, gan gynnwys £3 biliwn ar gyfer salwch sydd wedi'i briodoli i bathogen hysbys.

35 Cynhelir asesiadau cydymffurfiaeth mewn amrywiaeth o fusnesau. Mae’r rhain yn cynnwys gweithgynhyrchwyr a phecynwyr, mewnforwyr ac allforwyr, dosbarthwyr a chludwyr, manwerthwyr, bwytai ac arlwywyr. Ym mhob achos, asesir lefel cydymffurfiaeth y sefydliad yn erbyn ystod o feini prawf, gan gynnwys sut mae bwyd yn cael ei drin, ei storio, a’i baratoi, glendid cyfleusterau a sut mae diogelwch bwyd yn cael ei reoli. Gall y meini prawf asesu amrywio ar draws y DU a chânt eu cynnal yn unol â’r Codau Ymarfer Cyfraith Bwyd perthnasol. Gweler y **Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (ar gyfer yr Alban)** a’r **Codau Ymarfer Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon)**.

36 Yng **Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon**, mae’r ASB yn olrhain cyfran y sefydliadau bwyd sy’n ‘cydymffurfio i raddau helaeth’ â’r safonau cyfreithiol hylendid bwyd, sy’n golygu bod y sefydliad bwyd wedi cael sgôr o ddim mwy na 10 am gydymffurfio â rheolaethau hylendid, strwythur a hyder mewn rheolwyr. Mae’r ASB wedi defnyddio’r System Monitro Gwaith Gorfodi Awdurdodau Lleol (LAEMS) i gasglu’r data hwn hyd at 2019/20. Newidiwyd trefniadau adrodd i ffurflen bwrpasol yn 2020/21 i leihau’r baich ar awdurdodau lleol yn ystod y pandemig.

Mae Safonau Bwyd yr **Alban** yn defnyddio Cronfa Ddata Genedlaethol yr Alban (SND), a ddisodlodd System Monitro Gwaith Gorfodi Awdurdodau Lleol (LAEMS) yn 2017. Mae’r SND yn casglu data cydymffurfio o systemau cronfeydd data awdurdodau lleol, gan gynnwys canlyniad arolygiadau. Mae awdurdodau lleol yr Alban yn defnyddio’r System Sgorio Cyfraith Bwyd (FLRS) i roi sgôr risg i safleoedd. Mae hwn yn gynllun sgorio risg cymharol newydd sydd wedi’i roi ar waith yn raddol yn yr Alban ers 2018 ac sy’n cyfuno hylendid bwyd a safonau bwyd yn un drefn arolygu. Mae FLRS wedi’i gyflwyno’n raddol fel cynllun sgorio risg newydd o 2018 ymlaen.

Yng **Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon**, mae’r data ar gyfer 2018/19 a 2019/20 yn dangos bod mwy na 95% o sefydliadau ym mhob un o’r tair gwlad yn cydymffurfio i raddau helaeth neu’n well. Yng Ngogledd Iwerddon y gwelwyd y gyfradd uchaf o gydymffurfio (98.4%), wedi’i dilyn gan Gymru (96.6%) a Lloegr (95.7%).

Yn yr **Alban**, yn ystod y cyfnod perthnasol, bu newid i’r cynllun sgorio risg felly nid oes modd cymharu’n uniongyrchol. Serch hyn, bu cynnydd yn nifer y sefydliadau bwyd a oedd yn cydymffurfio â safonau hylendid bwyd o 89.3% yn 2018/19 i 92.7% yn 2020/21. Mae statws cydymffurfio â safonau bwyd, sy’n cwmpasu’r gofynion o ran ansawdd, cyfansoddiad, halogiad cemegol, labelu, cyflwyno a hysbysebu bwyd, wedi parhau i fod yn uchel, sef 99% yn ystod y cyfnod dan sylw. Mae statws cydymffurfio â Chyfraith Bwyd, o dan y System Sgorio Cyfraith Bwyd newydd, wedi aros yn 96.0% neu’n uwch ers 2018/19.

37 Mae'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd a'r Cynllun Gwybodaeth am Hylendid Bwyd yn rhoi gwybodaeth am safon hylendid bwyd busnesau yn seiliedig ar yr arolygiad diweddaraf gan swyddog diogelwch bwyd awdurdod lleol. Mae'r ddau gynllun yn ymdrin â sgoriau mewn ffordd wahanol. Mae'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn rhoi sgôr rhwng 0 a 5 lle mae 5 yn cynrychioli'r sgôr uchaf, gan nodi safonau hylendid 'da iawn'. Mae'r Cynllun Gwybodaeth am Hylendid Bwyd yn rhoi gradd 'pasio' neu 'angen gwella'. Mae'r cynlluniau'n cael eu cynnal gan yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol. Rhoddir sgôr i safleoedd lle mae bwyd yn cael ei gyflenwi neu ei werthu i ddefnyddwyr, gan gynnwys bwytai, tafarndai, caffis, siopau tecawê, ysbytai, cartrefi gofal ac ysgolion. Yng Nghymru, mae'r cynllun hefyd yn cwmpasu gweithrediadau busnes-i-fusnes fel gweithgynhyrchwyr sy'n dod o dan gylch gwaith awdurdodau lleol.

Ers 31 Rhagfyr 2021 yng **Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon**, cafodd 97.0% o fusnesau bwyd sgôr foddhaol ar y cyfan o 3 neu uwch gyda 70.7% yng Nghymru, 74.9% yn Lloegr ac 83.5% yng Ngogledd Iwerddon yn ennill y sgôr uchaf o 5. Mân amrywiadau yn unig a welwyd ym mhroffil y sgoriau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

At ei gilydd, enillodd 74.9% o fusnesau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon y sgôr uchaf o 5. Yn y cyfamser, enillodd 3.0% o sefydliadau bwyd sgôr o 2 neu is, sy'n golygu angen gwella, angen gwella yn sylweddol neu angen gwella ar frys.

Yn yr **Alban**, mae data FHIS yn dangos cyfradd lwyddo o 93.8% dros y tair blynedd diwethaf, gyda 6.2% o fusnesau angen gwella. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod diffyg gwahaniaeth ystyrlon rhwng sgoriau llwyddo 2020 a 2021 oherwydd bod llai o arolygiadau wedi'u cynnal yn ystod y pandemig, fel y disgrifir yn adran 'a effeithiodd y pandemig ar safonau hylendid bwyd' y bennod dan sylw.

38 Mae'r cyfrifoldebau dros oruchwylio cydymffurfiaeth mewn sefydliadau hylendid cig yn amrywio ar draws y gwledydd fel a ganlyn:

- Yng **Nghymru a Lloegr**, mae'r ASB yn cynnal archwiliadau o fusnesau bwyd i wirio cydymffurfiaeth mewn sefydliadau cig cymeradwy ac yn gweithio gyda gweithredwyr busnesau bwyd i nodi lle mae angen gwella.
- Yn **yr Alban**, mae Safonau Bwyd yr Alban yn cynnal archwiliadau o sefydliadau cig cymeradwy i wirio cydymffurfiaeth â safonau diogelwch bwyd a hylendid bwyd cyfreithiol, gan weithio gyda busnesau i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd lle bo angen.
- Yng **Ngogledd Iwerddon**, mae Rhaglen Iechyd y Cyhoedd Milfeddygol (VPHP) yr Adran Amaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn cynnal rheolaethau swyddogol ar hylendid cig a gweithgareddau swyddogol eraill ar gyfer yr ASB mewn sefydliadau cig cymeradwy er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.
- Cynhelir archwiliadau gan archwilwyr milfeddygol.
- Pennir sgoriau Da, Boddhaol ar y cyfan, Angen Gwella neu Angen Gwella ar Frys gan archwiliadau a gynhelir yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.
- Mae sefydliadau cig cymeradwy yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn destun cylchoedd archwilio sy'n amrywio o ran amlder gan ddibynnu ar eu proffil risg, fel

arfer o 2 fis i 18 mis. Gellir asesu lefel cydymffurfiaeth gweithredwyr busnesau bwyd yn rhannol trwy ganlyniadau archwilio. Mae'r data diweddaraf yn rhoi cipolwg o ganlyniadau archwiliadau fel yr oeddent ar 31 Rhagfyr 2021 ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Darperir data ar gyfer 2020 hefyd er mwyn cymharu. Fodd bynnag, effeithiodd y pandemig yn sylweddol ar archwiliadau a gynhaliwyd yn 2020, felly efallai na fydd modd cymharu'r data'n uniongyrchol.

- Ar gyfer yr Alban, mae'r cylch arolygu sy'n para 12 mis yn cynnwys nifer o arolygiadau ac ymyriadau ym mhob sefydliad cig cymeradwy. Mae pob ymyriad yn arwain at adroddiad ysgrifenedig a chanlyniad archwiliad canolradd, ac ar ôl hynny bydd ffatrïoedd yn cael canlyniad terfynol o'r archwiliad.

39 Yn 2020, gwnaeth Safonau Bwyd yr Alban atal archwiliadau gan weithredwyr busnesau bwyd mewn sefydliadau cig cymeradwy yn gyfan gwbl oherwydd y pandemig. Ailddechreuodd archwiliadau ym mis Ionawr 2021 gan ddefnyddio dull archwilio newydd, gyda ffatrïoedd yn ymuno â'r cylch arolygu yn raddol dros y 12 mis diwethaf. Roedd y dull newydd yn seiliedig ar adolygiad o bell o ddogfennaeth gweithredwr busnes bwyd ac arolygiadau hylendid ar y safle a gynhaliwyd gan archwilwyr milfeddygol. Mae'r asesiad o ganlyniadau archwilio hefyd wedi newid o dan y system newydd. Er enghraifft, bydd achos o ddiffyg cydymffurfio mawr sy'n dal i fod ar waith (nad yw gweithredwr y busnes bwyd wedi mynd i'r afael ag ef) bellach yn arwain at ganlyniad archwilio 'angen gwella'. Dylid nodi hefyd mai canlyniadau dros dro yw canlyniadau sefydliadau cig yr Alban yn 2021, yn hytrach na rhai terfynol. Mae'r ffatrïoedd sy'n mynd trwy'r cylch archwilio yn cael eu hasesu o bryd i'w gilydd (yn unol â'u cyfrifiad adnoddau), a gallant wella eu canlyniad erbyn diwedd y cylch archwilio. O ganlyniad, ni ellir cymharu'r data â blynyddoedd blaenorol nac â data'r ASB.

Yng **Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon**, fel yr oedd hi ar 31 Rhagfyr 2021, roedd 98.6% o weithredwyr busnesau bwyd yng Nghymru a Lloegr a 100% o weithredwyr busnesau bwyd yng Ngogledd Iwerddon yn cydymffurfio, gan ennill naill ai sgôr 'da' neu sgôr 'boddhaol ar y cyfan' yn eu harolygiad diweddaraf. Mae hyn yn dangos bod lefel gyson o weithredwyr busnesau bwyd yn cydymffurfio o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae'r ffigurau'n seiliedig ar ddata'r ASB ar gyfer **Sefydliadau Cig** a **Sefydliadau Cymeradwy**.

Yn yr **Alban**, fel yr oedd hi ar 31 Rhagfyr 2021, roedd 85.5% o weithredwyr busnesau bwyd yn cydymffurfio, gan ennill sgôr 'da' neu sgôr 'boddhaol ar y cyfan'. Yn 2019 a 2020, enillodd 84.3% o safleoedd sgôr dda neu foddhaol ar y cyfan. Mae'n anodd cymharu data 2021 â blynyddoedd blaenorol oherwydd newidiadau yn y dull archwilio. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod lefelau cydymffurfio unwaith eto wedi parhau i fod yn uchel, gydag ychydig iawn o newidiadau yn y gyfradd gydymffurfio o gymharu â'r blynyddoedd diwethaf. Canlyniadau dros dro yw'r canlyniadau ar gyfer 2021 ac nid canlyniadau terfynol. Mae'r ffatrïoedd sy'n mynd trwy'r cylch archwilio yn cael eu hasesu o bryd i'w gilydd (yn unol â'u cyfrifiad adnoddau), a gallant wella eu canlyniad erbyn diwedd y cylch archwilio. O ganlyniad, ni ellir cymharu'r data â blynyddoedd blaenorol nac â data'r ASB.

40 Dyma gyfrifoldebau am reolaethau llaeth ledled y DU:

- **Yn yr Alban**, nid oes gan Safonau Bwyd yr Alban unrhyw rôl orfodi uniongyrchol ar gyfer hylendid llaeth yn yr Alban. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am hyn yn yr Alban. Maent yn cynnal yr holl wiriadau a wneir ar ffermydd llaeth, ffatrïoedd prosesu llaeth hylifol a sefydliadau llaeth cymeradwy a chofrestredig eraill. Mae mwyafrif y daliadau llaeth naill ai'n ddaliadau categori D neu gategori E (sefydliadau risg isel), sy'n golygu eu bod yn cael eu harolygu bob dwy neu dair blynedd, yn y drefn honno. Mae Safonau Bwyd yr Alban yn cael gwybod am amlder a sgoriau arolygiadau trwy drafodaethau ag awdurdodau lleol yr Alban – yn enwedig y rhai sy'n eistedd ar weithgor arolygu llaeth o bell Safonau Bwyd yr Alban/Pwyllgor Cyswllt Gorfodi Bwyd yr Alban (SFELC).
- Yng **Nghymru a Lloegr**, mae'r ASB yn cyflogi arolygwyr hylendid llaeth i fonitro, gwirio a gorfodi cydymffurfiaeth â deddfwriaeth hylendid bwyd mewn daliadau cynhyrchu llaeth. Unwaith y bydd llaeth yn mynd ymlaen i'w brosesu a'i gynhyrchu pellach, daw'r awdurdod lleol priodol yn gyfrifol am reolaethau hylendid.
- Yng **Ngogledd Iwerddon**, mae Adran Amaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) yn cynnal arolygiadau hylendid llaeth ar ran yr ASB. Mae hyn yn cynnwys daliadau cynhyrchu llaeth, ffatrïoedd prosesu llaeth hylifol a llaeth amrwd mewn ffatrïoedd cynhyrchion llaeth cymeradwy. Mae DAERA hefyd yn cynnal arolygiadau sy'n gorfodi deddfwriaeth hylendid bwyd mewn safleoedd cymeradwy a chofrestredig eraill, gan gynnwys pasteurwyr ar y fferm, prynwyr llaeth, cludwyr, storfeydd dosbarthu a busnesau hunanwasanaeth.
- Mae busnesau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon sy'n aelodau o **gynllun sicrwydd gwirfoddol** a gymeradwyir gan yr ASB yn elwa ar gael eu harolygu'n llai aml. Mae hyn yn galluogi cyrff gorfodi cyfraith bwyd, gan gynnwys awdurdodau lleol, DAERA a'r ASB, i ganolbwyntio eu hadnoddau ar fusnesau nad ydynt yn cydymffurfio i'r un raddau ac sy'n peri risg uwch.
- Ni ddefnyddir cynlluniau sicrwydd trydydd part i leihau pa mor aml mae daliadau llaeth yn cael eu harolygu yn yr Alban.

41 Dyma sut roedd y pandemig yn effeithio ar weithgarwch arolygu llaeth ledled y DU:

- Yng **Nghymru a Lloegr**, dim ond arolygiadau risg uchel (hynny yw, ffermydd sy'n cynhyrchu llaeth yfed amrwd i'w gyflenwi'n uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol) a gwblhawyd pan oedd y pandemig yn ei anterth. Ar ôl llacio mesurau'r cyfnod clo, ailddechreuodd y rhaglen arolygu arferol ond gyda mesurau iechyd a diogelwch ychwanegol. Mae arolygiadau sydd heb eu cynnal yn cael eu blaenoriaethu ac mae cynllun ar waith i fynd i'r afael â'r rhain.
- Yng **Ngogledd Iwerddon**, cafodd arolygiadau ar y safle eu gohirio rhwng 17 Mawrth 2020 ac 8 Mehefin 2020, a hefyd yn ystod mis Ionawr 2021, er bod rhai arolygiadau o bell wedi'u cynnal dros y ffôn. Parhaodd arolygiadau wyneb yn wyneb y tu allan i'r cyfnodau hyn, er bod gweithdrefnau arolygu diwygiedig wedi bod ar waith er mwyn sicrhau gweithle sy'n ddiogel rhag COVID-19. Fodd bynnag, mae rhai agweddau ar y gwaith wedi parhau o bell.

- Yn yr **Alban** ataliodd awdurdodau lleol eu harolygiadau o safleoedd llaeth risg isel yn ystod y pandemig. Mae cynlluniau adfer a phob agwedd ar waith iechyd yr amgylchedd yn mynd rhagddynt bellach, ac mae rhai awdurdodau lleol yn treialu archwiliadau o bell ar gyfer ffermydd llaeth risg isel. Bydd y gwaith hwn yn galluogi awdurdodau i flaenoriaethu safleoedd risg uwch tra cynhelir hefyd drosolwg o weithrediadau a gyflawnir mewn lleoliadau risg is. Mae hefyd yn bwysig nodi y gwaherddir gwerthu llaeth amrwd yn yr Alban, sy'n newid proffil risg ei sefydliadau llaeth o gymharu â rhannau eraill o'r DU.

42 Yng **Nghymru a Lloegr**, roedd 80.6% o sefydliadau llaeth cymeradwy yn cydymffurfio yn 2021, gan ennill naill ai sgôr 'da' neu sgôr 'boddhaol ar y cyfan' yn eu harolygiad diweddaraf. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad bach mewn safonau o gymharu â data 2020 a 2019, lle'r oedd 83.0% ac 84.8% o sefydliadau llaeth yn cydymffurfio yn y drefn honno.

Yng **Ngogledd Iwerddon**, roedd 99.2% o sefydliadau llaeth yn cydymffurfio yn 2021, gan ennill sgôr 'da' neu sgôr 'boddhaol ar y cyfan'. Roedd hyn yn gyson â'r lefelau yn 2020 a 2019, lle'r oedd 99.0% o sefydliadau llaeth yn cydymffurfio. Dylid nodi bod gan Ogledd Iwerddon gyfran is o sefydliadau llaeth yfed amrwd (RDM) (0.2% o'r holl sefydliadau llaeth yng Ngogledd Iwerddon yn sefydliadau RDM o gymharu â 1.8% yng Nghymru a Lloegr).

Ystyrir bod sefydliadau RDM yn peri risg uwch ac maent yn destun arolygiadau amlach a gofynion samplu microbiolegol ychwanegol. Gall hyn arwain at ganlyniadau samplu anfoddhaol ac, o ganlyniad, yr angen am gamau gorfodi. Mae rhagor o wybodaeth am laeth yfed amrwd ar **wefan yr ASB**.

43 Yn yr **Alban**, fel rhan o wiriadau gorfodi arferol awdurdodau lleol, rhoddwyd cyngor ar lafar i 14.4% o fusnesau yn 2019/20, gyda 7.2% yn cael cyngor ysgrifenedig. Fodd bynnag, mae adolygiad o ddata cyn y pandemig yn dangos na chymerwyd unrhyw gamau gorfodi ffurfiol, a hynny oherwydd na chyhoeddwyd unrhyw hysbysiadau gwella hylendid rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2020. Mae hyn yn awgrymu lefel uchel o gydymffurfiaeth ar draws y sector yn ystod y cyfnod hwn.

**Mae'r wybodaeth ganlynol yn rhoi rhagor o fanylion am y dull a ddefnyddiwyd gan awdurdodau lleol:** Addysg a chyngor yw cam cyntaf y camau gorfodi. Defnyddir cyngor ar lafar yn aml yn gyntaf cyn cyflwyno hysbysiadau gorfodi ffurfiol. Os na fydd perchennog y sefydliad yn gweithredu ar y cyngor a roddwyd ar lafar, bydd camau gorfodi ffurfiol yn cael eu cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth cyn gynted â phosibl. Er nad yw'n bosib pennu at beth y mae'r canllawiau llafar ac ysgrifenedig a roddwyd i fusnesau yn cyfeirio, mae'n annhebygol bod y canllawiau'n cynnwys unrhyw gamau ffurfiol sy'n cael eu cymryd yn erbyn busnesau, gan fod hysbysiadau gwella hylendid yn cael eu cofnodi ar wahân.

44 Mae cyfrifoldebau ar gyfer rheolaethau bwyd anifeiliaid yn cael eu rhannu fel a ganlyn:

- Yng **Ngogledd Iwerddon**, yr Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) sy'n gyfrifol am orfodi'r holl reolaethau bwyd anifeiliaid, tra bod yr ASB yn parhau i fod yn gyfrifol am ddeddfwriaeth a pholisi bwyd anifeiliaid.
- Yn **yr Alban**, hyd at 1 Ebrill 2021, awdurdodau lleol yr Alban oedd sy'n gyfrifol am sicrhau bod busnesau bwyd anifeiliaid yn eu hardal yn cydymffurfio â chyfraith

bwyd anifeiliaid. Ers hynny, mae Safonau Bwyd yr Alban wedi bod yn gyfrifol yn ffurfiol am hynny, er bod llawer o awdurdodau lleol yn parhau i gynnal rheolaethau bwyd anifeiliaid ar eu rhan.

- Yng **Nghymru a Lloegr**, yr ASB sy'n gyfrifol am ddeddfwriaeth a pholisi bwyd anifeiliaid, tra bod awdurdodau lleol yn cynnal rheolaethau bwyd anifeiliaid. Cyflawnir hyn trwy raglen flynyddol o ymyriadau sy'n seiliedig ar risg a gynhelir gan swyddogion awdurdodau lleol.

45 Mae gwahaniaethau pwysig o ran sut a phryd y casglwyd y data cydymffurfio a roddwyd ar gyfer busnesau bwyd anifeiliaid ledled pedair gwlad y DU:

- Daw'r data cydymffurfio ar gyfer safleoedd bwyd anifeiliaid yng **Nghymru a Lloegr** o'r cynlluniau arolygu bwyd anifeiliaid blynyddol a gynhelir bob blwyddyn gan awdurdodau lleol. Cesglir y data hwn gan yr ASB yng Nghymru a Safonau Masnach Cenedlaethol yn Lloegr. Data 2019 yw'r data dilys diweddaraf a gedwir ar gyfer Lloegr, am fod y pandemig wedi tarfu ar y gwaith cynllunio blynyddol.
- Yng **Nghymru**, gwnaed newidiadau i'r model gweithredu bwyd anifeiliaid ym mis Ebrill 2015, sy'n golygu bod awdurdodau lleol yn cydweithio ar draws chwe rhanbarth gyda'r ASB yn goruchwylio. Mae'r rhaglen gweithredu bwyd anifeiliaid yng Nghymru yn blaenoriaethu rheolaethau swyddogol ar safleoedd sy'n newydd, sy'n cydymffurfio'n wael neu sy'n peri risg uwch oherwydd natur eu gweithgareddau, sy'n golygu nad yw'r ganran yn adlewyrchu lefelau cydymffurfio ar draws y sector cyfan yn iawn. Dylid nodi bod cyfanswm y sefydliadau bwyd anifeiliaid sydd wedi cael rheolaeth swyddogol wedi parhau i gynyddu, ac mae'r rhan fwyaf o'r safleoedd a arolygwyd wedi dod o fewn y categorïau cydymffurfiaeth foddhaol neu uwch.
- Mae'r ffigurau a ddarparwyd ar gyfer busnesau yn yr **Alban** yn 2016 a 2017 yn seiliedig ar yr arolygiadau hynny a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol y mae'r Safonau Bwyd yr Alban wedi nodi canlyniadau ar eu cyfer. Casglodd Safonau Bwyd yr Alban y canlyniadau arolygu hysbys diwethaf gan awdurdodau lleol yn 2018, ac ni chofnodwyd yr wybodaeth hon yn genedlaethol nes i Safonau Bwyd yr Alban ddod yn awdurdod cymwys ar gyfer bwyd anifeiliaid ym mis Ebrill 2021. Ers hynny, mae system electronig ar gyfer cofnodi gweithgarwch arolygu a chanlyniadau ar draws pob ardal awdurdod lleol wedi bod ar waith. Mae'r system hon yn golygu bod modd cyflwyno gwybodaeth arolygu'n uniongyrchol i Safonau Bwyd yr Alban, ac mae'n ei gwneud yn bosibl i gynhyrchu data cyfredol ar ganlyniadau'n gyflym ar gyfer pob arolygiad bwyd anifeiliaid.

46 Mae grwpiau cyswllt bwyd yn darparu rhwydwaith i awdurdodau lleol rannu gwybodaeth ag awdurdodau cyfagos a'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban. Mae gweithgareddau'n cynnwys rhannu arferion da, lleihau'r baich ar fusnesau a hwyluso'r gwaith o orfodi cyfraith bwyd yn effeithlon, yn effeithiol ac yn gyson.

47 Mae milfeddygon swyddogol yn chwarae rhan hollbwysig wrth sicrhau bod cig sy'n cael ei gynhyrchu mewn lladd-dai neu ffatrïoedd prosesu yn cael ei gynhyrchu'n ddiogel ac yn unol â'r cyfreithiau perthnasol. Mae Arolygwyr Hylendid Cig yn sicrhau bod ffatrïoedd prosesu bwyd a lladd-dai yn cadw at safonau diogelwch a hylendid.

# Diolchiadau

Yn gyntaf, hoffem ddiolch i'r llu o gyfranwyr yn yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban sydd wedi helpu i greu'r adroddiad hwn. Mae hon yn fenter newydd ac yn ymdrech ar y cyd ledled y DU, gyda chyfraniad helaeth gan arbenigwyr polisi o bob un o'r pedair gwlad. Gobeithiwn fod y broses wedi cadarnhau'r berthynas waith gref rhwng y ddau sefydliad.

Roedd yr adroddiad hefyd wedi elwa'n fawr ar fewnbwn arbenigol gan y deuddeg adolygydd allanol a archwiliodd ddrafftiau cynnar a darparu cymorth a beirniadaeth adeiladol ar bob cam. Mae'r adroddiad hwn yn gryfach oherwydd eu parodrwydd i roi cyngor a rhannu eu doethineb yn hael. Rydym yn arbennig o ddiolchgar i'r bobl canlynol:

## Pennod 1: Plât y genedl

- Yr Athro Lynn Frewer, Athro Bwyd a Chymdeithas, Prifysgol Newcastle
- Yr Athro Morven G. McEachern, Athro Cynaliadwyedd a Moeseg, Prifysgol Huddersfield

## Pennod 2: Safbwynt byd-eang

- Yr Athro Katrina Campbell, Athro Diogeledd Bwyd a Diagnosteg, Prifysgol y Frenhines, Belfast
- Yr Athro Dennis Novy, Athro Economeg, Prifysgol Warwick

## Pennod 3: Diogel a chadarn

- Yr Athro Tony Hines MBE
- Yr Athro Louise Manning, Prifysgol Lincoln

## Pennod 4: Hysbysu defnyddwyr

- Dr Vitti Allender, Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Dr David Mela, Maethegydd Cofrestredig a Chymrawd y Gymdeithas Maeth
- Dr Michael Walker, Athro Anrhydeddus, Prifysgol y Frenhines, Belfast

## Pennod 5: Pwysigrwydd hylendid

- Yr Athro Ian Brown OBE, Ysbytai Prifysgol Rhydychen a'r Sefydliad Bwyd, Maeth ac Iechyd, Prifysgol Reading
- Dr Belinda Stuart-Moonlight, Moonlight Environmental Ltd
- Dr Nicholas Watson, Athro Cyswllt, Prifysgol Nottingham

ISBN 978-1-5286-3396-3
E02754112